

Natur a lefel puteindra a gwaith rhyw yng Nghymru a Lloegr heddiw

Adroddiad gan yr Athro Marianne Hester, Dr Natasha
Mulvihill, Dr Andrea Matolcsi, Dr Alba Lanau Sanchez a
Sarah-Jane Walker

Y Ganolfan Ymchwil i Rywedd a Thrais
Prifysgol Bryste

Hydref 2019

Cafodd y gwaith hwn ei gomisiynu gan y Swyddfa Gartref a Chomisiynydd yr
Heddlu a Throseddu De Cymru

Cydnabyddiaethau

Ni fyddai'r astudiaeth hon wedi bod yn bosibl heb gymorth cannoedd o gyfranogwyr, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol mewn sefydliadau statudol, academiaidd ac anllywodraethol.

Yn fwyaf arbennig, clywsom oddi wrth fwy na 500 o unigolion a oedd yn gysylltiedig â phuteindra a gwaith rhyw neu wedi bod yn y gorffennol. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r sawl a wnaeth roi o'u hamser a rhannu eu barn a'u profiadau personol, a diolchwn yn arbennig i'r rhai a gwblhaodd y cyfweiliadau dilynol drwy e-bost. Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn adlewyrchu eu lleisiau amrywiol yn gywir.

Y tîm ymchwil, Mai 2019.

Crynodeb gweithredol

Yn ystod gwanwyn 2018 cafodd tîm o gomisiynwyr ym Mhrifysgol Bryste ei gomisiynu gan y Swyddfa Gartrefa Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru i adrodd ar 'natur' a 'lefel' bresennol puteindra yng Nghymru a Lloegr. Yn unol â'r cylch gwaith gwnaethom ganolbwyntio ar oedolion 18 oed neu drosodd. Ni ofynnwyd i ni adrodd ar bolisi na'r gyfraith. Lluniodd y tîm ymchwil ddiffiniad gweithredol cyffredinol o'r diwydiant rhyw:

Mae puteindra a/neu waith rhyw yn gyfystyr â gweithredoedd rhywiol neu erotig neu agosatrwydd rhywiol yn gyfnewid am dâl neu fudd neu angen arall.

Cafodd yr ymchwil ei chynnal rhwng mis Mai 2018 a mis Mehefin 2019. Gwnaethom ateb y set o gwestiynau mewn cyfuniad o ffyrdd (gweler **Atodiad 1**):

1. Chwiliad systematig am gyhoeddiadau academiaidd perthnasol a chyhoeddiadau eraill ar ôl 2000, er mwyn nodi'r sail dystiolaeth bresennol – nodwyd dros 1400 o eitemau;
2. Arolwg cyhoeddus ar-lein, a oedd ar gael am chwe mis, lle cafwyd 1180 o ymatebion ansoddol cyflawn, gan gynnwys 529 gan unigolion a nododd eu bod yn gysylltiedig â phuteindra a gwaith rhyw ar hyn o bryd neu wedi bod yn y gorffennol;
3. 135 o wahoddiadau i grŵp cynrychioliadol o blith y 529 o unigolion a ymatebodd i'r arolwg a nododd eu bod yn gysylltiedig ar hyn o bryd neu wedi bod yn y gorffennol, i gymryd rhan mewn holiadur manwl dilynol drwy e-bost (cwbllhawyd 42 o'r rhain);
4. Er mwyn ceisio cyrraedd yr unigolion hynny nad oeddent yn debygol o ymateb i arolwg ar-lein, gwnaethom anfon holiaduron i 76 o sefydliadau anllywodraethol i'w rhoi i'w defnyddwyr gwasanaeth neu aelodau: cafwyd 16 o ymatebion gan ddefnyddwyr gwasanaeth/aelodau unigol ynghyd â thri ymateb gan staff sefydliadau anllywodraethol yn seiliedig ar eu gwaith gyda defnyddwyr gwasanaeth/aelodau;
5. Gwnaethom wahodd 35 o sefydliadau anllywodraethol a 42 o heddluoedd i dreialu proses casglu data er mwyn amcangyfrif y lefel (ymatebodd 11 o sefydliadau anllywodraethol a phum heddlu; cymerodd cynrychiolwyr pellach o'r ddau grŵp ran mewn trafodaethau ynghylch y data a/neu ymgynghoriadau rhanbarthol);
6. Cynhaliwyd ymgynghoriadau a thrafodaethau ar ffurf grŵp, wyneb yn wyneb a thrwy e-bost â mwy na 90 o sefydliadau gan gynnwys cydweithfeydd gweithwyr rhyw, gwasanaethau cymorth, heddluoedd, gwefannau oedolion, awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr, yn ogystal â phrif academyddion, ar wahanol gamau o'r ymchwil.

I bennu 'natur' puteindra a gwaith rhyw, gwnaethom ddatblygu teipoleg o ddata'r ymchwil a fyddai'n disgrifio ac yn dosbarthu arferion cyfoes. Mae dwy elfen i hyn. Yn Adran 1, rhan (a) o'r adroddiad hwn trafodwn chwe thema sy'n berthnasol i'r sector cyfan, sef:

- Nodi gwaith rhyw, ystyried eich hun yn weithiwr rhyw
- Hunaniaethau cymdeithasol, anghydraddoldebau a ffyrdd i mewn
- Patrymau ymgysylltu a symud rhwng lleoliadau/gwasanaethau
- Hysbysebion, taliadau a thrydydd partïon
- Risg, niwed a rheoli diogelwch
- Prynwyr a phrynu

Yn Adran 1, rhan (b), nodwn 14 o leoliadau a gwasanaethau a disgrifiwn eu prif nodweddion:

Gwaith rhyw mewn bariau a bariau	Partïon rhyw
Croesawferched BDSM, cinc a ffetis	Stryd ac awyr
Puteindai, parlyrau, sawnau	agored
Dawnsio erotig ac egsotig	Trefniadau siwgr
Tylino erotig	Voyeuriaeth fyw, dros y ffôn, drwy neges destun,
Esgort: annibynnol	ar y teledu
Esgort: asiantaeth	Gwasanaethau therapiwtig
Pornograffi, Glamor ac Erotica	Gwe-gamio

O ran asesu'r 'lefel', gofynnwyd i ni edrych ar ffynonellau data i amcangyfrif lefel genedlaethol gwaith rhyw a phuteindra, a datblygu adnodd i asesu cadernid ffynonellau o'r fath. Yn Adran 2, ac yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn, rydym yn adolygu gwaith sy'n bodoli eisoes ac yn rhannu'r adnoddau rydym wedi eu datblygu. Mae hyn yn cynnwys adnodd asesu ansawdd data (**Atodiad 9**) a all gael ei ddefnyddio gan sefydliadau er mwyn helpu i lunio'r amcangyfrifon gorau posibl ar gyfer eu hardal ddaearyddol.

Dylid nodi nad oes unrhyw ffynhonnell ddata yn y DU ar hyn o bryd yn ein galluogi i lunio amcangyfrifon cynrychioliadol o'r boblogaeth ar gyfer y grŵp hwn. Mae stigma, natur breifat a chudd y diwydiant rhyw, a byrhoedledd gweithgareddau yn golygu ei bod yn heriol amcangyfrif y lefel.

Mae astudiaethau blaenorol a ddefnyddiodd amrywiaeth o fethodolegau wedi esgor ar amcangyfrifon eang. Yn arbennig, mae astudiaethau wedi tueddu i ganolbwyntio ar rannau o'r diwydiant (stryd ac awyr agored; puteindai a pharlyrau; ac yn fwy diweddar, gwaith esgort) heb roi sylw digonol i rannau eraill o'r diwydiant (er enghraifft: gweithwyr sy'n ddynion a gweithwyr traws; y rheini sy'n gwneud bob hyn a hyn; dioddefwyr masnachu mewn pobl a cham-fanteisio ac ati). Er mwyn darparu amcangyfrif cywir, byddai angen i astudiaethau ddilyn canllawiau ac argymhellion casglu data a luniwyd ar y cyd gan UNAIDS a Sefydliad Iechyd y Byd (2010) a/neu ddefnyddio samplau ystadegol gynrychioliadol.

Mae'r hyn a nodir yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu profiadau'r sawl a gymerodd ran yn yr ymchwil a'r rhanddeiliaid a wnaeth ymgysylltu â hi. O ystyried y cyfyngiadau methodolegol a moesegol (gweler **Atodiad 1**), rydym yn cydnabod dau grŵp nas cynrychiolir yn ddigonol neu sy'n absennol yn yr adroddiad hwn:

- (1) Gweithwyr rhyw mudol;
- (2) Unigolion o Brydain a thu hwnt sy'n cael/a gafodd eu gorfodi drwy rym, sy'n cael/a gafodd eu masnachu, y cam-fanteisir/y cam-fanteisiwyd arnynt yn rhywiol a/neu sydd wedi'u trawmateiddio mewn perthynas â'u profiad.

Er ein bod wedi defnyddio cyfraniadau sefydliadau anllywodraethol a'r sail dystiolaeth a

gyhoeddwyd sy'n bodoli eisoes er mwyn ystyried y ddau grŵp hyn, bydd angen gwneud rhagor o waith, gan ddefnyddio dulliau, mesurau diogelu moesegol ac adnoddau priodol, er mwyn deall yn gliriach natur a lefel eu profiadau.

Yn gyffredinol, mae'r data a gasglwyd yn dangos cymhlethdod ac amrywiaeth y ffordd y caiff rhyw ei werthu yng Nghymru a Lloegr heddiw. Tanlinella hyn y ffaith bod angen bod yn ofalus wrth geisio gwneud honiadau cyffredinol ar y mater hwn. Gwnawn y sylw olaf hwn yn y fathysbryd.

Rydym yn cydnabod bod llawer o unigolion ym maes puteindra sy'n dioddef ecsbloetiaeth ddirfawr a niwed difrifol a pharhaus. Dywed rhai bod gwerthu rhyw yn ddewis gyrfa pleserus a phroffidiol, neu ei fod yn alwedigaeth therapiwtig. Ar sail y data rydym wedi eu casglu, ac yn sgil adolygu ymchwil sy'n bodoli eisoes, synhwyrwn fod cyfran sylweddol o unigolion (menywod a menywod trawsyn bennaf) yn gwerthu rhyw er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd, o ystyried y gwahanol gyfyngiadau yn eu bywydau o ran cyfrifoldebau gofalu, iechyd corfforol ac iechyd meddwl, diffyg mynediad i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol a gwasanaethau cymorth, gwahaniaethu yn y gweithle, neu resymau eraill. Gwaethygir eu sefyllfa gan stigma a rheoli diogelwch, ac mae llawer yn gweld, po fwyaf y maent yn gwerthu rhyw, y mwyaf anodd y gall fod i adael yn gyfan gwbl. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i unigolyn yn 'dewis' neu 'ddim yn dewis' a chydabu'r cyd-destun economaidd a chymdeithasol strwythurol lle caiff dewisiadau eu lleihau: neu, yn achos y rhai sy'n cael eu gorfodi i werthu rhyw, lle na chânt ddewis o gwbl. Gofynnwn i'r sawl sy'n darllen yr adroddiad hwn gydnabod y tensiynau hyn a'u cadw mewn cof.

CYNNWYS

Cydnabyddiaethau	2
Crynodeb gweithredol	2
Cyflwyniad	7
Dull	8
Canlyniadau	9
Cyflwyniad	9
Adran 1: 'Natur' puteindra a/neu waith rhyw	9
Rhan A: Themâu trawsbynciol	9
Nodi gwaith rhyw, ystyried eich hun yn weithiwr rhyw	9
Hunaniaethau cymdeithasol, anghydraddoldebau a ffyrdd i mewn	11
Patrymau ymgysylltu a symud rhwng lleoliadau/gwasanaethau	15
Hysbysebion, taliadau a thrydydd partïon	16
Risg, niwed a rheoli diogelwch	17
Prynwyr a phrynu	22
Rhan B: Lleoliadau a Gwasanaethau	23
Gwaith rhyw mewn bariau a bariau croesawferched	24
BDSM, Cinc a Ffetis	24
Puteindai, Parlyrau Tyliino a Sawnau sy'n gweithredu fel Puteindai	25
Tyliino Erotig	27
Dawnsio Erotig ac Egsotig	27
Gwaith esgort: Annibynnol	28
Gwaith esgort: Asiantaeth	29
Pornograffi, Glamor ac Erotica	29
Partïon Rhyw	29
Stryd/Awyr Agored	31
Trefniadau Siwgr	32
Voyeuriaeth Fyw, Dros y Ffôn, Drwy Neges Destun, Ar y Teledu	32
Gwasanaethau Therapiwtig	33
Gwe-gamio	34
Adran 2: Lefel	35
Sylwadau rhagarweiniol	35
Data a geisiwyd ac a gasglwyd	36
Cofnodion troseddol a data'r heddlu	36
Data gweinyddol ac iechyd	37

Awdurdodau lleol.....	37
Arolygon o'r boblogaeth gyffredinol.....	37
Llenyddiaeth academiaidd.....	38
Elusennau a sefydliadau anllywodraethol.....	38
Llwyfannau Ar-lein.....	39
Defnyddio astudiaethau achos.....	40
Asesu cadernid data.....	40
Datblygiadau yn y dyfodol.....	40
Llyfryddiaeth	41
Atodiadau.....	48
Atodiad 1 – Dulliau manwl.....	48
Atodiad 2 – Siart llif chwiliadau llenyddiaeth systematig	53
Atodiad 3 – Llenyddiaeth ar ddatblygu teipoleg puteindra/gwaith rhyw.....	62
Atodiad 4 – Cwestiynau cyfweiliadau dilynol drwy e-bost.....	62
Atodiad 5 - Arfer gorau wrth amcangyfrif lefel gwaith rhyw a phuteindra.....	65
Atodiad 6 - Crynodeb a gwerthusiad o ffynonellau data posibl ar gyfer amcangyfrif y lefel	68
Atodiad 7 – Amcangyfrifon blaenorol o'r lefel (1999-2018)	78
Atodiad 8 – Dulliau casglu data a rannwyd ag (1) sefydliadau anllywodraethol a (2) heddluoedd	83
Atodiad 9 – Adnodd asesu ansawdd data arfaethedig	87
Atodiad 10 - Dadansoddi data llwyfannau ar-lein.....	92
Atodiad 11 - Mesurau diogelwch llwyfannau ar-lein: Llwyfan B.....	96
Atodiad 12 – Canfyddiadau allweddol proses casglu data sefydliadau anllywodraethol.....	96

Cyflwyniad

Ar 1 Gorffennaf 2016, cyhoeddodd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref (HASC) ei adroddiad interim ar buteindra. Gwnaeth yr adroddiad chwe argymhelliad: dad-droseddoli llithio; diwygio deddfwriaeth rhedeg puteindy; dileu troseddau blaenorol yn ymwneud â phuteindra; llunio canllawiau i'r heddlu ac awdurdodau lleol; gwneud newidiadau polisi er mwyn atal masnachu mewn pobl ac ecsbloetiaeth; ac atgyfnerthu sail dystiolaeth puteindra. Derbyniodd ymateb y Llywodraeth fod angen ymchwil fanwl er mwyn datblygu sail dystiolaeth ddiuedd, cyn ystyried unrhyw newidiadau pellach i bolisi a deddfwriaeth.

Ar wahân i hynny, cynhaliodd Heddlu De Cymru ddadansoddiad proffilio ac ymgynghoriad ar sail yr heddlu ei hun er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r gofynion plismona o ran mathau o buteindra a gwaith rhyw, gan gynnwys puteindai a gweithgarwch ar-lein. Cafodd y gwaith hwn ei wneud drwy asesu'r data oedd ganddo ac mewn ymgynghoriad â darparwyr cymorth, gweithwyr rhyw stryd a menywod sy'n gweithio mewn parlyrau. Roedd y canfyddiadau lleol yn adlewyrchu rhai o'r materion a danlinellwyd gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref.

Yn ystod gwanwyn 2018 cafodd Prifysgol Bryste ei chomisiynu gan y Swyddfa Gartref a Heddlu De Cymru i ystyried **graddau a natur newidiol puteindra yng Nghymru a Lloegr**. Gofynnwyd i'r tîm ymchwil wneud y canlynol:

- datblygu teipoleg gynhwysfawr o buteindra cyfoes, gan ymgorffori profiadau gwahanol gweithwyr ac eraill sy'n gysylltiedig â phuteindra a gwaith rhyw. Byddai hyn yn cynnwys sectorau stryd ac oddi ar y stryd; y rheini sy'n gweithio ar-lein; y rheini sydd wedi'u masnachu at ddibenion cam-fanteisio arnynt yn rhywiol; a chategoriâu perthnasol eraill;
- datblygu dulliau o amcangyfrif graddau pob un o'r mathau hyn o buteindra; a nodi p'un a oes angen gwneud mwy o waith;
- lle y bo modd, poblogeiddio'r deipoleg gan ddefnyddio data arolwg a gweinyddol presennol.

Lluniodd yr ymchwilwyr ddiffiniad gweithredol cyffredinol o'r diwydiant rhyw:

Mae puteindra a/neu waith rhyw yn gyfystyr â gweithredoedd rhywiol neu erotig neu agosatrwydd rhywiol yn gyfnewid am dâl neu fudd neu angen arall.

Cafodd yr ymchwil ei chynnal rhwng mis Mai 2018 a mis Mehefin 2019.

Dull

Mae'r adran hon yn crynhoi ein dull: sut y gwnaethom geisio, casglu a dadansoddi data er mwyn ateb y set o gwestiynau – beth yw natur a lefel puteindra a gwaith rhyw yng Nghymru a Lloegr heddiw?

Yn unol â thelerau'r tendr, bu'n ofynnol i ni gynnal chwiliad systematig o'r llenyddiaeth, er mwyn nodi'r ymchwil a'r wybodaeth a oedd eisoes yn bodoli. Gwnaethom ddefnyddio'r adolygiad o lenyddiaeth i lunio 'teipoleg' o buteindra a gwaith rhyw a meini prawf mesur y lefel. Ar ôl sganio'r hyn a gafwyd yn gychwynol o'r llenyddiaeth (bron i 11,000 o eitemau) gallem weld mai dim ond darlun rhannol o buteindra a gwaith rhyw y byddai'n ei ddarparu, o ystyried y canlynol:

- (a) mae'n faes sydd wedi newid yn gyflym, yn enwedig ar ôl 2000, ac efallai na fydd yr holl bapurau heblaw'r rhai mwyaf diweddar yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol yng Nghymru a Lloegr;
- (b) mae'r llenyddiaeth yn dueddol o ganolbwyntio ar grwpiau penodol (e.e. gweithwyr stryd) neu ar faterion normadol, cyfreithiol a pholisi.

Felly, gwnaethom benderfynu ailbennu ffoecs y dull drwy roi mwy o bwyslais o lawer ar geisio safbwyntiau a phrofiadau cyfoes, gan gynnwys unigolion sy'n gysylltiedig â phuteindra a gwaith rhyw nawr neu a fu'n gysylltiedig yn ddiweddar. Roedd hyn yn cynnwys arolwg cyhoeddus ar-lein a geisiodd ymatebion ansoddol, yn ogystal â chyfweiliadau dilynol drwy e-bost. Cafodd y data hyn eu dadansoddi ynghyd â mapio'r llenyddiaeth, er mwyn ateb y cwestiynau ar natur a lefel. Yna, gwnaethom gynnal ymgynghoriad helaeth â sefydliadau anllywodraethol, asiantaethau cyfiawnder troseddol ac asiantaethau eraill, gweithwyr rhyw ac academyddion er mwyn profi dilystrwydd y canfyddiadau. I grynhoi felly, mae'r gwaith hwn yn seiliedig ar leisiau a phrofiadau'r rheini sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r sector ac o fewn y sector.

Drwy gydol y gwaith, ystyriwyd yn ofalus ein dull, ein prosesau cyfathrebu, diogelwch cyfranogwyr a'r ffordd yr ymdrinwyd â'r data a'u cyflwyno. Darparwyd gwybodaeth a cheisiwyd cydsyniad unigol ar gyfer yr arolwg, cyfweiliadau ac ymgynghoriadau. Cafodd y gwaith hwn ei gymeradwyo gan Bwyllgor Moesegau Ymchwil Prifysgol Bryste. Rhoddir manylion llawn ein dull yn **Atodiad 1**.

Dulliau manwl.

Nodwn ddau gyfyngiad allweddol o ran y gwaith hwn.

1. Ni cheisiodd ein harolwg ar-lein ddata demograffaid personol gan ymatebwyr. Roeddem yn ymwybodol y gallai astudiaeth wedi'i hariannu gan y Swyddfa Gartref olygu na fyddai rhai'n ymateb, petai'r fath gwestiynau gorfodol wedi'u hystyried yn fusneslyd. Gwnaethom hefyd geisio ymatebion agored, ansoddol (yn hytrach na rhai wedi'u categorio ymlaen llaw). Arweiniodd y ddau benderfyniad methodolegol at ddigonedd o ddata ar gyfer yr astudiaeth hon, fel mae Rhan 1 o'r adroddiad hwn yn ei ddangos. Y cyfyngiad yw na allem gyflwyno'r data hyn mewn termau rhifyddol syml na gwneud, er enghraifft, ddatganiadau ar yr union gyfran o ymatebwyr a gafodd brofiad penodol.
2. O ystyried y cyfyngiadau methodolegol a moesegol (gweler **Atodiad 1**), rydym yn cydnabod dau grŵp nas cynrychiolir yn ddigonol neu sy'n absennol yn yr adroddiad hwn:
 1. Gweithwyr rhyw mudol;
 2. Unigolion o Brydain a thu hwnt sy'n cael/a gafodd eu gorfodi drwy rym, sy'n cael/a gafodd eu masnachu, y cam-fanteisir/y cam-fanteisiwyd arnynt yn rhywiol a/neu sydd wedi'u trawmateiddio mewn perthynas â'u profiad.

Bydd rhai unigolion yn perthyn i'r ddau grŵp. Bydd angen gwneud rhagor o waith, gan ddefnyddio dulliau, mesurau diogelu moesegol ac adnoddau priodol, er mwyn deall natur a lefel eu profiadau'n gliriach.

Yn yr atodiadau, cyhoeddwn ein dulliau a'n hadnoddau casglu data er mwyn sicrhau tryloywder ac i eraill eu defnyddio, eu haddasu a'u beirniadu.

Canlyniadau

Cyflwyniad

Rhennir y Canlyniadau yn Adran 1, 'Natur' puteindra a/neu waith rhyw (a rennir ymhellach yn Rhan A: Themâu trawsbynciol a Rhan B: Lleoliadau a gwasanaethau) ac Adran 2: Lefel.

Adran 1: Natur' puteindra a/neu waith rhyw

Yn yr adran hon dechreuwn drwy ddarparu trosolwg o'r themâu trawsbynciol gan yr ymatebwyr i'n harolwg a'n cyfweiliadau drwy e-bost, cyn mynd ymlaen i amlinellu'n fras wahanol leoliadau a gwasanaethau presennol puteindra a/neu waith rhyw. Gyda'i gilydd, mae'r elfennau hyn yn creu ein teipoleg. Y neges glir drwy ein data yw bod puteindra a gwaith rhyw yn faes cymhleth. Efallai y bydd cymunedau â diddordeb am wneud rhagor o waith â chyd-destun penodol er mwyn nodi a datblygu elfennau o'r deipoleg. Gweler **Atodiad 3** am sylwadau cryno ar lenyddiaeth sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â theipoleg.

Rhan A: Themâu trawsbynciol

Mae'r isadran hon yn dwyn ynghyd yr ymatebion i'r arolwg ar-lein, y data o'r cyfweiliadau dilynol drwy e-bost a'r ymgynghoriadau â rhanddeiliaid. Cawsom 529 o ymatebion i'r arolwg ar-lein gan unigolion a ddywedodd eu bod yn gysylltiedig â phuteindra a gwaith rhyw neu wedi bod yn gysylltiedig â hynny, gan gynnwys saith a ddywedodd eu bod yn brynwyr rhyw. Gwnaethom ofyn i 135 o'r 529 o ymatebwyr gymryd rhan mewn cyfweiliadau dilynol drwy e-bost a chawsom 42 o ffurflenni wedi'u cwblhau. Gwnaethom hefyd anfon holiaduron i 76 o sefydliadau anllywodraethol er mwyn iddynt eu dosbarthu i'w defnyddwyr gwasanaeth neu eu haelodau: cafwyd 16 o ymatebion gan ddefnyddwyr gwasanaeth/aelodau unigol ynghyd â thri ymateb gan staff sefydliadau anllywodraethol yn seiliedig ar eu gwaith gyda defnyddwyr gwasanaeth/aelodau. Gan ddefnyddio'r data hyn, gwnaethom nodi'r prif themâu canlynol a oedd i'w gweld yn berthnasol i bob lleoliad a gwasanaeth. Y rhain oedd:

- Nodi gwaith rhyw, ystyried eich hun yn weithiwr rhyw
- Hunaniaethau cymdeithasol, anghydraddoldebau a ffyrdd i mewn
- Patrymau ymgysylltu a symud rhwng lleoliadau/gwasanaethau
- Hysbysebion, taliadau a thrydydd partion
- Risg, niwed a rheoli diogelwch
- Prynwyr a phrynu

Rydym wedi gweithio'n galed i godio a dadansoddi'r holl ddata hyn yn yr amser sydd ar gael. Fodd bynnag, o ystyried y prinder amser a natur ansoddol y data a gasglwyd, ni allwn mewn rhai achosion roi niferoedd pendant ynghylch sawl ymatebydd a fynegodd un farn neu'r llall. Felly, defnyddiwn dermau fel 'rhywfaint' neu 'rhai' i ddynodi llai o gyfranogwyr, a 'nifer fawr' neu 'llawer' i ddynodi barn a fynegwyd gan fwy na 10% o'r cyfranogwyr. Ym mhob achos, dylai'r sawl sy'n darllen yr adroddiad hwn osgoi dibynnu'n ormodol ar ddyfyniadau unigol.

Nodi gwaith rhyw, ystyried eich hun yn weithiwr rhyw

Mater allweddol sydd wedi codi yn y gwaith hwn yw dod o hyd i'r iaith gywir i sicrhau ein bod wedi cynnwys yr holl brofiadau sy'n perthyn i'n diffiniad o 'buteindra a gwaith rhyw'. Fel yr amlinellir yn y cyflwyniad, gwnaethom ddiffinio ein ffocws ar gyfer yr adroddiad hwn fel "gweithredoedd rhywiol neu erotig neu agosatrywydd rhywiol yn gyfnewid am dâl neu fudd neu angen arall". Bydd yr adran hon yn dangos pam y cafodd y termau hyn eu dewis.

Yn gyntaf, mae'n bwysig cydnabod y dadlau sydd ynghylch y termau 'putain/puteindra' a 'gweithiwr rhyw/gwaith rhyw'. Mae'r cyntaf o'r rhain yn cael ei ddefnyddio'n aml gan y rheini sy'n ei chael hi'n anodd dirnad bod cyfnewid rhyw am arian neu fudd arall yn 'waith' (efallai y byddant ond yn ei ystyried yn achos o gam-fanteisio a bod y defnydd o'r term 'gwaith' yn ei 'normaleiddio'; gallant wrthod y defnydd o'r term 'gwerthu'); a hefyd gan y sawl sydd am adfer geiriau a ddefnyddiwyd i bardduo (e.e. 'hwren', 'slwten', 'putain' ac ati). Deilliodd y term 'gwaith rhyw' (a gysylltir â Carol Leigh) o ddyhead i gydnabod yr unigolion hynny sy'n gwerthu rhyw a/neu lafur y rhai sy'n ymwneud â gwerthu rhyw ac sydd, i rai, wedi darparu hunaniaeth er mwyn uno a galw am hawliau a diogelwch gan y wladwriaeth. Gall gwaith rhyw hefyd gael ei ddefnyddio i gyfeirio at wasanaethau sy'n ehangach na chyfnewid rhyw am arian neu fudd arall yn unig: gall er enghraifft gynnwys stripio, actio mewn pornograffi neu we-gamio. Felly mae dadlau ynghylch yr iaith ac mae'r ddau derm 'puteindra' a 'gwaith rhyw' wedi tueddu i ddynodi safbwyntiau gwleidyddol, ideolegol neu foesebol croes. Fodd bynnag, gall yr ymagwedd 'dau lwyth' hon fod yn rhy syml ac anefnyddiol: mae ein data yn awgrymu bod cryn wahaniaeth o ran safbwyntiau a phrofiadau, ond mae llawer o dir cyffredin hefyd.

Fodd bynnag, roedd y gwahanol farn am iaith yn ei gwneud hi'n anodd ysgrifennu cwestiynau ar gyfer y cyfweiliadau a'r arolwg. Er enghraifft,

Mae "putain" yn sarhaus. Mae'n well gennym y term gweithiwr rhyw neu esgort. (Esgort Annibynnol DFAB¹ Anneuaidd)

Fe fydda i fel arfer yn disgrifio fy hun fel putain mewn sgysiau personol, ond wrth siarad â phobl y tu allan i'm grŵp clos o ffrindiau rwy'n defnyddio'r term 'gweithiwr rhyw gwasanaeth llawn'. (Gweithiwr Benywaidd mewn Puteindy)

Pwysleisiodd y rhai sy'n gweithio ym maes BDSM [bondais a disgyblaeth (B&D), dominyddu ac ufuddhau (D&S), a sadistiaeth a masochistiaeth (S&M)] yn arbennig nad oedd eu gwaith o reidrwydd yn cynnwys unrhyw gyswllt genitalaidd na'r tu mewn i berson:

Rwy'n Domme. Mae'n cael ei ystyried yn waith rhyw ond anaml iawn y byddaf yn tynnu fy nillad! (Dominyddydd Proffesiynol Benywaidd)

Rwy'n ddominyddydd proffesiynol... Nid wyf yn cynnig unrhyw wasanaethau rhywiol ond caf fy ystyried yn weithiwr rhyw am fod fy ngwaith yn erotig ei natur. (Dominyddydd Proffesiynol Benywaidd)

Bydd rhai yn nodi eu bod wedi 'goroesi' neu 'ddioddef' puteindra. Mae hyn hefyd yn cael effaith o ran p'un a yw unigolion yn ystyried prynwyr yn 'gleientiaid' neu'n 'gwsmeriaid' neu'n 'ecsbloetwyr'. Roedd un sefydliad anllywodraethol y gwnaethom gysylltu ag ef i ddosbarthu ein holiadur i 'oroeswyr' (gweler **Atodiad 4**) yn poeni'n fawr am yr iaith a ddefnyddiwyd:

...ni fyddai braidd neb o'n cleientiaid sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol yn ystyried eu hunain yn buteniaid hyd yn oed petaent wedi cael eu gorfodi i weithio mewn puteindai neu ar y stryd gydag eraill yn y diwydiant rhyw. (Sefydliad Anllywodraethol, E-bost)

Yn y cyflwyniad rydym yn cydnabod un o gyfyngiadau'r astudiaeth hon sef, am resymau'n ymwneud â methodoleg a moesegau (gweler **Atodiad 1**), mai ychydig iawn o'n cyfranogwyr a ddywedodd eu bod wedi goroesi puteindra neu eu bod yn dioddef camfanteisio rhywiol ar hyn o bryd. Pan ddefnyddiwn y term 'gwaith rhyw' yn yr adroddiad hwn, rhaid peidio ag anghofio am y rhai nad yw'r term hwn yn berthnasol iddynt, ac y mae angen i'w profiad gael ei ddogfennu ymhellach.

Efallai na fydd unigolion sydd wedi bod mewn cydberthnasau siwgr yn ystyried hyn yn 'waith rhyw', yn enwedig lle mae'r gydberthynas wedi bod yn seiliedig ar gyfeillgarwch ac agosatrwydd. Fodd bynnag, dywedodd ymatebwyr fod rhyw bron bob amser yn rhan o gydberthynas o'r fath a soniodd llawer am anawsterau creu ffiniau, yn wahanol i waith rhyw 'diamwys'.

¹ Mae DFAB yn golygu dynodwyd yn fenyw a deg geni.

Roedd gwaith siwgro yn heriol – i ddechrau roedd yn eithaf braf cael eich talu am fwyta bwyd blasus gyda rhywun a chael sgwrs fach, ond sylweddolais yn gyflym ar ôl ambell 'ddêt' ei fod yn waith peryglus ac ansicr am eu bod yn disgwyl pethau gennych nad ydyn nhw yn cael eu cyfleu'n glir nac yn gywir. (Annibynnol Benywaidd)

Gall rhai dynion sy'n cael rhyw neu'n gwneud pethau eraill cysylltiedig am arian neu fudd arall, yn enwedig yn y byd hoyw allan ar y stryd, groesawu, wrthod neu deimlo'n amwys am y syniad o 'waith rhyw' a galw eich hun yn 'weithiwr rhyw', yn dibynnu ar y cyd-destun:

Yn aml bydd pobl yn cwrdd ar [ap caru] neu mewn clwb. Efallai, os byddan nhw'n ffansio'r person, na fyddan nhw'n codi am ryw – ond os nad ydyn nhw, fe fyddan nhw... Ni fyddai llawer yn ystyried eu hunain yn 'weithwyr rhyw'. (Ymgynghori â Sefydliad Anllywodraethol)

Yn y ddwy flynedd cyn dechrau'n 'swyddogol', fe ges i fy nhalu am ambell gyfarfod. Roedd y rhain ar hap. Roedd gen i broffil (ddim fel esgort) ar safle 'bachu' lle dywedais i y byddwn i'n hapus i gael fy nhalu am waith. Fe ges i ambell jobyn o hynny (un ohonyn nhw oedd gwaith addurno, gyda rhyw wedyn). (Annibynnol Gwrywaidd)

Mae hyn yn gyson ag ymchwil ddiweddar (Morris, 2018) gyda dynion sydd wedi cytuno i werthu rhyw ar-lein ar ôl cael cynnig gan ddefnyddwyr eraill, heb hysbysebu gwasanaethau rhywiol: nid oedd bron neb yn astudiaeth Morris yn ystyried eu bod yn 'weithwyr rhyw'.

Yn yr un modd, nid yw rhai prynwyr yn ystyried eu bod yn 'brynwyr rhyw' – er enghraifft, y rhai sy'n talu i fynd i bartïon rhyw a/neu sy'n trefnu esgort i fynd gyda nhw.

Fel mae'r enghreifftiau hyn yn ei ddangos, roedd yn bwysig i'n diffiniad gwmpasu rhyw, gweithredoedd erotig ac agosatrwydd rhywiol am arian neu angen neu fudd arall yn eu hystyr ehangach. Mae hefyd yn tanlinellu'r ffaith y bydd unigolion nad yw llawer o ymchwil empiraidd ar waith rhyw/puteindra yn eu cyrraedd nac yn eu cynnwys, am nad yw'r unigolion dan sylw yn uniaethu â'r termau hynny.

Yn olaf, dylem nodi y bu dadlau ymhlith y sawl a ymatebodd i'n harolwg ynghylch p'un a ddylai prynwyr rhyw, a thrydydd partïon fel perchenogion neu weithwyr derbynfa puteindai, gael eu cynnwys mewn ymchwil ar natur puteindra a gwaith rhyw. Er mai'r rhai sy'n gwerthu'n uniongyrchol sy'n gyfrifol am y rhan helaeth o'n data, gwnaethom benderfynu bod yn agored i'r lleisiau eraill hyn, ond bod yn gwbl glir ynghylch pwy yw pwy yn yr adroddiad.

Hunaniaethau cymdeithasol, anghydraddoldebau a ffyrdd i mewn

Gyda'i gilydd, mae'r unigolion sy'n gwerthu rhyw yng Nghymru a Lloegr heddiw yn amrywio o ran demograffeg a chymhelliant. Ar yr un pryd, ceir patrymau ailadroddus o ran profiad neu hunaniaeth sy'n dynodi'r ffordd mae rhai unigolion yn ymuno â'r diwydiant rhyw a/neu'r math o leoliad, gwasanaeth neu'r amodau gwaith.

Mae'n bwysig nodi na wnaethom ofyn am unrhyw wybodaeth ddemograffaidd gan y sawl a gymerodd ran yn yr ymchwil. Gwnaed hyn am mai ein nod oedd bod yn gynhwysol a diogelu hunaniaeth pobl, lle'r oedd yn bwysig iddynt. Fodd bynnag, o ystyried yr atebion llawn a roddwyd gan y rheini a ymatebodd i'n harolwg ac a gafodd eu cyfweld drwy e-bost, bu modd inni, yn y rhan fwyaf o achosion, nodi rhywedd, yn ogystal â'r mathau o wasanaethau dan sylw. Gwnaeth llawer hefyd roi manylion am iechyd meddwl neu iechyd corfforol, eu rôl fel gofawyr, eu cefndir cenedlaethol neu ethnig, eu rhywioldeb ac ati.

Menywod oedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr i'r arolwg ar-lein a ddywedodd eu bod yn gysylltiedig â phuteindra a/neu waith rhyw, neu wedi bod yn gysylltiedig â hynny (n=529). Roedd tua 13 yn ystyried eu hunain yn ddynion ac roedd wyth yn ystyried eu hunain yn anneauidd neu'n draws. Fodd bynnag, mae'n debygol ein bod wedi tangyfrif cyfranogwyr traws ac anneauidd (a dynion efallai) am ein bod wedi dibynnu ar nodi hynny yn eu hymatebion i'r arolwg.

Gwnaethom anfon cyfweiliadau dilynol drwy e-bost at 135 o unigolion o bob rhan o'r grŵp: ymatebodd 42, ac mae bron pawb ynghlwm wrth buteindra a/neu waith rhyw ar hyn o bryd. Credwn fod dadansoddiad rhyweddol y rhai a gyfwelwyd drwy e-bost lle gofynnwyd am hynny a lle cwblhawyd hynny fel a ganlyn:

Cyfweiliadau dilynol y gofynnwyd amdanynt		Cyfweiliadau dilynol a gwblhawyd	
107	Gwerthwyr benywaidd	27	Gwerthwyr benywaidd
6	Gwerthwyr traws	1	Benywod traws
2	Anneuaidd, dynodwyd yn fenyw adeg geni	2	Anneuaidd, dynodwyd yn fenyw adeg geni
20	13 o werthwyr gwrywaidd a 7 prynwr gwrywaidd	12	7 gwerthwr gwrywaidd a 5 prynwr gwrywaidd

Nodwyd rhywioldeb yn llai aml gan fenywod, gyda'r rhai a wnaeth hynny yn nodi eu bod yn strêr, yn gwiar, yn ddeurywiol neu (dau ymatebydd) yn banrywiol. Mae'n werth nodi yma nad yw'r rhywioldeb a nodir ar hysbysebion neu yn eu rôl gwaith yr un peth efallai â'r rhywioldeb a hunan-nodir. Er enghraifft, bydd nifer o unigolion yn hysbysebu eu bod yn ddeurywiol, am yr ystyrir bod hyn yn eu gwneud yn fwy deniadol i ddarparu gleientiaid (gweler **Atodiad 10**).

Roedd gweithwyr rhyw gwrywaidd yn dueddol o nodi eu bod yn hoyw a'u bod fel arfer (neu ond) yn darparu gwasanaethau i ddynion. Roedd rhai wedi darparu gwasanaethau i fenywod neu gyplau. Roedd dau ymatebydd gwrywaidd yn ystyried eu hunain yn heterorywiol ac yn hysbysebu i gleientiaid benywaidd, gan gynnig gwasanaethau BDSM.

Clywsom hefyd gan gyplau sy'n esgortiaid, a all fod yn unrhyw gyfuniad o ryweddau. Er enghraifft:

Rydym wedi gweithio fel cwpl aeddfed sy'n esgortiaid [dyn a menyw neu 'MF'] ers bron i chwe blynedd, a gwnaethom ddechrau gwneud am fod y ddau ohonom yn hoffi cael rhyw, a daethom iddo o fod yn 'swingers' achlysurol. Rydym yn gwpl proffesiynol sy'n esgortiaid a byddwn ond yn gweld dynion, sy'n briod gan fwyaf, dros 40 oed hyd at ryw 75. Mae angen i chi fod yn ymwybodol bod tua 1000 o gyplau MF sy'n esgortiaid sy'n gweithio [yn y DU] ... (Cwpl sy'n Ddyn a Menyw sy'n Esgortiaid)

Credwn fod y mwyafrif o'r gwerthwyr a gymerodd ran yn ein hymchwil yn Brydeinig neu'n Ewropeaidd siŵr o fod, ac yn Wyn fwy na thebyg, ac yn meddu ar sgiliau Saesneg da (roedd ein harolwg ond ar gael yn Saesneg). Down i'r casgliad hwn ar sail cyfeiriadau'r cyfranogwyr at eu magwraeth neu eu gwladenedigol, ynghyd â'r ymatebion i'r arolwg: gwnaethom ofyn i'r cyfranogwyr am eu canfyddiad o ddemograffeg prynwyr a gwerthwyr. Cydnabyddwn unwaith eto, felly, gyfyngiadau'r astudiaeth hon mewn perthynas â phrofiadau mudwyr, yn enwedig o ran ddeheuol y byd, er enghraifft. Mae ein cyfweiliadau â phrynwyr (gweler isod) ac â llwyfannau ar-lein oedolion yn awgrymu bod gwerthwyr o sawl gwlad yn gweithio fel esgortiaid ac mewn fflatiau a phuteindai. Yma eto nodwn y ffordd mae cenedligrwydd, fel oedran a rhywioldeb, yn cael ei gamgynrychioli'n aml mewn hysbysebion am waith rhyw, yn dibynnu ar nodweddion y gwerthwr y mae prynwyr yn chwilio amdano (gweler **Atodiad 10**).

Ymddengys fod dosbarth cymdeithasol a lefel addysg yn amrywio, a cheir lefel liniaru wan o ran angen economaidd ac, i rai, ansicrwydd economaidd. Roedd anawsterau ariannol yn bwynt mynediad i lawer o'r gwerthwyr, a'r rhai oedd bellach wedi gadael, a ymatebodd i'r ymchwil hon.

Mae gwaith rhyw yn amrywio llawer ac mae llawer o bobl yn ei wneud am sawl rheswm ond

y prif reswm yw un ariannol. Dyna oedd fy sefyllfa i. Os yw'r llywodraeth o ddifrif am gyfyngu ar nifer y bobl sy'n gwerthu rhyw, mae angen iddi edrych ar achosion sylfaenol gwaith rhyw sef tlodi, diffyg cyfleoedd economaidd, costau uchel tai ac addysg ac ati... Nid 'galw' sy'n llywio puteindra ond anghenion economaidd pobl. (Masseur Erotig Gwrywaidd)

Yn y diwedd fe dales i'r ddyled yn ôl ac roeddwn i'n teimlo'n llai tlawd ac felly nid oedd angen i mi ei wneud dim mwy. [...] roedd bod yn dlotach yn ei gwneud hi'n llawer haws i'm cam-drin. Mae mwy o arian yn golygu mwy o ryddid i ddewis. Felly pan mae pobl yn dweud eu bod nhw'n 'torri lawr' ar alw mae hynny'n fy nharo i'n rhyfedd oherwydd roedd llai o incwm yn gwneud i fi deimlo'n fwy desbrad. (Cyn-weithiwr Benywaidd mewn Puteindy)

Hoffwn i ddweud fy mod i'n gwybod bod y diwydiant yn wael ond nid yw byth yn mynd i ddiflannu dwi'n yn meddwl oni bai ein bod ni'n datrys holl broblemau ariannol pobl. Felly, yn fy marn i, dylid canolbwyntio ar yr hyn fyddai'n ei wneud yn fwy diogel, yn hytrach na'r hyn fyddai'n ei leihau. (Gweithiwr Stryd Benywaidd)

Nododd tua 8% o'r ymatebwyr i'r arolwg yn benodol gyfrifoldebau gofalu (am blant, yn aml fel rhieni unigol; am eu rhieni eu hunain; am nain/mam-gu/taid/tad-cu; ac am bartneriaid), anghenion iechyd meddwl neu iechyd corfforol neu anabled. Mae'n bwysig tanlinellu, gan na wnaethom gasglu'r data hyn yn systemataidd yn yr arolwg neu'r cyfweiliad dilynol (gweler **Atodiad 1** am drafodaeth bellach), ond yn hytrach nodi lle datgelodd ymatebwyr y wybodaeth hon, fod y ffigur hwn o 8% yn debygol o fod yn danamcangyfrif. Ymhlith y grŵp hwn, soniodd y cyfranogwyr am reoli poen hirdymor, iselder hirdymor neu ddiagnosis iechyd meddwl, er enghraifft, a oedd yn ei gwneud hi'n anodd cadw swydd 'brif ffrwd'. Dywedodd yr ymatebwyr hyn fod gwaith rhyw yn rhoi'r hyblygrwydd iddynt weithio pan fyddent yn teimlo'n iawn.

Soniodd ymatebwyr trawsam drawsnewid rhywedd a'r gost, y gofynion corfforol a'r profiad o gael eich cau allan yn y gweithle, a wnaeth arwain at werthu rhyw. Am y rhesymau hyn, teimlai rhai ymatebwyr fod unigolion traws wedi'u 'gorgynrychioli' ym maes gwaith rhyw. Dywedodd nifer o'r cyfranogwyr eu bod yn fyfyrwyr addysg uwch (a wnaeth naill ai beri iddynt ddechrau gwerthu rhyw neu fod gwaith rhyw wedi eu galluogi i ddychwelyd i fyd addysg) a nododd nifer fod eu statws mudol (cyfreithiol) yn cyfyngu ar eu hopsiynau. Defnyddiwyd y gair 'goroesi' yn aml:

Fe ddechreuais i yn 2014. Roeddwn i mewn sefyllfa ariannol ddifrifol, doedd gen i ddim rhieni i'm cefnogi ac roeddwn i ar fin dod yn ddigartref. Gan fy mod i'n anabl ac mewn addysg amser llawn roedd y cyfleoedd oedd ar gael i mi weithio yn gyfyngedig (a dyna'r sefyllfa o hyd). Oherwydd fy statws mewnfudo (ddim yn bodloni'r prawf preswyllo fel arfer) ni allaf hawlio budd-daliadau, felly, er i mi fyw yn y DU ers oeddwn i'n fach ac fy mod i wedi cael fy holl addysg yma, a byth wedi byw dim unman arall, ni allwn gael cymorth gwladol. (Annibynnol Benywaidd)

Mae pawb dwi'n eu hadnabod sy'n gwneud gwaith rhyw yn gwneud hynny am resymau cymhleth a phersonol. Dwi'n gwneud gwaith rhyw i oroesi; dyma sy'n cynnig y ffordd fwyaf hyblyg i mi gefnogi fy hun a'm mam sydd â chlefyd awto-imiwn. Mewn cyfnod o gyni, dyma'r unig waith sy'n talu digon. (Esgort Annibynnol Benywaidd)

Dwi ddim yn adnabod unrhyw weithwyr rhyw yn y byd go iawn. Mae'r rhai dwi'n rhyngweithio â nhw ar-lein i'w gweld mewn sefyllfaoedd tebyg i mi ar y cyfan h.y.: yn annibynnol, ac yn ei chael hi'n anodd ymdopi'n aml. (Esgort Annibynnol Benywaidd)

Mae'n ffordd o oroesi fel rhywun anabl, oherwydd gallaf weithio am ychydig oriau'r wythnos neu hyd yn oed ychydig oriau'r mis os mai dyna'r cyfan gallaf ei wneud, a dwi'n llwyddo i dalu'r rhent. (Esgort Annibynnol Benywaidd)

Fe ddechreuais i ychydig flynyddoedd yn ôl ar ôl cyfnod o ansicrwydd wrth wneud gwahanol waith swyddfa dros dro. [...] Mae'r profiad o wneud cais am fudd-daliadau wedi bod yn ofnadwy – roeddwn i'n teimlo bod y swyddfa budd-daliadau yn fy mwlio ac yn fy mychanu, a doedd y budd-dal tai a gefais i ddim yn ddigon i dalu'r rhent mewn tŷ preifat oedd yn cael ei

rannu beth bynnag. Ar ôl colli swydd dros dro yn sydyn fe benderfynais i roi cynnig arni a thalu'r rhent y mis hwnnw wrth i mi chwilio am swydd arall. (Gwe-gamio Benywaidd)

Rwy'n fenyw drawsrywiol, a oedd yn bennaf cyfrifol am benderfynu dechrau yn y diwydiant rhyw. Ar ddechrau'r broses o drawsnewid, cefais y sac ac ni fyddai neb yn rhoi gwaith i mi. Roeddy swyddi a gefais i yn y diwedd yn talu cyflog isel iawn, doedd dim sicrwydd ac roedden nhw'n cymryd mantais ohonoch. Profais wahaniaethu hefyd o ran tai, gan fod yn ddigartrefam dros flwyddyn yn cysgu ar soffas ffrindiau ac yn fy nghar. Ar yr un pryd, roedd llwybr y GIG i drawsnewid yn israddol ac yn hynod araf ac nid oedd yn darparu'r holl driniaethau angenrheidiol. Felly, yn ogystal â bod angen arian i oroesi'n syml, roeddwn i angen ariannu'r broses o drawsnewid er mwyn helpu i leihau'r aflonyddu a'r gwahaniaethu roeddwn i'n ei wynebu. I mi, roedd gwaith rhyw yn broffidiol o gymharu â gwaith arall oedd ar gael, a gwnaeth fy helpu i ddod allan o'r sefyllfa roeddwn i ynddi. (Esgort Annibynnol Traws)

Fe ddes i i'r wlad hon yn gyfreithlon (mae gen i basbort Prydeinig) fel merch ifanc 20 oed. Nid oedd gennyf unrhyw deulu i'm cefnogi, nac unrhyw addysg nac arian. [...]. Roedd gwaith rhyw yn ffordd i mi oroesi. Oherwydd y gwaith hwn, bu modd i mi ddod allan o dlodi, cael addysg a hefyd gefnogi aelodau eraill o'r teulu a ddaeth i fyw yn y DU ar fy ôl i [...]. Rwy'n dal i weithio yn y diwydiant rhyw oherwydd wrth gael cymwysterau 'prif ffrwd' gwnaeth stigma gwaith rhyw fy nilyn ac ni fyddai neb yn fy nghyflogi. A phan na fyddwn i'n dweud wrth ddarpar gyflogwyr am fy nghefndir gwaith, roedd bwlch mawr ar fy CV... [...]. Felly nawr rwy'n gweithio fel dominyddydd. Rwy'n talu fy nhreth ac yn fos arnaf i fy hun gan reoli'r hyn rwy'n ei wneud a ddim yn ei wneud. Cymerodd 20 mlynedd i gyrraedd y man hwn. (Dominyddydd Proffesiynol Benywaidd)

Nododd rhai fod teulu yn chwalu neu gamddefnyddio sylweddau wedi creu'r sefyllfa roeddent ynddi, neu wedi ei gwaethygu. Mynegwyd hyn yn fwy (ond nid yn unig) gan weithwyr stryd/awyr agored a gweithwyr mewn puteindai:

Roeddy rhan fwyaf o'r merched (yn y puteindy) roeddwn i'n gweithio gyda nhw yn Seisnig ond roedd tua 30 y cant o Ddwyrain Ewrop a chymhelliant ariannol oedd ganddynt, byddwn i'n dweud. Doedden nhw byth yn yfed, byth yn cymryd cyffuriau, byth yn prynu bwyd tecawê, byth yn cael hwyl a sbri, gwaith oedd y cyfan. Nid oedd yn ymddangos bod gan y gweddill ohonom gartrefi i fynd iddynt na ffrindiau, ac roedd cydberthnasau teuluol wedi chwalu, felly roedd yn rhyw fath o deulu arall i'r rhan fwyaf ohonom. (Gweithiwr Benywaidd mewn Puteindy)

Mae yna duedd o ran menywod ar y stryd lle maent wedi cael profiad o ofal, neu mae rhywbeth wedi amharu ar eu strwythur teuluol, maent yn ddigartref gan fwyaf, a menywod Gwyn Prydeinig yw ein cleientiaid ar y cyfan. Mae'r menywod sy'n dod atom yn ddigidol yn amrywio'n fwy, ac maent yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd. Mae llawer wedi troi at werthu rhyw oherwydd dyledion, ond mae achosion o fenywod sydd wedi'u cyflogi'n flaenorol neu ag opsiynau eraill mewn bywyd. (Ymgynghori â Sefydliad Anllywodraethol)

Mae gan bawb ohonom resymau gwahanol dros wneud hyn. Y ddau brif reswm yw arian a chyffuriau. Rydych yn gwybod hynny beth bynnag. (Gweithiwr Stryd Benywaidd)

Yn ogystal â'r amgylchiadau unigol a strwythurol a ddisgrifir uchod, nododd rhai sefydliadau anllywodraethol (yn hytrach na'r unigolion yr effeithiwyd arnynt eu hunain) fod rhai unigolion yn ymuno â'r diwydiant rhyw am eu bod wedi'u twyllo neu eu gorfodi gan drydydd partion.

Dylem hefyd nodi bod swp o ymatebion a oedd yn gwrthod yn gryf ac yn problemateiddio'r syniad bod y rheini sy'n gwerthu rhyw wedi profi 'anfantais' neu 'brofiad niweidiol cynnar' o reidrwydd. Roedd y grŵp hwn yn aml yn tanlinellu'r pleser, y rhyddid ariannol, a'r boddhad a gafwyd yn sgil gwaith rhyw. Felly, mae'n bwysig tanlinellu'r ffaith nad yw'r profiadau a amlinellir uchod yn diffinio profiad pob unigolyn. Fodd bynnag, gwelir patrymau tebyg o ran y profiadau a rannwyd gan y sawl a gymerodd ran yn ymchwil yr astudiaeth hon.

Patrymau ymgysylltu a symud rhwng lleoliadau/gwasanaethau

Mae'r ymatebion i'r arolwg ar-lein a'r cyfweiliadau dilynol drwy e-bost yn awgrymu ei bod yn gyffredin i unigolion symud rhwng lleoliadau a gwasanaethau. Er na allwn ddiystyru'r posibilrwydd bod ein sampl o ymatebwyr yn grŵp symudol iawn, roedd hyn i'w weld yn gymwys ar draws amrywiaeth o gefndiroedd.

Ymhlith y rhesymau dros symud i mewn ac allan o leoliadau/gwasanaethau mae:

- diogelwch tybiedig (e.e. o fod yn esgort annibynnol i waith tylino erotig; o'r stryd i buteindai)
- osgoi taliadau cyfryngu (e.e. o buteindai i wneud gwaith annibynnol)
- cael arian yn gyflym (e.e. i waith stryd)
- teimlo'n rhwystredig am daliadau araf (e.e. drwy waith gwe-gamio)
- rhywbeth i ategu gwaith presennol (e.e. gwneud clipiau)
- ennill mwy yr awr (e.e. gwneud BDSM; gwaith dros y ffôn)
- cael cleientiaid rheolaidd (e.e. gwaith siwgro)

Gall y rhai sy'n gweithio fel putain ar y stryd symud dan do (puteindy, esgortiaid) os cânt fynediad i ffôn neu'r rhyngwyd; ond i eraill ar y stryd, mae diffyg mynediad neu lythrennedd technolegol, yn ogystal â chyd-destunau cythryblus a chaethiwed i gyffuriau yn rhwystro'r fath symudedd. Gall y rhai sy'n gweithio fel putain ar y stryd hefyd werthu rhyw dan do dros dro wrth aros mewn hostel i'r digartref, neu gael triniaeth iechyd, er enghraifft.

Roedd symud i rai wedi'i hwyluso gan gyfarfod ar hap neu argymhelliad gan gyfoedion.

Rwyf wedi gwneud gwaith tylino erotig ac wedi stripio hefyd ac roedden nhw'n iawn ond gwaith rhyw gwasanaeth llawn gwirioneddol neu pan fydd cleient yn dod ata i lle mae merched eraill yno yw'r math hawsaf o waith i mi. (Gweithiwr Benywaidd mewn Puteindy)

Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith dros y blynyddoedd, o wasanaethau rhywiol 15 munud, cyfarfod mewn car, cleient yn dod ata i, mynd at gleient. Dwi byth wedi gwneud gwaith dros y ffôn na gwe-gamio oherwydd mae'n rhy annaturiol/anghyfforddus. Rwy'n gwneud cwrs tylino ffurfiol erbyn hyn [...] ac rwy'n gobeithio cynnig gwasanaeth tylino erotig lle na cheir rhyw na chyfathrach eneuol oherwydd credaf y bydd hyn yn fwy diogel yn rhywiol. (Esgort Annibynnol Benywaidd Traws)

Yn fy mlwyddyn gyntaf o weithio roeddwn i ond yn stripio ac yn gweithio 3/4 noson yr wythnos. Nawr rwy'n astudio cwrs amser llawn felly rwy'n gweithio deuddydd yr wythnos fel esgort yn ogystal â gwaith 'strippergram' mewn partïon stag ac ati, sy'n digwydd ychydig o weithiau'r mis fel arfer. (Dawnsraig Erotig)

[Fel gweithiwr stryd], roeddwn i'n gweithio tua chwe noson yr wythnos gan weld un neu ddau gleient bob nos. Rwyf wedi bod yn esgort annibynnol ac rwyf nawr yn gweithio mewn parlwr tylino. Rwy'n teimlo'n llawer mwy diogel yn gweithio dan do a chael ffordd o sgrinio neu fesurau diogelwch yn yr adeilad. (Cyn-weithiwr Benywaidd ar y Stryd a Gweithiwr mewn Puteindy ar hyn o bryd)

[Rwy'n gweithio ar y stryd] bob nos. Roeddwn i'n gweithio mewn puteindy am ychydig wythnosau ond roedd yn mynd â hanner fy arian – doeddwn i ddim yn hoffi hynny, felly dyma fi'n rhoi'r gorau iddo. (Gweithiwr Stryd Benywaidd)

Gall masnachu mewn pobl neu orfodaeth hefyd bennu symudiadau unigol rhwng lleoliadau:

'Nid yw'n anghyffredin i fenywod gael eu masnachu o dramor i weithio fel putain, dianc o buteindy yn y DU, dim ond i fod yn ddigartrefar y stryd a chyfnewid rhyw am loches, cyn ailddechrau gweithio fel putain...' (Ymateb i'r Arolwg gan Sefydliad Anllywodraethol)

Disgrifiodd yr ymatebwyr amrywiaeth o batrymau ymgysylltu: dywed rhai mai gwaith rhyw yw eu

hunig incwm; mae eraill yn astudio, yn gwneud gwaith arall â thâl, yn gwirfoddoli neu'n gofalu am eraill. Gallai 'llawn amser' olygu 2-3 chleient yr wythnos i rai a delir mwy; mae eraill yn gweithio faint bynnag o ddiwrnodau sydd eu hangen i ymdopi. Gall lefelau ymgysylltu fod yn ysbeidiol, gan gynnwys 'diwedd y mis'; cyfnodau 'teithiol' o sawl wythnos; mynd a dod wrth geisio mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau neu ddigartrefedd; ariannu teithio neu astudio a gweithio rhwng neu fel y bo angen; neu weithio yn ystod cyfnodau sefydlog o iechyd meddwl neu iechyd corfforol. Nododd rhai o'r ymatebwyr a oedd yn gwerthu rhyw am loches, i dalu biliau, neu i gael bwyd neu gyffuriau mai 'rhyw i orosi' ydoedd. Dywedodd sefydliadau anllwyodraethol a chydweithfeydd gweithwyr rhyw fod newidiadau i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol yn sbardun i lawer, naill ai i ddychwelyd i waith rhyw ar ôl ei adael, neu ddechrau am y tro cyntaf. Efallai y bydd rhai unigolion yn gwerthu gwasanaethau rhyw unwaith yn eu bywydau; gall eraill fod ynghlwm (yn barhaus, neu bob hyn a hyn) am ddegawdau.

Yn y gorffennol, rwyf wedi gweithio mewn puteindai lle rwy'n mynd unwaith yr wythnos am chwe awr a dyna ni; yna bryd arall byddai yno 3 neu 4 diwrnod yr wythnos, weithiau'n gwneud sifft ddwbl. Mae'n dibynnu faint o amser sydd gennyf neu faint o arian rwyf angen ei wneud ar adeg benodol. Weithiau bydda i'n gweithio am fisoedd ond yn ymweld â chleientiaid ('outcalls') a dim ond yn gweld cleientiaid unwaith yr wythnos, ac weithiau byddai'n trefnu rhywle i gwrdd â chleientiaid am ychydig ddiwrnodau, gan weithio o fore gwyn tan nos bedwar neu bum diwrnod, cymryd seibiant a dechrau eto. (Gweithiwr Benywaidd mewn Puteindy)

Mae'n amrywio yn ôl fy amgylchiadau. Ar hyn o bryd, dyma fy unig incwm. (Esgort Annibynnol Benywaidd Traws)

Tri chleient y mis ar hyn o bryd, ond tri yr wythnos yn y gorffennol. Weithiau mwy, weithiau llai. (Esgort Annibynnol Gwrywaidd)

Fe ddechreuais i yn gweithio bron bob noson o'r wythnos, oherwydd roeddwn i wedi dianc trais domestig gyda phlentyn bach ac angen blaendal a mis cyntaf o rent, yn ogystal â dillad, dodrefn, teganau, ac roedd Nadolig ar y gorwel. (Gweithiwr Stryd Benywaidd)

Yn olaf, o ran ymgysylltu, nodwyd yn ein hymgyngoriadau â rhanddeiliaid y gall gwerthwyr fynd dramor fel rhan o'u gwaith (2-3 diwrnod, er enghraifft); yn yr un modd, nodwyd y gall unigolion hedfan i'r DU i weithio am gyfnodau byr, gan gyrraedd meysydd awyr lleol a gweithio gerllaw. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd gan gyfranogwyr yn ymwneud â gweithwyr annibynnol neu asiantaeth. Mae hyn yn wahanol i fasnachu mewn pobl at ddibenion camfanteisio arnynt yn rhywiol, a all hefyd ddigwydd o fewn ac ar draws ffiniau gwledydd.

Hysbysebion, taliadau a thrydydd partïon

Er mai hysbysebion yn y wasg leol a chylchgronau arbenigol, a chardiau (e.e. blychau ffôn), oedd fwyaf amlwg cyn 2000 ar gyfer gwaith rhyw dan do (esgortiaid, puteindai/parlyrau), mae'r rhan fwyaf o hysbysebu bellach yn digwydd ar-lein. Mae llond llaw o lwyfannau mawr ar-lein sy'n darparu gwasanaeth rhestru ac adnodd chwilio am wasanaethau neu nodweddion gwerthwyr.

Mae rhai gweithwyr annibynnol yn rhedeg eu gwefannau eu hunain neu'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i godi eu proffil a hysbysebu gwasanaethau. Defnyddir apiau caru ac apiau eraill i drefnu cyfarfod. Mae gwefannau arbenigol ar gael ar gyfer 'gwasanaethau siwgro' neu esgortiaid. Caiff gwasanaethau rhestru arferol neu wefannau mân hysbysebion eu defnyddio hefyd. Ni fydd rhai esgortiaid annibynnol, gan ofni cael eu hadnabod, yn gosod hysbyseb. Yn lle hynny byddant yn ymateb i hysbysebion wedi'u gosod gan brynwyr. Fel y nodir uchod, mae rhai unigolion, yn enwedig dynion, yn trefnu i gwrdd am dâl ar apiau caru a gwefannau cyfryngau cymdeithasol ar ôl cael cynnig gan ddefnyddwyr eraill, heb iddynt hysbysebu gwasanaethau rhywiol (Morris, 2018).

Yna trefnir cwrdd wedyn drwy neges destun, e-bost, galwad ffôn neu Skype, gyda'r rhan fwyaf o werthwyr annibynnol yn dilyn eu gweithdrefnau sefydledig eu hunain er mwyn aros yn ddiogel

(gweler **Risg, Niwed a Rheoli Diogelwch** isod).

Mae puteindai, parlyrau, clybiau stripio ac asiantaethau esgortiaid yn dueddol o fod ar y we, weithiau gyda phroffiliau gweithwyr i ddarparu brynwyr eu gweld, ac mae rhai yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu. Mae llawer o buteindai a pharlyrau yn cynnig gwasanaeth galw heibio, gyda phrynwyr yn talu'r sawl sydd yn y dderbynfa neu'r forwyn a naill ai'n edrych ar luniau o'r unigolion sy'n gweithio'r diwrnod hwnnw neu'n eu gweld mewn rhes o'u blaen.

Mae rhai gweithwyr stryd ac awyr agored hefyd yn defnyddio ffonau neu lwyfannau ar-lein i drefnu cyfarfod â phrynwyr newydd neu reolaidd; mae eraill yn cerdded eu 'miltir sgwâr' yn syml.

Ychydig iawn o'n hymatebwyr a nododd fod ganddynt bimpiaid (unwaith eto, cydnabyddwn na fydd yr ymchwil hon wedi cyrraedd y rheini y cam-fanteisir arnynt fwyaf ar hyn o bryd), er i nifer fach o weithwyr stryd neu unigolion a oedd wedi profi cael eu masnachu ddweud bod ganddynt bimp o'r blaen:

Roedd gen i bimp unwaith i edrych ar fy ôl, nid aeth hynny'n dda iawn. Mae yn y carchar nawr ac fe lwyddais i dorri'n rhydd cyn cael fy nhrosglwyddo i rywun arall. Rwy'n gweithio ar fy mhen fy hun. Dwi ddim yn hysbysebu fel y cyfryw ond mae'n eithaf amlwg pam dwi'n sefyll o gwmpas. (Gweithiwr Stryd Benywaidd)

Nododd sawl sefydliad anllywodraethol fod partneriaid oedd yn cam-drin yn chwarae rhan, gyda'r gamdriniaeth yn cynnwys disgwyl iddi dalu am ei ddefnydd neu eu defnydd o alcohol/cyffuriau drwy werthu rhyw, yn enwedig yn achos puteindra stryd. Nododd sefydliad anllywodraethol a oedd yn cefnogi gweithwyr rhyw gwrywaidd fod gorfodaeth i gael rhyw gydag eraill fel rhan o berthynas reolaethol yn digwydd rhwng dynion o'r un rhyw a oedd mewn perthynas, yn ogystal â chyplau heterorywiol. Nododd sefydliadau anllywodraethol fod masnachwyr mewn pobl, gan gynnwys yng nghyd-destun troseddau cyfundrefnol, yn drydydd partion posibl.

Mae ystod eang o ddulliau o dalu. Defnyddir arian parod fel rheol, a bydd bron bob amser yn cael ei gymryd cyn darparu gwasanaeth oddi ar y stryd neu gyfarfod yn yr awyr agored. Bydd yn well gan gleientiaid ddefnyddio arian parod os ydynt yn cwrdd â gwerthwr newydd a/neu os ydynt am gynnal eu preifatrwydd. Defnyddir trosglwyddiadau banc, cardiau debyd a chardiau credyd hefyd, yn enwedig am wasanaethau cost uchel neu lle mae cydberthynas reolaidd wedi'i sefydlu. Bydd cleientiaid hefyd yn talu gan ddefnyddio talebau marchnad ar-lein, prynu eitemau ar restrau dymuno, gwasanaethau trosglwyddo arian neu dalu dynodedig, neu roddion yn lle arian. Mae talebau siopa ar-lein yn llai dymunol oherwydd cyfyngir ar eu defnydd, ac mae trosglwyddiadau banc yn llai dymunol i rai oherwydd gallant ddatgelu pwy yw'r gwerthwr neu'r prynwr go iawn.

Fel arfer, bydd angen i esgortiaid sy'n trefnu ystafell mewn gwesty dalu blaendal. Bydd angen i weithwyr BDSM dalu blaendal fel arfer i drefnu dwinsiwn a/neu am fod cryn dipyn o waith paratoi. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr i'r arolwg fod blaendal yn ffordd o ataly sawl a oedd yn 'gwastraffu amser'.

Gall rhyw hefyd gael ei gyfnewid am loches/rhent, cyffuriau/alcohol neu fwyd, neu bethau eraill fel cludiant (er enghraifft, clywsom am yrwyr tacsï yn gofyn am ryw yn lle arian am daith). Nododd un sefydliad anllywodraethol y gall rhai menywod sy'n ddigartref gael rhyw am loches am gyfnodau byr e.e. un neu ddwy noson ar y tro, yn ogystal â gwerthu rhyw yn yr awyr agored. Gall y dynion sy'n cynnig lloches fod yn gleientiaid rheolaidd, yn werthwyr cyffuriau, neu'n ddynion lleol sydd â fflat gerllaw. Nododd yr un sefydliad anllywodraethol fod menywod sy'n gweithio oddi ar y stryd sy'n cyfnewid rhyw am loches yn dueddol o wneud hynny am gyfnodau hwy. Mae rhai puteindai a pharlyrau yn cynnig llety. Gall fod yn gysylltiedig â'r hyn mae gwerthwr yn ei ennill ar y safle, neu efallai na fydd yn gysylltiedig â hynny.

Eglurodd unigolion sy'n defnyddio llwyfannau oedolion i hysbysebu eu gwasanaethau neu i hwyluso gwe-gamio, er enghraifft, fod gwefannau yn cymryd 10-30% fel ffi gan drosglwyddo'r gweddill drwy'r banc unwaith bod yr unigolyn yn cyrraedd swm 'hawlio', e.e. £100. Mae rhai llwyfannau yn defnyddio credydau neu dalebau, a drosir wedyn yn arian go iawn a drosglwyddir i'r

gwerthwr pan mae'n hawlio'r arian.

Disgrifiodd yr ymatebwyr delerau talu amrywiol mewn clybiau stripio, puteindai, parlyrau ac asiantaethau esgortiaid.

Mae rhai clybiau'n rheoli'r llif arian, felly mae'n mynd o'r cwsmer i'r clwb ac yna i mi (heb y ffi os oedd un). Gyda thaliadau cerdyn, mae'r arian bob amser yn mynd drwy'r clwb yn gyntaf, yna i mi. Po fwyaf o reolaeth sydd gan y clwb dros y llif arian, y mwyaf y gall gamddefnyddio ei bŵer – e.e. ychwanegu ffioedd, gordal o 20% ac ati. (Dawnswraig Erotig)

Yn fy mhuteindy i, mae'r rheolwr yn codi tâl am ddod i mewn i'r adeilad cyn cytuno ar bris gyda nhw. Byddaf yn mynd â'r arian o'r ystafell i'r lolfa er mwyn iddyn nhw wneud yn siŵr nad oes unrhyw arian drwg, ac yn yr ystafell byddaf yn trafod pethau ychwanegol gyda'r cleient (e.e. cyfathrach eneuol heb gondom). Dyw'r rheolwyr ddim am glywed am bethau ychwanegol am fod blaen siop go iawn a byddan nhw'n dweud "mae beth bynnag sy'n digwydd yn yr ystafell rhyngoch chi'ch dau" felly rwy'n cadw'r arian, ond chewch chi ddim codi mwy nag £20 am bethau ychwanegol ac maen nhw bob amser yn dweud y cawn nhw wybod gan y cleient faint rydych chi'n ei godi. Mae'r dderbynfa yn cymryd cyfran (tua 50%) ac yna unrhyw ffioedd – mae gennym ni "ffioedd cyfleusterau" lle mae angen talu am bethau fel dillad gwely a defnyddio locer – ac yna cawn yr arian ar ôl gorffen. Dwi ddim yn cael dweud wrthy cleient faint o arian rwy'n ei gael. Os na fyddwn ni'n cael unrhyw gleientiaid mae'n rhaid i ni dalu'r ffioedd cyfleusterau o hyd, felly weithiau byddan nhw'n ein hanfon ni i'r twll yn y wal i'w talu nhw. (Gweithiwr Benywaidd mewn Puteindy)

Dywedodd nifer o weithwyr rhyw annibynnol eu bod yn gwneud hunanasesiad at ddibenion treth.

Risg, niwed a rheoli diogelwch

Darparodd y sawl a gymerodd ran yn yr arolwg a'r cyfweiliadau drwy e-bost gryn dipyn o'r data ar risg, niwed a diogelwch. O ran yr arolwg ar-lein, credwn fod hyn yn rhannol oherwydd cynigion i'r DU fabwysiadu cyfraith math FOSTA/SESTA² a dadleuon cysylltiedig yn Senedd y DU a ddigwyddodd ar ôl i'r arolwg agor. O ran y cyfweiliadau dilynol, gwnaethom ofyn yn benodol (C11 – **Atodiad 4**), "Beth yw (a) heriau (b) risgiau (c) niwed yr hyn rydych (roeddech) yn ei wneud?" Nododd tri o'r ymatebwyr i'r cyfweiliadau drwy e-bost (allan o 42) fod y cwestiwn hwn yn arweiniol, gan deimlo mai sail hyn oedd y tybiaethau ynghylch gwaith rhyw. Fodd bynnag, cyn cwestiwn 11 gofynnwyd (gweler C10 – **Atodiad 4**) "Beth yw buddiannau/elfennau cadarnhaol yr hyn rydych (roeddech) yn ei wneud, i chi ac i eraill?" felly rydym yn hyderus ein bod wedi ceisio ymatebeang. Mae'r buddiannau a nodwyd gan gyfranogwyr wedi'u cynnwys drwy gydol yr adroddiad hwn.

Soniodd llawer o'r menywod a ymatebodd am fod ofn trais corfforol neu rywiol, a'r profiad o hynny. Roedd y mwyafrif yn cysylltu'r fath ofn a phrofiad â'r amgylchedd cyfreithiol (gweler isod) yn ogystal â thrais yn erbyn menywod a merched mewn cymdeithas yn ehangach. Nodwyd tramgwyddwyr posibl fel cleientiaid, yr heddlu a 'sifiliaid'. Tanlinellodd nifer o'r menywod a gymerodd ran nad oeddent byth wedi profi unrhyw drais ac, yn wir, eu bod yn fwy tebygol o wneud hynny mewn sefyllfaoedd 'nad oeddent yn ymwneud â gwaith rhyw'. Er i rai o'r dynion a ymatebodd nodi'r risg o drais corfforol a rhywiol, roedd eu pryderon yn canolbwyntio'n fwy ar heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a rheoli stigma cymdeithasol. Hefyd, nodwyd bod lladrad a thalu gydag arian drwg yn risgiau i'w rheoli.

Nododd rhai cyfranogwyr fod y defnydd o gyffuriau yn cynyddu'r risg o drais neu niwed arall. Dywedwyd bod cael eich cadw yn erbyn eich ewyllys (e.e. yng nghartref prynwr) yn risg bosibl i leoliadau gwaith rhyw uniongyrchol dan do ac ar y stryd.

² H.R.1865 - Allow States and Victims to Fight Online Sex Trafficking Act of 2017, 115th Congress (2017-2018), ar gael yn: <https://www.congress.gov/bill/115th-congress/house-bill/1865>; S.1693 - Stop Enabling Sex Traffickers Act of 2017, 115th Congress (2017-2018), ar gael yn: <https://www.congress.gov/bill/115th-congress/senate-bill/1693>

Roedd stelcio, neu fod cleientiaid yn datblygu 'obsesiwn' neu 'deimladau' yn bryder i rai:

Cefais fy stelcio gan gleient am ryw 18 mis – roedd fel marw'n araf. Digwyddodd ar-lein yn bennaf; cefais fy mygwth a byddai'n fy mhardduo dros y we i gyd. Byddai'n stelcio gweithwyr rhyw eraill hefyd, nid dim ond fi. Yr unig reswm y rhoddodd y gorau iddi oedd am fy mod wedi esgus fy mod i wedi symud dramor. (Esgort Annibynnol Benywaidd)

Nododd rhai o'r ymatebwyr niwed seicolegol yn enwedig lle'r oedd angen ariannol neu orfodaeth yn golygu nad oedd modd dewis a dethol cleientiaid.

Mae'n beth trawmatig cael rhyw gyda phobl sy'n troi'ch stumog. (Annibynnol Benywaidd, wedi'i chymell i weithio fel putain yn 18 oed)

Nododd rhai eu bod yn niweidio eu hunain wrth werthu rhyw. Siaradodd eraill am waith caled emosiynol esgus bod gennyh ddiddordeb mewn cleient, neu ffugio perthynas agos. Er enghraifft:

Pan ddechreuais i, roeddwn i'n esgort. Byddai hynny fel arfer yn golygu apwyntiadau hirach, dros nos yn aml. Roedd y gwaith hwnnw'n anoddach am fod angen gwneud mwy o sioe. Dyw hi ddim yn hawdd bod yn glên gyda rhywun am 12 awr neu, weithiau, am ddau neu dri diwrnod. (Annibynnol Gwrywaidd)

Nododd ambell un y risg gysylltiedig o 'deimlo dim emosiwn' a bod yn negyddol tuag at ddynion: rhywbeth nad oedd yn cael ei gydnabod bob amser nes iddynt adael gwaith rhyw yn gyfan gwbl.

Bydd esgortiaid yn dweud wrthyh fod y gwaith wrth eu bodd, ond maent yn marw'n araf tu mewn. Dyna fy mhrofiad personol i. [...] Fi oedd y nwydd, ac roeddwn i'n gwbl ddideimlad tuag at ddynion. (Cyn-esgort Annibynnol Benywaidd)

Risg arall rwy'n ei gweld, nad yw wedi effeithio arna i, ond rwy'n ei gweld gyda merched iau eraill, yw'r potensial i ddangos dirmyg o ran rhywioldeb gwrywaidd [...] yn y math hwn o waith, gallai'r fath ddirmyg effeithio ar gydberthnasau personol dilynol. (Dawnswraig Erotig)

Rwy'n ymddiried llai mewn dynion nawr. Ond rwy'n fwy realistig yn eu cylch, fwy na thebyg. (Masseur Erotig Benywaidd)

Soniodd nifer fach am yr obsesiwn â delwedd y corff a'r pwysau i gael cosmetoleg. Dywedodd y sefydliadau a oedd yn gweithio gyda gweithwyr rhyw gwrywaidd fod y camddefnydd o steroidau yn broblem ar hyn o bryd.

Soniodd nifer fach o werthwyr am yr her o ymdrin â chleientiaid â hylendid geneuol neu genhedol gwael.

Nododd cyfranogwyr, gan gynnwys unigolion a sefydliadau anllywodraethol, fod heintiau a drosglwyddir drwy ryw yn risg allweddol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r unigolion a oedd yn gwneud gwaith rhyw ar hyn o bryd fod archwiliadau iechyd rhywiol rheolaidd yn bwysig. Er bod ein data yn awgrymu bod y rhan fwyaf o werthwyr a phrynwyr (gan gynnwys ar y stryd) yn mynnu diogelu eu hunain, nododd gwerthwyr achosion o brynwyr yn ceisio tynnu condom i ffwrdd neu'n ceisio talu mwy am 'ddim defnyddio condom'. Ymddengys fod cyfathrach eneuol yn cael ei chynnig yn fwy aml heb gondom. Yn y diwydiant ffilmiau oedolion, dywedodd un ymatebydd wrthym:

...ni ddefnyddiwyd unrhyw ddiogelwch wrth ffilmio, fel sy'n digwydd fel arfer yn y diwydiant pornograffi yn ôl pob tebyg, felly roedd angen i ni [partner ag amryw o bartneriaid, heb ddefnyddio diogelwch] drafod hynny. Ac yn amlwg roedd angen i mi gael archwiliad llawn ymlaen llaw am unrhyw heintiau a drosglwyddir drwy ryw, a chael ffurflen wedi'i llofnodi yn dweud fy mod i'n glir. (Dyn, Un Profiad o Actio mewn Pornograffi)

O ran iechyd rhywiol, teimlwyd effaith cau gwasanaethau cymorth mewn blynyddoedd diweddar yn sylweddol gan rai cyfranogwyr:

Collais fy ngwasanaeth cymorth i weithwyr rhyw (roedd y gwasanaeth yn 35 oed). Roedden nhw fel mamau – fe fydden nhw ar gael ym mhob sefyllfa. Roedd yn anodd iawn. Daethpwyd o hyd i swyddog yr heddlu dibynadwy ar fy nghyfer, cefais PREP (meddyginiaeth HIV) pan gefais fy nhreisio, cefais gefnogaeth i ddilyn fy mreuddwydion. I ble yr awn ni nawr? I ble yr aiff pobl sy'n newydd i'r diwydiant? (Esgort Annibynnol Gwrywaidd)

Gwnaeth y clinig roeddwn i'n ei fynyachu'n rheolaidd am 7 mlynedd [...] golli ei gyllid ychydig o dan ddwy flynedd yn ôl a chaeodd i lawr. [...] Roedd gen i berthynas gref iawn a chyson â'r ddau ymarferydd nyrsio a oedd yn rhedeg y clinig [...] rhoddodd y prosiect ganolbwynt i mi, staff dibynadwy y gallwn i gysylltu â nhw os byddai unrhyw broblemau ac a oedd yn deall fy ngwaith. (Esgort Annibynnol Gwrywaidd)

Cyfeiriodd y dynion a ymatebodd a sefydliadau anllwydraethol at risgiau rhyw cemegol yn enwedig ymhlith gweithwyr rhyw gwrywaidd a'u cleientiaid. Mae rhyw cemegol yn golygu cymryd cyffuriau (fel methamffetamin crisial, GHB (gama hydrocsibwtirad) neu feffedron, a elwir yn 'miaow miaow' hefyd) sy'n gwella rhyw ac yn helpu unigolion i deimlo'n benrhydd. Mae'r ymatebydd hwn yn gweithio gyda dynion i normaleiddio rhyw sobr:

Mae gwaith rhyw yn beryglus i ddynion ar hyn o bryd. Mae llawer o esgortiaid yn cymryd cyffuriau gyda chleientiaid, sy'n eu gwneud yn agored i ladrad, treisio ac ymosodiad waeth beth yw crynswth y cyhyrau. [...] Mae'r rhan fwyaf o'r cleientiaid sydd gennyf yn dod dros "ryw gemegol", hynny yw maent mor gyfarwydd â rhyw ar gyffuriau nes eu bod yn poeni na fyddant yn gallu mwynhau rhyw sobr mwyach. (Esgort Annibynnol Gwrywaidd)

Honnodd nifer fach o'r ymatebwyr i'r arolwg fod y defnydd o gyffuriau mewn rhai puteindai a pharlyrau yn cael ei annog a/neu eu bod yn cael eu darparu gan y rheolwyr, a rhai asiantaethau esgortiaid.

Nodwyd, yn yr un modd, fod yfed alcohol mewn clybiau stripio yn cynyddu'r posibilrwydd o ymosodiad:

Mae hefyd yn anodd, mewn amgylchedd lle mae cymaint o alcohol ar gael, i reoli eich ffiniau personol eich hun, yn enwedig os ydych yn gweithio mewn lleoliad lle nad yw'r rheol dim cyffwrdd yn cael ei gorfodi. (Dawnswraig Erotig)

Nodwyd bod dod i ddibynnu ar alcohol neu gyffuriau, er mwyn ymdopi â gwaith rhyw i'r rhai nad oeddent wir am ei wneud, yn risg mewn lleoliadau dan do ac awyr agored.

Roedd unigrwydd yn broblem barhaus a leisiwyd gan gyfranogwyr. Nodwyd bod gweithio gydag unigolyn arall (neu unigolion eraill) yn ffordd o wella diogelwch, rhannu cyngor, arbed costau, cael hwyl a 'dadlwytho'n' emosiynol rhwng cleientiaid.

Drwyrannu roedd hefyd modd i mi weithio llai, am ei bod yn rhatach rhannu costau'r fflat a biliau. (Esgort Annibynnol Benywaidd)

Petawn i'n cael ffit (mae gennyf epilepsi) gyda chleient, gan fod y rhan fwyaf o gleientiaid yn credu ei bod hi'n anghyfreithlon bod yn esgort neu'n gleient... dydyn nhw ddim yn debygol o ffonio 999 rhag ofn iddynt gael eu harestio neu fod y digwyddiad yn dangos beth maent yn ei wneud, gan chwalu eu bywyd dwbl â gwraig. (Esgort Annibynnol Gwrywaidd)

Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r arolwg ar-lein a'r cyfweiliadau drwy e-bost fod yr amgylchedd cyfreithiol sy'n bodoli yng Nghymru a Lloegr – yn arbennig, y gyfraith yn erbyn dau werthwr neu fwy yn gweithio gyda'i gilydd o'r un safle – yn broblem o ran rheoli diogelwch. Roedd y rheini a oedd wedi cael eu treisio neu eu stelcio, neu wedi dioddef ymosodiad neu ladrad, yn aml yn amharod i roi gwybod i'r heddlu. Dywedwyd bod hyn yn grymuso tramgwyddwyr:

Roedd yna adegau pan fyddwn i ofn: cefais fy sarhau a'm bygwth ac roeddwn i'n gwybod na fyddwn i'n rhoi gwybod i'r heddlu. Ac roedd y sawl a oedd yn gyfrifol yn gwybod hynny hefyd. (Masseur Erotig Benywaidd)

Ni ellir gwneud pen na chynffon o'r gyfraith, am fod popeth sy'n fy ngwneud i'n fwy diogel yn

anghyfreithlon, ac roedd angen i mi guddio rhag yr heddlu ar y stryd er nad oedd gennyf ddewis arall ond bod yno. Nawr rwy'n gweithio mewn man anghyfreithlon ond mae'n fwy diogel. (Gweithiwr Stryd Benywaidd)

Dywedwyd bod cyrchoedd gan yr heddlu ar safleoedd dan do yn fygythiad cyson.

Yn y puteindy – am fod y dderbynfa yn cadw fy arian – fe fyddwn i wedi colli'r cyfan petai'r heddlu wedi dod yno. Hefyd, os oedd unrhyw drafferth, dywedwyd wrthym am beidio â chysylltu â'r heddlu a thynnu sylw at y lle. (Gweithiwr Benywaidd mewn Puteindy)

Roedd rhai gweithwyr hefyd yn amharod i roi gwybod am droseddau a oedd yn digwydd y tu allan i'r gwaith, er enghraifft ymosodiad rhywiol ar ddê, am eu bod yn teimlo y byddai'r ffaith eu bod yn weithiwr rhyw yn golygu bod yr heddlu yn llai tebygol o'u cymryd o ddifrif, neu'n ei gwneud hi'n anos cael cyfiawnder.

Nododd ymarferydd BDSM risgiau penodol ei gwaith:

Mae'n rhaid i mi hefyd fod yn ofalus gyda chleientiaid sy'n mynnu gwasanaethau BDSM â mwy o risg yn perthyn iddyn nhw, oherwydd fe allen nhw dagu/llewygu/gwaedu a dwi ddim am orfod ffonio am ambiwlans [...] Risg ychwanegol gwaith ffetis yw'r holl arfau posibl sydd o amgylch... (Ymarferydd BDSM Benywaidd)

Roedd y fath ofn hyd yn oed yn waeth pan fo gweithwyr hefyd yn fudwyr (cyfreithlon):

O ran gweithio "fel pâr", h.y. apwyntiad gyda gweithiwr arall, rwyf wedi gwneud hynny ychydig droeon ac mae cymaint yn well yn fy marn i [...] o ran diogelwch ac osgoi teimlo'n unig. Dwi ddim yn gwneud hyn yn aml, serch hynny, oherwydd rwy'n dal i fod ofn cleient annifyr yn rhoi gwybod amdonom – mae fy nghleientiaid yn gwybod mai mewn fudwr ydw i [oherwydd] (dyw'r [wefan gwasanaethau oedolion] ddim yn gadael i chi ddweud celwydd am hynny) felly maent yn gwybod y byddwn i mewn llawer mwy o helbul na gweithiwr rhyw Prydeinig petai'r heddlu'n cael gwybod. (Esgort Annibynnol Benywaidd)

Fodd bynnag, gwnaeth rhai gweithwyr stryd a gweithwyr annibynnol nodi bod ganddynt gydberthnasau da â'r heddlu lleol. Hefyd, gall rhai o ymgyrchoedd yr heddlu adnabod unigolion sy'n cael eu gorfodi neu y cam-fanteisir arnynt.

Nododd rhai dawnswyr erotig fod diddymu llawer o drwyddedau SEV yn dilyn Deddf Plismona a Throseddau 2009, heb graffu cysylltiedig ar amodau gwaith, yn broblematig:

... yn sydyn [roedd] llai o leoliadau i weithio ynddynt, a mwy o weithwyr. Os nad oes digon o waith i bawb ceir ras i'r gwaelod o ran gwerth... Nawr mae gan y clybiau a lwyddodd i wrthsefyll hyn fonopoli, a gallant reoli amodau gwaith er eu budd eu hunain. (Dawnswraig Erotig)

Nodwyd bod y cyfuniad o angen ariannol a'r amgylchedd cyfreithiol a rheoliadol yn "gyfuniad perfffaith o amodau" (Dawnswraig Erotig) i danseilio diogelwch:

... yn aml gall roi rhwydd hynt i bawb ymddwyn fel y mynnant – gall rheolau a ffiniau gael eu hanwybyddu os bydd angen arian ar ddawnswyr (po fwyaf y ffioedd a'r comisiwn, y mwyaf y pwysau i ennill arian) sydd wedyn yn rhoi'r fantais i gwsmeriaid. (Dawnswraig Erotig)

Roeddy lle yn broffidiol iawn [...] Dyma'r math o arian sy'n meithrin cydberthynas negyddol â'r rheolwr – gallai roi'r sac i ni unrhyw bryd a byddai'n manteisio ar hynny er mwyn ein rheoli. Bu sawl achlysur lle'r oedd angen dewis rhwng ei hymddygiad (bygythiadau, chwarae gemau meddyliol, dirwyon drud ac ati) neu gerdded allan a cholli llawer o arian. Roedd gen i lawer o ddyled felly roedd yn benderfyniad anodd i mi ei wneud. Fe arhosais i. (Gweithiwr Benywaidd mewn Puteindy)

Dim tâl gwyliau, dim tâl salwch. Os nad ydym yn gweithio, ni allwn dalu ein biliau. Os cawn ein hanafu, fe allem fynd am wythnosau heb gael ein talu. (Esgort Annibynnol Benywaidd)

Mae unigolion sy'n gwerthu neu'n hysbysebu rhyw ar-lein yn defnyddio technoleg fwyfwy i geisio rheoli eu diogelwch. Mae rhai llwyfannau oedolion yn cynnig system adborth ac mae gan o leiaf un llwyfan opsiwn gwe-gamera fel y gall gwerthwyr fwrw golwg dros hanes cleientiaid, eu dyddiad cofrestru a'u hadolygiadau (gweler hefyd **Atodiad 11**). Cyhoeddir adolygiadau o werthwyr hefyd. Soniodd cyfranogwyr am ffonio cleientiaid ar gyfer apwyntiadau cyntaf er mwyn iddynt glywed eu llais a bod yn well ganddynt gael rhif ffôn, yn hytrach na derbyn galwad o rif sy'n cael ei guddio. Dywedodd ambell un eu bod yn defnyddio Skype i sgrinio cleientiaid yn gyntaf.

Dim ond drwy [llwyfan oedolion ar-lein] y bydda i'n hysbysebu. Mae ganddo system adborth. Byddaf ond yn gweld cleientiaid sydd wedi cael adborth cadarnhaol o leiaf bum gwaith, heb unrhyw adborth negyddol o gwbl. (Esgort Annibynnol Benywaidd)

I'r gwrthwyneb, roedd rhai gwerthwyr yn negyddol am fyrddau adolygu ar-lein ('safleoedd cwsmeriaid'):

Byrddau adolygu ar-lein. Maen nhw'n erchyll. Gall y bygythiad o "adolygiad gwael" (a ystyrir gan lawer yn rhywbeth a all dinistrio eu gyrfa – nad yw'n wir gan fwyaf) gael ei ddefnyddio i wneud i weithwyr rhyw ddarparu gwasanaethau nad ydyn nhw'n gyfforddus â nhw. (Esgort Annibynnol Benywaidd)

Dwi ddim yn darllen fforymau cwsmeriaid am eu bod yn israddol (dim ond lleiafrif o gleientiaid sy'n eu defnyddio, diolch byth). (Esgort Annibynnol Benywaidd)

Nododd cyfranogwyr yn fynych fod stigma cymdeithasol yn peri niwed a gorbryder.

Y stigma sy'n cael ei greu gan wleidyddion a'r cyfryngau. Oherwydd y ddeialog negyddol gyson ynghylch gwaith rhyw, rwy'n teimlo bod yn rhaid i mi guddio'r hyn rwy'n ei wneud o'm teulu a'm ffrindiau. (Gweithiwr Benywaidd mewn Puteindy)

Mae'n siŵr mai'r niwed yw fy mod i'n teimlo fel rhywbeth sydd wedi'i falu nawr – petawn i am gwrdd â rhywun arbennig, mae'n cael effaith sylweddol ar fy hunanbarch. (Masseur Erotig Benywaidd)

Mae cael eich stigmatiddio am yr hyn rydych yn ei wneud yn anodd iawn. Rwyf wedi colli ffrindiau a phartneriaid nad oedden nhw'n gallu derbyn yr hyn roeddwn i'n ei wneud. (Masseur Erotig Gwrywaidd)

Nododd nifer o ymatebwyr eu bod ofn y byddai ffrindiau, teulu neu gydweithwyr yn darganfod yr hyn roeddent yn ei wneud. Hefyd, roeddent ofn petai'r adran gwasanaethau cymdeithasol yn cael gwybod amdanynt, a allai gwestiynu eu gallu i ofalu am eu plant. Nododd un fenyw a oedd yn esgort bod gweithio mewn ardal wledig yn cynyddu'r risg y byddai pobl yn darganfod beth roeddech yn ei wneud, neu'n eich adnabod, o gymharu â gweithio mewn dinasoedd mawr.

Mynegodd eraill bryder bod stigma a'r gyfraith (gan gynnwys euogfarnau am droseddau'n gysylltiedig â phuteindra fel rhedeg puteindy a llithio ar y stryd) yn ei gwneud hi'n anos gadael a symud i mewn i waith arall:

Mae'r ffaith bod prinder cyfleoedd gwaith pellach yn beth enfawr – mae'n gwbl groes oherwydd rwy'n astudio yn y brifysgol a ddylai fod yn arwydd nad wyf yn bwriadu gwneud hyn am byth, ond dyma fy unig ddewis yn y bôn, o leiaf nes i elusen/sefydliad anllywodraethol sydd â digon o ewyllys da gyflogi "merch ddrwg". (Esgort Annibynnol Benywaidd)

Yn olaf, nododd rhai ymatebwyr rai o'r dadleuon cynhennus yn wleidyddol ac ar y cyfryngau cymdeithasol yn ymwneud â phuteindra a/neu waith rhyw a oedd yn cynyddu niwed seicolegol ac yn anwybyddu'r problemau economaidd a chroestoriadol sylfaenol:

...Diddymwyr sy'n defnyddio fy stori i ennill mantais wleidyddol yn hytrach na gwrando arnaf yn egluro pam a sut y byddai dad-droseddoli yn fy ngwneud i'n fwy diogel (Annibynnol Benywaidd, cyn-weithiwr stryd)

O'm mhrofiad i yr unig niwed gwirioneddol fu'r diffyg dewis. Os na fyddwn i wedi cael fy ngham-drin a'm gwneud yn ddigartrefni fyddwn i wedi bod yn y diwydiant, petai digon o gymorth ar gael i bobl anabl ni fyddwn i wedi bod yma. [...] Rwy'n gwybod bod y diwydiant rhyw yn rhywiaethol ond mae hynny am ein bod yn byw mewn cymdeithas batriarchaidd, mae popeth o blaid y dynion. Rwy'n gweld pethau o hyd lle mae pobl yn dweud bod y diwydiant rhyw yn dangos i ddynion y gallant brynu menywod ac felly bod angen rhoi stop arno, ond dwi byth yn gweld neb yn cynnig opsiwn arall. (Annibynnol Benywaidd)

Prynwyr a phrynu

Gwnaeth nifer o brynwyr rhyw ymateb i'n harolwg ar-lein a gwnaethom gwblhau cyfweiliadau dilynol drwy e-bost gyda phump. Dynion oeddent i gyd. Hefyd, gwnaeth nifer o unigolion gwblhau'r arolwg ar-lein ond ni wnaethant nodi mai prynwyr oeddent – er i'w hatebion awgrymu eu bod, naill ai ar hyn o bryd neu yn y gorffennol. Yn y cyfweiliadau dilynol drwy e-bost, gwnaethom ofyn i werthwyr p'un a oeddent wedi, neu p'un a fyddent yn ystyried, talu am ryw. Gwnaethom hefyd ofyn i brynwyr p'un a oeddent wedi, neu p'un a fyddent yn ystyried, gwerthu rhyw. Roedd tystiolaeth ar gyfer y ddau, ymhlith dynion a menywod. Soniodd y gwerthwyr hynny a fyddai'n ystyried talu am ryw, neu a oedd wedi gwneud hynny, fod prynu yn gyfle i ddysgu sgiliau newydd, ac i werthfawrogi cydweithwyr rhyw. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o werthwyr na fyddent yn talu am ryw: yn bennaf am nad oedd yn apelio iddynt; neu am nad oedd angen iddynt; neu am na fyddent am i eraill brofi'r teimladau anodd roeddent hwythau'n eu teimlo pan fyddent yn gwerthu.

Gwnaethom ofyn i werthwyr ddisgrifio demograffeg eu cleientiaid a gwnaethom ofyn i brynwyr ddisgrifio demograffeg prynwyr eraill roeddent yn eu hadnabod (nid oedd ein sampl fechan yn adnabod prynwyr eraill yn bersonol, heblaw am brynwyr y gallent ddod ar eu traws mewn partïon rhyw).

Rhaid i mi gyfaddef nad wyf yn gwybod am unrhyw ffrindiau na chydnabod sy'n talu am y gwasanaethau hyn. Mae'n siŵr gen i fod rhai yn gwneud, ond mae mor bwysig iddo aros yn gyfrinachol, a chredaf y byddai llawer o ddynion yn teimlo embaras eu bod yn gwneud. (Prynwr Rhyw Gwrywaidd)

Roedd rhai cyfranogwyr yn awyddus i bwysleisio bod prynwyr yn amrywio o ran oedran, ethnigrwydd, rhywioldeb, dosbarth ac ati.

Dynion cyffredin. Brodyr, tadau, meibion... eich plymwr, athro, gweithiwr siop, mecanydd ac ati... does dim byd rhyfedd am y bobl hyn: dynion ydyn nhw y gallech gwrdd â nhw ar noson allan. (Cyn-weithiwr Stryd Benywaidd)

Er ei bod yn ymddangos yn dibynnu'n rhannol ar leoliad daearyddol a gwasanaeth/leoliad, y ddemograffeg fwyaf cyffredin a nodwyd gan gyfranogwyr oedd "Dynion gwyn, dosbarth canol rhwng 30 a 50 oed". Dywedodd yr ymatebwyr fod cleientiaid yn dueddol o fod yn briod: mae rhai yn unigolion statws uchel, proffil uchel weithiau.

Roedd ymatebwyr â phrofiad o buteindai wedi'u rheoli neu o werthu gwasanaethau BDSM yn fwy tebygol o nodi bod cleientiaid yn ddynion 'dosbarth canol ac uwch'. Ymddengys fod y rhan fwyaf o brynwyr yn ymweld â phuteindai'n unigol; rhai mewn grwpiau. Bydd rhai yn teithio i rannau gwahandol o'r DU i dalu am wasanaethau rhywiol, neu yn wir dramor. Yn achos un ymatebydd, y profiad o dalu am ryw dramor a wnaeth arwain at brynu rhyw'n rheolaidd pan wnaeth ddychwelyd i'r DU.

Gwnaethom ofyn i brynwyr a gwerthwyr nodi'r hyn a oedd yn cymell prynwyr: roedd yr ymatebion yn amrywio. Mae'r ymatebion hyn wedi'u grwpio'n dri chategori eang, ac nid ydynt wedi'u rhestru mewn unrhyw drefn benodol:

Personol	Ymarferol	Rhywiol
<ul style="list-style-type: none"> • Teimlo agosatrwydd a chysylltiad dynol • Unigrwydd • Yn sengl neu'n weddw neu wedi gwahanu • Partner â salwch hirdymor • Yn anodd cwrdd â rhywun oherwydd anabledd corfforol neu ddeallusol, maint, anffurfiad • Cleientiaid hŷn am "deimlo gwefr profiad rhywiol unwaith eto cyn iddynt farw" • Teimlo'n fwy gwrywaidd • Cael rhyw am y tro cyntaf • Trêt personol 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim amser i dreulio ar gydberthnasau na thelir amdanynt • Dim angen unrhyw fath o ymrwymiad • Eglurder a sicrwydd o ran yr hyn a wnaiff ddigwydd 	<ul style="list-style-type: none"> • Bod mewn priodas 'heb ryw' neu gydberthynas hirdymor • Yn anhapus yn rhywiol, heb hyder rhywiol • Dynion a gafodd eu magu mewn amgylchedd crefyddol/homoffobai dd sy'n brwydro eu dyheadau • Rhyddhad rhywiol corfforol • Cael rhyw 'fanila' a/neu 'sgyrsiau rhywiol' cliché • Angen cymorth i alldaflu (ar ôl llawdriniaeth ar y brostad, neu henaint, neu nerfusrwydd) • Am brofi ffantasi • Efallai na fydd y prif bartner am gymryd rhan mewn ffetis • Prynu mewn grwpiau, yn aml ar ôl yfed alcohol neu gymryd cyffuriau

Rhan B: Lleoliadau a Gwasanaethau

Cafodd tair ffynhonnell o wybodaeth eu dadansoddi a'u cyfuno er mwyn nodi'r 'Lleoliadau a Gwasanaethau':

1. Codio'r 1400+ o eitemau o lenyddiaeth o'n chwiliad systematig yn ôl lleoliad/gwasanaeth;
2. Codio'r ymatebion i'r arolwg lle gwnaeth ymatebwyr nodi ym mha leoliad roeddent yn gweithio;
3. Lawrlwytho a dadansoddi ymatebion yr arolwg i'r cwestiwn, "A oes 'mathau' penodol o buteindra a gwaith rhyw sydd angen eu cynnwys yn y prosiect hwn yn eich barn chi? Rhowch fanylion."

Yn gyffredinol, gwnaethom nodi'r lleoliadau a'r gwasanaethau canlynol ar gyfer puteindra a gwaith rhyw:

Lleoliadau a gwasanaethau	
Gwaith rhyw mewn bariau a bariau	Partïon rhyw
Croesawferched BDSM, cinc a ffetis	Gwaith rhyw ar y stryd ac yn yr awyr agored
Puteindai, parlyrau, sawnau	Trefniadau siwgr
Dawnsio erotig ac eggsotig	Voyeuriaeth Fyw, Dros y Ffôn, Drwy
Tylino erotig	Neges Destun, Ar y Teledu
Esgort: annibynnol	Gwasanaethau
Esgort: asiantaeth	Therapiwtig
Pornograffi, glamor ac erotica	Gwe-gamio

Nodwch y cyfyngiad a nodir yn **Atodiad 1** o ran nodi llenyddiaeth ar gyfer lleoliadau/gwasanaethau heblaw am waith ar y stryd/yn yr awyr agored a pheth gwaith dan do.

Gwaith rhyw mewn bariau a bariau croesawferched

Nododd ein harolygiad o'r llenyddiaeth 17 o eitemau yn ymwneud â 'gwaith rhyw mewn bariau' a 'bariau croesawferched'. Mae a wnelo 14 o'r rhain â Dwyrain Asia: Tsieina, Japan, Gwlad Thai, Corea, Taiwan Cambodia neu'r Pilipinas (Ynysoedd Philippines). Mae a wnelo tair â gweithwyr rhyw gwrywaidd (Collins, 2005; Collins, 2007; Storer, 2001) ac astudiaethau ethnograffaid yw'r mwyafrif (er enghraifft, Bedford & Hwang, 2011; Wilson, 2008; Ratliff, 2003), gyda thair yn canolbwyntio ar iechyd rhywiol (Morisky et al., 2010; Maher et al., 2011; Storer, 2001). Ymddengys fod mudo, symudedd ac 'ardaloedd ar y ffin' yn themâu cyffredin yn y llenyddiaeth hon.

Yn ôl y llenyddiaeth (ni wnaeth y sawl a gymerodd ran yn ein hymchwil drafod profiadau yn y lleoliad hwn) nid oes diwylliant croesawferched y gellir ei gymharu'n uniongyrchol yng Nghymru a Lloegr â'r hyn a geir yn Nwyrain Asia.

Am ddegawdau, gweithredwyd 'clybiau blingo' (neu fariau 'bron yn gwrw') yn ardal Soho yn Llundain ac mewn mannau eraill, gan wahodd dynion i dalu drwy'u trwynau am ddioddydd di-alcohol ac ychydig iawn o ryngweithio rhywiol, dan orfod bownsywyr a orfodai 'taliadau gwasanaeth'. Yn 2007, ail-ddosbarthodd Deddf Awdurdodau Lleol Llundain glybiau blingo yn sefydliadau rhyw, gan olygu bod angen trwydded berthnasol arnynt. Caiff rhai bariau yn Llundain ac mewn mannau eraill eu disgrifio'n 'fariau croesawferched', lle cynigir coctel neu awyrgylch clwb yfed. Gall rhai lleoliadau gynnal partïon rhyw (gweler **Partïon Rhyw** isod).

Ceir nifer o 'glybiau i ddynion' ledled y wlad sy'n cynnig dawnzio glin, stripio neu adloniant rhywiol arall i gynulleidfa er mwyn gwneud arian. Gallai rhai o'r gwasanaethau yn y lleoliadau hyn, fel talu am awr VIP, sy'n cynnwys sgwrs a fflyrtio, gael eu hystyried yn debyg i arferion bariau croesawferched. Caiff y clybiau hyn eu trwyddedu'n 'lleoliadau adloniant rhywiol' o dan Adran 27 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009. Gweler **Dawnsio Erotig** isod hefyd.

BDSM, Cinc a Ffetis

Gwnaethom nodi chwe eitem o lenyddiaeth yn ymwneud â natur a lefel bondais a disgyblaeth (B&D), dominyddu ac ufuddhau (D&S), a sadistiaeth a masochistiaeth (S&M) (sef BDSM gyda'i gilydd yma) neu waith cinc neu ffetis. Mae'r rhain yn cynnwys astudiaeth ethnograffaid o fywyd fel dominyddydd (Lindemann, 2012; Lindemann, 2011) a gwerth therapiwtig gwaith BDSM (Williams & Storm, 2012; Lindemann, 2011). Rydym yn ymwybodol o lenyddiaeth gymdeithasegol a chyfreithiol ehangach ar faterion cydsynio ym maes BDSM, er enghraifft (gweler, e.e. Cowan, 2012; Pinsky &

Levey, 2015), ond, yn gyffredinol, ymddengys nad oes digon o ymchwil i'r profiad o BDSM, cinc a ffetis (gan gynnwys ymarferion gwrywaidd a rhyweddu eraill) mewn llenyddiaeth academiaidd gyfoes ar buteindra a gwaith rhyw.

Nododd ein hymatebwyr fod rolau BDSM yn cynnwys dominyddiaeth broffesiynol (dominyddydd, *pro-domme*, *femdomme*); ufuddhau proffesiynol (*pro-sub*; gwaelod); a chyfnwid proffesiynol (a all gyfnwid rolau rhwng dominyddu ac ufuddhau). Fel rheol, menywod fydd y dominyddwyr a all ddarparu gwasanaethau ar-lein neu'n bersonol. Hefyd, ceir ymarferwyr BDSM gwrywaidd a thraws sy'n darparu gwasanaethau i gleientiaid gwrywaidd neu fenywaidd cis neu draws. Bydd rhai ymarferwyr BDSM yn nodi'n glir nad ydynt yn cynnig unrhyw agosatrwydd, tynnu dillad na chyswllt genitalaidd. Gall esgortiaid a gweithwyr annibynnol hefyd gynnig rhai arferion BDSM fel rhan o'u gwasanaeth. Bydd gan ambell *pro-domme* yrfaeodded y tu hwnt i BDSM: i eraill, dyma yw eu prif swydd.

Ymhlith yr hyn a wneir mae chwipio, bychanu, chwarae rôl (fel plentyn, anifail anwes), bondais, ymdreiddio, sado-masochistiaeth, chwarae-dyllu a 'chwarae effaith' arall. Bydd llawer o ymarferwyr BDSM yn trefnu lle mewn dwinsiwn neu efallai y byddant yn sefydlu un eu hunain. Mae dominyddiaeth ariannol (neu *findomme*) yn ymwneud ag esgus bod y cleient yn cael ei flacmelio'n ariannol.

Gall gwaith cinc a ffetis ymddangos yn waith nad yw'n rhywiol ond mae'r cleient yn gweld ystyr erotig mewn gwrthrych (e.e. esgidiau) neu arfer (e.e. sathru), gan olygu ei fod yn brofiad rhywiol neu erotig iddo. Ymhlith y gwasanaethau eraill a gynigir o dan fantell BDSM, cinc a ffetis, yn ogystal â chan rai esgortiaid a gweithwyr annibynnol, mae coproffilia, wrolagnia, sblosio neu Gydbertynas Nyrso Oedolyn ('ANR' neu laetha erotig). Ymhlith yr arferion arbenigol ychwanegol a ddisgrifiwyd gan ymatebwyr i'r arolwg ar-lein mae shibari, gwaith rhaff a reslwr sesiwn.

Llwybr mynediad cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr oedd diddordeb mewn BDSM, cinc a ffetis, neu brofiad di-dâl o hynny, gan gynnwys mynychu clybiau neu bartion ffetis neu geisio archwilio cinciau personol.

Symudodd eraill i faes BDSM am ei fod o bosibl yn darparu mwy o reolaeth dros y trafodyn, gan gynnwys dim angen tynnu dillad na chyffwrdd â genitalia os dymunwyd, a ffioedd uwch.

Siaradodd nifer sylweddol o ymatebwyr am gynnig gwasanaethau BDSM 'sylfaenol' fel rhan o'u gwaith fel esgort neu eu gwaith annibynnol. Fodd bynnag, nodwyd bod BDSM yn wasanaeth oedd yn gofyn am sgil ac ymrwymiad er mwyn ei ddarparu'n dda.

Cydnabuwyd gan ymatebwyr fod ufuddhawyr proffesiynol yn wynebu mwy o risg na dominyddwyr. Mae gwaith dominyddu wyneb yn wyneb yn peri risg i'r gwerthwyr os, er enghraifft, nad yw'r prynwr yn glynu wrth y rheolau a sefydlwyd neu fod ei fwriad yn un niweidiol.

Dywedodd prynwyr fod *pro-domme* yn 'hyderus', 'wedi cael addysg dda' neu 'wedi teithio cryn dipyn', er y gall hyn hefyd fod yn rhan o'r rôl sy'n cael ei chwarae. Dywedodd ymatebwyr fod y maes BDSM yn bennaf Wyn a dosbarth canol.

Puteindai, Parlyrau Tyliino a Sawnas sy'n gweithredu fel Puteindai

Mae ymchwil flaenorol yng Nghymru a Lloegr wedi edrych ar gefndiroedd ac arferion gwaith unigolion sy'n gweithio mewn puteindai (Pitcher, 2019, 2015a, 2015b; Sanders, O'Neill & Pitcher, 2009; Sanders, 2005); eu hiechyd, gan gynnwys iechyd rhywiol a defnydd o gyffuriau/alcohol (Jeal & Salisbury, 2007); trais/niwed a rheoli diogelwch (Kinnell, 2008; Sanders & Campbell, 2007; Church, et al., 2001); a masnachu mewn pobl ac ecsbloetiaeth mewn puteindai (Skidmore et al., 2016). Mae'r rhain wedi canolbwyntio'n bennaf ar fenywod mewn puteindai, ac ar buteindai preswyl yn ogystal â pharlyrau tyliino a sawnau sy'n gweithredu fel puteindai.

Safleoedd dan do yw puteindai lle caiff gwasanaethau rhywiol uniongyrchol eu darparu am dâl gan fwy nag un unigolyn, naill ai ar yr un pryd neu ar adegau gwahanol. Gall puteindai fodoli mewn fflatiau neu dai, gwestai, a sawnau a pharlyrau tyliino trwyddedig a didrwydded sydd hefyd yn

cynnig gwasanaethau rhywiol. Hefyd, cawsom wybod am fariau ewinedd oedd yn gweithredu fel puteindai.

Mae'n bwysig nodi na fydd pob sefydliad tylino na sawna yn cynnig – nac yn caniatáu ar eu safleoedd – wasanaethau rhywiol y telir amdanynt; mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, sawnau hoyw lle mae dynion yn cwrdd at ddibenion rhywiol na thelir amdanynt. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar unrhyw buteindy lle'r prif ddiben yw cynnig gwasanaethau rhywiol y telir amdanynt, gyda sawl unigolyn yn gweithio/ar gael am ryw â thâl ar y safle hwnnw.

Mae'r sefyllfa gyfreithiol o ran puteindai yng Nghymru a Lloegr ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron³: yn gryno, diffinnir puteindy fel mwy nag un unigolyn sy'n darparu gwasanaethau rhywiol o safle. Mae rheoli puteindy, neu adael i safle weithredu fel puteindy, yn anghyfreithlon. Mae gwerthu rhyw o fewn puteindy yn anghyfreithlon os gellir dangos bod y gwerthwr mewn rhyw ffordd ynghlwm wrth redeg y puteindy.

Mae'r gwasanaethau rhywiol a gynigir mewn puteindai yn cynnwys gweithredoedd rhywiol uniongyrchol amrywiol fel rhyw weiniol neu refrol, cyfathrach eneuol a mastyrbio â llaw. Weithiau, cânt eu cyfuno â gwasanaethau eraill fel tylino neu BDSM.

Gall puteindai gael eu rhentu gan yr unigolion (neu o leiaf un o'r unigolion) sy'n gwerthu rhyw oddi yno (puteindai 'ar y cyd') neu fod yn eiddo iddynt, neu gallant gael eu rheoli gan drydydd parti nad ydynt eu hunain yn gwerthu rhyw o'r safle, fel rheolwr puteindy, asiantaeth, neu unigolyn sy'n rhentu'r eiddo i'r sawl sy'n gwerthu rhyw ond nad ydynt eu hunain yn gwerthu rhyw ('puteindy a reolir').

Mewn puteindai a reolir, (boed mewn fflatiau, parlyrau neu sawnas), bydd unigolion yn gweithio sifftiau yn amrywio o e.e. 6 awr i 24 awr. Gallant weithio rhwng unwaith yr wythnos a saith diwrnod yr wythnos. Gallant weithio mewn un puteindy neu mewn gwahanol buteindai yn ystod wythnos/mis. Bydd gan rai puteindai a reolir un unigolyn ar y safle sy'n gwerthu rhyw, a bydd gan eraill sawl unigolyn. Mae puteindai a reolir yn hysbysebu eu hunain, fel rheol drwy gyfeiriaduron ar-lein, eu gwefannau eu hunain, y cyfryngau cymdeithasol, ac o bosibl bapurau newydd lleol. Fel rheol bydd rhywun yn y dderbynfa a/neu forwyn yn cymryd apwyntiadau/delio ag unigolion sy'n cerdded i mewn, ac yn ddelfrydol yn sgrinio cleientiaid. Os bydd mwy nag un unigolyn yn gwerthu rhyw yno, byddant yn cyflwyno eu hunain i'r prynwr, sy'n dewis unigolyn (os oes mwy nag un ar gael), yn cytuno ar bris naill ai gyda nhw neu'r unigolyn yn y dderbynfa/morwyn, ac fel arfer yn talu'r arian ymlaen llaw.

Mae prisiau puteindai a reolir yn dibynnu ar y gwasanaethau y cytunir arnynt. Bydd y sawl sy'n gweithio mewn puteindai a reolir yn talu ffi i'r puteindy o'u henillion o brynwyr, sef 40-60% fel arfer. Gallant hefyd dalu ffioedd ychwanegol am ddiogelwch ac i'r sawl sydd yn y dderbynfa/morwyn os nad yw hyn wedi'i gynnwys i ddechrau. Mae rhai puteindai hefyd yn gofyn i'r bobl sy'n gweithio yno dalu ffi sifft neu ddydd am fod yno (nododd un ymatebydd ffi ddyddiol o £200, yn ogystal ag 20% o enillion y diwrnod hwnnw i'r unigolyn yn y dderbynfa). Efallai y bydd unigolion yn gallu cadw arian o 'bethau ychwanegol'.

Yn ogystal â phuteindai sefydlog a reolir a ddisgrifir uchod, mewn rhai achosion bydd asiantaethau esgortiaid neu unigolion yn rhentu fflatiau i weithwyr rhyw, ac yn trefnu cleientiaid iddynt. Mewn achosion o fasnachu mewn pobl, bydd gangiau/masnachwyr mewn pobl yn rhentu allan eiddo preswyl yn bennaf, gan gynnwys dros dro, gan gadw dioddefwyr nad ydynt yn hanu o'r DU yno'n bennaf, er mwyn darparu gwasanaethau rhywiol yn erbyn eu hewyllys, gan eu symud rhwng puteindai'n aml. Fel y dengys ymchwil ddiweddar, bydd masnachwyr mewn pobl hefyd yn ecsbloetio menywod mewn puteindai sy'n edrych fel 'parlyrau tylino' weithiau. Gall y menywod hyn gael eu hysbysebu ar wefannau gwasanaethau i oedolion (Skidmore, et al., 2016).

³ Mae canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron ar Buteindra ac Ecsbloetiaeth ym maes Puteindra, ynghyd â dolenni i statud, ar gael yn: <https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/prostitution-and-exploitation-prostitution>

Yn achos puteindai **ar y cyd**, bydd unigolion sy'n gwerthu rhyw yn rhannu fflat neu dŷ gydag eraill sy'n gwerthu rhyw, naill ai ar yr un pryd neu ar adegau gwahanol, gan weld cleientiaid yno fel esgortiaid. Mewn rhai achosion, bydd unigolion yn symud o gwmpas gyda'i gilydd, gan rentu eiddo dros dro.

Ar wahân i landlord neu westy y telir rhent/ffioedd iddo, nid oes trydydd parti fel asiantaeth na rheolwr sy'n rheoli'r eiddo. Bydd unigolion mewn puteindai ar y cyd fel arfer yn trefnu eu hysbysebion a'u hapwyntiadau eu hunain, neu gallant gyflogi rhywun arall i wneud hynny. Gallant rannu costau rhent yn gyfartal. Fel y noda ymchwil ddiweddar, mewn rhai achosion bydd un gweithiwr rhyw yn cyflawni rôl weinyddol ac yn codi ffi ar weithwyr eraill am rent a chostau eraill, a all wneud y gwahaniaeth rhwng puteindai a reolir a phuteindai ar y cyd yn llai eglur (Pitcher, 2015a).

Tylino Erotig

Ni wnaethom nodi, drwy ein chwiliadau systematig o'r llenyddiaeth, unrhyw astudiaethau ethnograffaid, ansoddol na meintiol yn canolbwyntio'n benodol ar dylino erotig (gan nodi ein cafeat blaenorol ar y chwiliadau o lenyddiaeth), ond nodwyd y lleoliad yn aml gan ymatebwyr i'r arolwg a'r sawl a gyfwelwyd drwy e-bost.

Mae tylino erotig yn golygu tylino cnawdol sydd fel arfer yn gorffen gyda'r cleient yn cael ei fastyrbio. Er y gall tylino erotig fod yn rhan o wasanaethau esgort neu weithiwr annibynnol, gall hefyd gael ei gynnig fel gwasanaeth ar wahân gan masseur erotig dynodedig, gan weithio gydag eraill neu ar ei ben ei hun. Nododd rhai ymatebwyr fod cyfathrach eneuol, cyffroi'r anws yn eneuol neu dreiddio yn rhan o'r tylino: ni nododd eraill hynny.

Cafodd tylino erotig ei nodi'n gadarnhaol gan lawer o ymatebwyr, naill ai fel rôl bresennol neu fel rôl yr hoffent ei gwneud.

Ni allem nodi patrwm clir o ran demograffeg ar gyfer y lleoliad hwn: yn fwyaf cyffredin, fodd bynnag, ymddengys ei fod yn gam ymlaen i esgortiaid gwasanaeth llawn a gweithwyr annibynnol, neu'n arfer ychwanegol.

Dawnsio Erotig ac Egsotig

Ymddengys fod llenyddiaeth fwy sefydledig ar ddawnsio erotig. Gwnaethom nodi 28 o eitemau drwy ein chwiliad systematig o'r llenyddiaeth. Mae'r mwyafrif o'r llenyddiaeth yn canolbwyntio ar yr Unol Daleithiau a dawnsiwr sy'n fenywod. Mae un astudiaeth yn ystyried dawnsiwr sy'n ddynion (Boden, 2007) ac mae Pilcher (2016) yn archwilio gwyllyddiaeth fenywaidd. Mae tair astudiaeth yn datblygu teipoleg o ddawnsio erotig, dawnsiwr neu glybiau (Sloan, 2004; Colosi, 2008; Bradley-Engen, Mindy & Ulmer, 2009).

Gwaith ethnograffeg a chyfweliadau sy'n archwilio'r gwir am ddawnsio erotig yw mwyafrif y llenyddiaeth a nodwyd (er enghraifft, Shoemate, 2009; Barton, 2001; Clifton, 2002; Deshotels & Forsyth, 2006). Croestoriadau â hil (Brooks, 2010) ac â'r defnydd o gyffuriau ac iechyd rhywiol (Sherman et al., a; Sherman et al., 2011b) yw'r gweddill.

Gelwir dawnsio erotig neu egsotig yn stripio hefyd. Bydd 'strippergrams' neu 'kissograms' yn unigolion hunangyflogedig neu'n cael eu cyflogi drwy asiantaeth neu fusnes i gyfarch rhywun, ar y cyd â stripio ar eu cyfer.

O dan adran 27 o Ddeddf Plismona a Throseddau 2009 diffinnir Lleoliad Adloniant Rhywiol fel "any premises at which relevant entertainment is provided before a live audience for the financial gain of the organiser or the entertainer." Mae angen i leoliadau o'r fath gael trwydded i weithredu. Gall 'adloniant perthnasol' gynnwys Dawnsio glin; Dawnsio polyn; Dawnsio bwrdd; Sioeau stripio; Sioeau sbecian; a Sioeau rhyw byw. Efallai na fydd sioeau bwrlésg yn dod o dan reolau trwyddedu Lleoliad Adloniant Rhywiol, yn dibynnu ar y ffordd y cânt eu cynnal. Yma, canolbwyntiwn yn benodol ar brofiadau'r sawl sy'n gweithio mewn tafarndai a chlybiau stripio.

Yn gyffredinol, nid oedd y rheini a gyfwelwyd drwy e-bost yn dueddol o fod wedi gweithio yn y diwydiant rhyw: yn hytrach, cawsant eu denu i ddawnsio erotig yn benodol. Fodd bynnag, aeth y mwyafrif ymlaen i waith fel esgort neu weithio o gartref gan gynnig gwasanaeth llawn, er efallai ar ôl cyfnod estynedig o stripio. Fel rheol, dilynwyd trywydd cysylltu â chlwb am glyweliad neu gofrestru ag asiantaeth.

Nododd yr ymatebwyr fod y dawnsiwr yn amrywio o ran eu cefndir economaidd-gymdeithasol a'u hethnigrwydd. Eu canfyddiad nhw oedd bod yr amodau trwyddedu ar leoliadau adloniant rhywiol, lle'r oedd gofyn i ddawnsiwr feddu ar hawl gweithio yn y DU, yn golygu nad oeddent yn ymwybodol o ddawnsiwr a orfodwyd neu a oedd wedi dod yma o'r tu allan i'r DU, ar ffurf masnachu mewn pobl.

Dywedodd ymatebwyr wrthym fod sifftiau yn cael eu trefnu drwy'r rheolwr tŷ neu'r asiantaeth. Mae ystod eang o amodau gwaith a dulliau o dalu: nododd dawnswyr fod y rhain yn peri problemau mynych (gweler o dan **Themâu Trawsbynciol – Risg, niwed a rheoli diogelwch**

Gwaith esgort: Annibynnol

Mae'r llenyddiaeth ar waith esgort yng Nghymru a Lloegr (gan gynnwys astudiaethau ar y DU gyfan) yn archwilio profiadau a chefnidiroedd eang esgortiaid annibynnol ac esgortiaid asiantaeth, o wahanol ryweddau (Cunningham, et al., 2018; Pitcher, 2019; Pitcher, 2015b; Sanders, et al., 2009; 2017). Mae peth llenyddiaeth yn canolbwyntio ar brofiadau o drais a strategaethau rheoli risg/diogelwch a ddefnyddir gan esgortiaid yn gyffredinol (Kinnel, 2008) ac yn benodol gan esgortiaid sy'n ddynion sy'n gwerthu rhyw i ddynion (Jamel, 2011). Weithiau gwahaniaethir rhwng esgortiaid asiantaeth ac esgortiaid annibynnol (Pitcher, 2015a; Sanders et al., 2016). Ymddengys fod y mwyafrif o astudiaethau yn canolbwyntio'n bennaf neu'n gyfan gwbl ar esgortiaid annibynnol, gan gynnwys fel sy'n ymwneud â thrais a rheoli risg/diogelwch (Campbell, et al., 2019; Davies & Evans, 2007). Ni wnaethom nodi unrhyw lenyddiaeth a oedd yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar esgortiaid asiantaeth yng Nghymru a Lloegr.⁴

Yn ôl ein hymatebwyr, mae'r rheini sy'n gweithio fel esgortiaid annibynnol yn gweithio ar eu pen eu hunain ac yn annibynnol ar drydydd partion fel asiantaethau, rheolwyr neu bimpiaid. Maent yn cynnig gwasanaethau rhywiol uniongyrchol, weithiau ar y cyd â gwasanaethau eraill fel ffetis/cinc/BDSM. Gallant gwrdd â chleientiaid yn eu cartref, neu mewn gwesty, fflat neu ystafell a rentir neu a brynwyd at y diben hwn. Gall fod yn un man penodol neu amrywiaeth o leoliadau (e.e. archebu ystafelloedd mewn gwesty wrth 'deithio' o gwmpas gwahanol drefi/dinasoedd). Gall esgortiaid annibynnol gwrdd â chleientiaid yng nghartref y cleient neu mewn lleoliad dan do arall a drefnir gan y cleient. Maent yn gosod eu prisiau, eu horiau a'u cyfyngiadau gwasanaeth eu hunain ac yn penderfynu pa gleientiaid a welir ganddynt. Gall rhai reoli pob agwedd ar eu gwaith, a gall eraill is-gontractio agweddau fel dylunio gwefan neu waith cyfrifyddu (Pitcher, 2015a). Mae'r mwyafrif yn hysbysebu ar-lein, gan gynnwys ar wefannau gwasanaethau i oedolion (gan gynnwys gwefannau cyffredinol a niche), y cyfryngau cymdeithasol, safleoedd neu apiau caru, a/neu eu gwefannau eu hunain. Bydd rhai yn hysbysebu ar un llwyfan, tra bydd eraill yn gwneud hynny ar sawl un. Bydd rhai esgortiaid annibynnol hefyd yn hysbysebu mewn papurau newydd lleol, ond ar-lein a ffeirir fwyaf. Trefnir apwyntiadau drwy e-bost, neges destun, galwad ffôn, negeseuon uniongyrchol ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol neu wefannau.

Gall unigolion fynychu apwyntiadau bob diwrnod o'r wythnos, neu ond cael un neu ddau bob ychydig wythnosau neu fisoedd. Gall apwyntiadau bara 15 munud neu hanner awr (ni fydd rhai esgortiaid yn cynnig y slotiau byr hyn), i un awr neu fwy, dros nos, neu sawl diwrnod.

Mae apwyntiadau lle bydd y cleient yn dod at yr esgort yn dueddol o gostio llai nag apwyntiadau lle bydd yr esgort yn mynd at y cleient. Gall gwasanaethau ychwanegol fel wrolagnia gostio mwy.

Awgrymodd ymatebwyr fod y rhai sy'n gweithio fel esgortiaid annibynnol yn fenywod yn bennaf (cis a thraws), ac i raddau llai, yn ddynion (cis a thraws). Nodwyd bod dynion, dynion traws a menywod traws yn fwy tebygol o weithio'n annibynnol nag mewn puteindy a reolir (Pitcher, 2015a, 2015b).

Bydd rhai yn rhoi cynnig ar waith rhyw heb gyswllt rhywiol uniongyrchol, ond bydd yn llai proffidiol iddynt na gwasanaeth llawn a byddant yn symud i mewn i waith esgort annibynnol am y rheswm hwn.

Byddai'n well gan lawer rannu fflat neu fan arall ag eraill sy'n gwerthu rhyw ond maent yn osgoi gwneud hyn oherwydd y risg o gael eu harestio o dan gyfreithiau rhedeg puteindy.

⁴ Wrth chwilio drwy'r llenyddiaeth, dim ond tair astudiaeth oedd yn canolbwyntio ar esgortiaid asiantaeth, a'r rheini yn y DU: gwnaeth Smith, Grov & Seal (2008a; 2008b) a Smith et al. (2013), archwilio profiadau esgortiaid oedd yn ddynion a oedd yn gweithio i un asiantaeth yn yr UD.

Gwaith esgort: Asiantaeth

Gall esgortiaid asiantaeth gynnig yr un gwasanaethau ag esgortiaid annibynnol a nodir yn yr adran uchod, ond byddant bron bob amser yn cynnig ymweld â'r cleient yn unig (er enghraifft, i westy neu gartref cleient). Bydd asiantaethau fel rheol yn trefnu'r gwaith hysbysebu, trefnu apwyntiadau a chymryd taliadau, neu bydd gweithwyr yn cael y taliad a gofynnir iddynt ad-dalu rhan ohono fel comisiwn i'r asiantaeth.

Roedd a wnelo'r prif faterion a godwyd gan yr esgortiaid asiantaeth a ymatebodd â lefelau ymreolaeth a thaliadau comisiwn. Teimlai rhai fod asiantaethau yn cyfyngu ar ddewis ac y gallent ei gwneud hi'n anoddach 'dweud na'; ond roedd hyn hefyd yn dibynnu ar yr asiantaeth.

Rwyf wedi gweithio i asiantaeth ac yn annibynnol, a hynny dan do gyda chleientiaid yn dod ataf i/mynd i westai/cartrefi cleientiaid. Y prif wahaniaeth... yw pan fyddaf yn gweithio'n annibynnol, gallaf sgrinio fy nghleientiaid fy hun, teimlafi bod hi'n haws gwrthod cleient nad wyf yn teimlo'n gyfforddus ag ef, a does neb yn mynd â rhywfaint o'm harian heblaw am HMRC. (Esgort Annibynnol Benywaidd)

Pornograffi, Glamor ac Erotica

Dim ond 11 o eitemau o lenyddiaeth ar bornograffi a nodwyd gennym fel rhan o'n chwiliad systematig. Fodd bynnag, roedd ein geiriau allweddol ar gyfer y chwiliad systematig yn ymwneud â gwaith rhyw a/neu buteindra; byddai defnyddio'r gair allweddol 'pornograffi' wedi esgor ar lawer mwy o ganlyniadau. Ymhlith yr 11 o eitemau: mae dwy yn ystyried y croestoriad rhwng pornograffi ac ethnigrwydd (Miller-Young, 2010; Shimizu, 2010); mae dwy yn archwilio effaith y rhyngwrwyd ar bornograffi (Chang, 2003; Döring, 2012) ac mae tair yn cynnwys gwaith mwy ethnograffiaid ar y diwydiant pornograffi (Delamater, 2010; Escoffier, 2007; Tibbals, 2013).

Mae gwaith Dines (2010) yn crynhoi hanes hanfodol y gydberthynas rhwng pornograffi a rhywioldeb.

Mae a wnelo pornograffi â chyfleu (drwy gyfryngau argraffedig neu weledol) bwnc testun rhywiol sydd â'r nod penodol o ysgogi cyffro rhywiol. Mae'r term yn cyfeirio at y cyfleu, yn hytrach na'r pwnc testun ei hun. Felly, er enghraifft, nid yw rhyw mewn grŵp yn bornograffi, ond gallai ffotograff sy'n cyfleu rhyw mewn grŵp gael ei ddisgrifio'n 'bornograffiaid'.

Mae gwaith modelu neu ffotograffiaeth glamor yn fath o ffotograffiaeth lle bydd unigolion yn gwneud ystumiau erotig mewn ffotograffau (gan wisgo dillad, wedi'u gorchuddio'n rhannol neu'n noeth) a all gael eu gwerthu i'w defnyddio'n breifat neu'n fasnachol ar gyfer calendrau a chylchgronau. Er y gall y sawl sy'n ymwneud â chreu pornograffi, glamor ac erotica wahaniaethu rhwng categorïau: gall gwylwyr a defnyddwyr gyfuno'r rhain fel 'pornograffi'.

Nododd ymatebwyr eu bod wedi cymryd rhan yn y canlynol: perfformio mewn ffilmiau i oedolion; gwaith modelu a ffotograffiaeth glamor; modelu dillad isaf erotig neu i oedolion; creu/cynhyrchu clipiau; gwneud fideos wedi'u teilwra; rhannu ffotograffau/lluniau noeth i'w gwerthu drwy wasanaethau tanysgrifio ar wefannau rhannu ffotograffau prif ffrwd ac arbenigol.

Ni chawsom ddigon o sylwadau i ddarparu mwy o ddisgrifiad o nodweddion y lleoliad hwn, na'r profiadau ohono, ond rydym wedi'i gynnwys am i nifer o ymatebwyr ddweud eu bod wedi cymryd rhan mewn pornograffi, glamor ac erotica yn ogystal ag, er enghraifft, waith esgort, BDSM neu siwgro. Mae hyn yn cysylltu â thema drawsbynciol **Patrymau ymgysylltu a symud rhwng lleoliadau/gwasanaethau**. Rydym hefyd yn cydnabod bod peth goryffwrdd rhwng y lleoliad hwn a'r categorïau **Gwe-gamio a Ffôn, Neges Destun a Theledu** isod.

Partïon Rhyw

Ni wnaethom nodi unrhyw astudiaethau drwy'r chwiliad systematig a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar 'bartïon rhyw', er i un astudiaeth (Byrne, 2006) ystyried y cynnydd mewn 'dogging' neu 'piking' yn y DU a'r gorgyffwrdd â gwaith rhyw lle caiff unigolion eu marchnata drwy safleoedd ar-lein.

Mae partïon rhyw yn ddigwyddiadau lle gall y sawl sy'n bresennol gymryd rhan mewn profiadau rhywiol gyda'i gilydd mewn amgylchedd a nodir yn un diogel a chydysniol. Disgrifir partïon mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys 'mannau rhyw-gadarnhaol', 'partïon chwarae', 'partïon preifat' neu 'gywestach'.

Cydnabyddwn nad yw'r holl enghreifftiau canlynol yn cynnwys unigolyn neu grŵp o unigolion sy'n gwerthu gwasanaethau rhywiol eu hunain. Er enghraifft, ar gyfer llawer o'r digwyddiadau, rhaid i'r sawl sydd yno dalu tâl mynediad i'r trefnydd, ond nid ydynt yn mynd ymlaen i gael rhyw gyda'r trefnydd unigol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, telir gweithwyr rhyw am fod yno neu gymryd rhan yn y partïon hyn a/neu gallant drefnu a darparu gwasanaethau. Er i'r rhai a ymatebodd i'r arolwg danlinellu'r ffocws ar ddiogelwch a chydysniad, nodwyd yn y cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid y gall gweithwyr rhyw gael eu cam-drin o hyd mewn partïon neu leoliadau rhyw mewn grŵp eraill.

Gan ddefnyddio'r data o'n harolwg a'r ymgynghoriadau â rhanddeiliaid, nodwyd yr enghreifftiau canlynol gennym:

Clybiau 'swing' a phartïon 'swinger': Mae'r gair Saesneg 'swinging' yn disgrifio cymryd rhan mewn rhyw fel grŵp, a hynny fel gweithgaredd hamdden neu gymdeithasol. Weithiau cyfeirir ato fel cyfnewid gŵr/gwraig/partner ac mae'n fath o anfonogami. Caiff partïon 'swing' eu trefnu mewn clybiau neu gartrefi preifat. Nodwyd mewn ymatebion fod cymunedau 'swinger' wedi tueddu i fod yn Wyn ac yn heteronormadol.

Parti a chwarae: Partïon yw'r rhain lle ceir rhyw cemegol (gweler o dan **Risg, niwed a rheoli diogelwch** yn Rhan 1A **Themâu Trawsbynciol**) ac maent yn gysylltiedig yn arbennig â rhai lleoliadau ym maes sawnas a baddondai dynion hoyw (gweler uchod **Puteindai, Parlyrau Tyllino a Sawnas sy'n gweithredu fel Puteindai**).

BDSM neu bartïon chwarae cinc/ffetis: Gall partïon BDSM neu 'bartïon domina' ddigwydd mewn dwinsiynau, neu mewn cartref preifat er enghraifft, lle bydd y sawl sy'n bresennol yn talu gan ddisgwyl cymryd rhan mewn gweithgareddau BDSM a ddarperir gan y trefnwyr. Hefyd, cynhelir digwyddiadau masnachol a/neu fwy o faint mewn warysau, lleoliadau cerddoriaeth neu glybiau sy'n hwyluso BDSM, arferion cinc a ffetis, a rennir yn aml rhwng gwahanol 'ystafelloedd chwarae'. Bydd rhai partïon yn cynnwys rhyw uniongyrchol, boed hynny yn y prif ystafelloedd neu ystafelloedd ar wahân, a all fod yn 'gyfrinachol' a lle mae angen defnyddio cyfrinair i fynd i mewn iddynt. Fel rheol bydd cod gwisg a gellir cyfyngu ar ddynion sy'n dod ar eu pen eu hunain. Caiff partïon eu hysbysebu ar lwyfannau ar-lein perthnasol.

Partïon 'elitaidd' neu wahoddiad yn unig: Mae nifer o gwmnïau yn rhedeg partïon rhyw a elwir yn rhai 'ecsqliwsif' a 'glamoraidd', gan alluogi pobl i archwilio profiadau rhywiol. Yn aml bydd y digwyddiadau hyn yn rhai gwahoddiad yn unig a bydd rhai yn gofyn am lun a disgrifiad personol er mwyn asesu aelodaeth. Unwaith eto, bydd llawer o ddigwyddiadau ond yn gadael i ddynion ddod fel rhan o gwpl, ond croesewir menywod sydd ar eu pen eu hunain. Gall rhai dynion ddefnyddio esgortiaid er mwyn mynd i'r partïon hyn. Gall disgwyliaid o ran codau gwisg amrywio rhwng dynion a menywod. Gall y partïon hyn gael eu cynnal mewn eiddo moethus ledled y DU. Mae hefyd ddigwyddiadau i fenywod yn unig sy'n ystyried eu hunain yn 'ddechwilgar' neu'n ddeurywiol. Bydd rhai partïon yn marchnata eu hunain fel rhai 'cwiar-gyfeillgar' yn benodol.

Digwyddiadau ar y penwythnos: Gall digwyddiadau ar y penwythnos, a drefnir yn aml mewn cartrefi preifat neu eiddo moethus, gael eu trefnu lle bydd esgortiaid yn dod yn annibynnol, neu gyda phartner sy'n talu.

Efallai y bydd disgwyl i esgortiaid neu efallai na fydd disgwyl i esgortiaid gael rhyw gyda'r prynwr neu unigolion eraill yn y parti. Clywsom gan gyn-egort a gafodd ei threisio drwy'r rhefr mewn parti

rhyw preifat.

'Dogging': Yn wreiddiol defnyddiwyd y term hwn i ddisgrifio 'sbecian' ar gyplau'n cael rhyw mewn man cyhoeddus. Gallai'r arfer hwn gael ei ystyried o dan y term 'parti rhyw' am ei fod yn ymwneud fwyfwy â chael rhyw fel cwpl a grŵp mewn man cyhoeddus neu lled-gyhoeddus, a drefnir ymlaen llaw dros y we. Arfer cysylltiedig yw 'gangbang', lle bydd nifer o unigolion yn cael rhyw gydag un neu fwy o unigolion a delir. Mae elfen voyeuraidd yma hefyd. Gall 'gangbang' hefyd gael ei drefnu mewn puteindy ac mae'n nodwedd mewn rhai mathau o bornograffi.

Stryd/Awyr Agored

Mae digonedd o ymchwil gan academyddion a darparwyr gwasanaeth ar buteindra ar y stryd/yn yr awyr agored yng Nghymru a Lloegr. Mae'r astudiaethau hyn wedi bod yn dueddol o ganolbwyntio ar fenywod sy'n gwerthu rhyw ar y stryd/yn yr awyr agored, yn enwedig eu hiechyd corfforol, rhywiol a meddyliol, gan gynnwys bod yn gaeth i gyffuriau/alcohol a thrais/niwed; cefndiroedd cymdeithasol; llwybrau i mewn ac allan; a chydberthnasau â phartneriaid agos a phlant (e.e. O'Neill, 2001; Barefoot Research and Evaluation, 2016; Renouf, 2016; Sandwith, 2011; Harding & Hamilton, 2009; Sanders et al., 2009; Coy, 2008; Jeal et al., 2008; Kinnell, 2008; McClelland & Newell, 2008; Jeal & Salisbury, 2007; Jeal & Salisbury, 2004; Hester & Westmarland, 2004; Church, et al., 2001). Mae llai wedi ysgrifennu am ddynion sy'n gwerthu rhyw ar y stryd/yn yr awyr agored, a sut y gall eu profiadau a'u dull o weithio fod yn wahanol i werthwyr benywaidd (Ellison, 2018; Atkins & Laing, 2012; Sanders, et al., 2008).

Mae puteindra ar y stryd/yn yr awyr agored yn cynnwys unigolion sy'n llithio i werthu rhyw, neu ddarparu rhyw, mewn lleoliadau awyr agored. Unigolion yn llithio prynwyr yw hyn fwyaf – e.e. ar strydoedd cymdogaethau preswyl neu mewn ardaloedd diwydiannol, mewn parciau/coedwigoedd, meysydd parcio ceir/lorïau, o amgylch gorsafoedd rheilffordd/bysiau neu borthladdoedd – gyda'r weithred rywiol yn digwydd yn yr awyr agored (e.e. stryd/ali, cerbyd y prynwr, coedwig/parc) neu dan do (e.e. mewn fflat neu westy gerllaw). Fodd bynnag, gellir hefyd lithio/gwneud trefniadau dros y ffôn neu ar-lein, gyda'r weithred rywiol yn digwydd yn yr awyr agored. Gall puteindra ar y stryd gan ddynion hefyd ddigwydd mewn mannau criwsio neu ardaloedd hoyw sy'n cynnwys lleoliadau eraill fel clybiau a bariau, lle bydd dynion yn chwilio am brofiadau rhywiol am dâl a di-dâl gyda dynion eraill (gweler hefyd Ellison, 2018; Atkins a Laing, 2012; Sanders et al., 2009; ymgynghoriadau â rhanddeiliaid). Gall unigolion sefyll mewn ardaloedd lle gwyddys bod puteindra ar y stryd gyda phrynwyr yn dod i'r ardaloedd hyn, neu gallant gerdded o gwmpas gan fynd at ddynion i ofyn am sigarét neu olau ac yna gynnig gwasanaethau rhywiol. Bydd rhai unigolion yn llithio mewn ardal ar eu pen eu hunain, tra bydd eraill yn gwneud hynny mewn ardaloedd lle mae eraill yn gwerthu rhyw hefyd.

Gall unigolion gymryd rhan mewn puteindra ar y stryd unrhyw le o bob dydd, i unwaith neu ddwywaith bob ychydig fisoedd neu hyd yn oed flynyddoedd, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau. Yr adegau mwyaf prysur ar gyfer llithio yw gyda'r nos ac yn y bore fel arfer, pan fydd prynwyr yn mynd i'r gwaith neu'n gadael gwaith, neu ben bore pan fydd rhai prynwyr sy'n gorffen sifft nos yn gorffen gwaith. Y gweithredoedd rhywiol dan sylw fel arfer yw mastyrbio â llaw, cyfathrach eneuol, neu ryw dreiddiol (gweiniol neu refrol). Fel rheol telir am wasanaethau ag arian parod, ac yn ddelfrydol ymlaen llaw. Fodd bynnag, caiff rhyw ei gyfnewid am loches, bwyd a chyffuriau/alcohol. Mewn rhai achosion, gall 'cwsmeriaid rheolaidd' neu brynwyr sy'n trefnu ystafell mewn gwesty dalu drwy drosglwyddiad banc.

Efallai y bydd neu na fydd trydydd parti. Mae rhai unigolion yn gweithio ar eu pennau eu hunain a cham-fanteisir ar eraill gan bimpiaid (a all hefyd fod yn bartneriaid agos) neu gangiau neu fasnachwyr mewn pobl/grwpiau troseddau cyfundrefnol.

Bydd puteindra ar y stryd yn ymwneud â menywod (cis a thraws) gan fwyaf sy'n gwerthu rhyw, ond mae gan rai ardaloedd ddynion sy'n puteinio ar y stryd. Mae rhai o'r dynion hyn yn ystyried eu hunain yn hoyw neu'n ddeurywiol, ond mae rhai yn ystyried eu hunain yn heterorywiol, er bod pob grŵp yn gwerthu rhyw i ddynion fwyaf (Ellison, 2018). Er bod menywod yn fwy tebygol o fod ar y

stryd yn fwriadol i werthu rhyw, gall rhai dynion fod yn criwsio am ryw ddi-dâl neu'n cymdeithasu mewn ardaloedd hoyw ac yn cael eu llithio am ryw â thâl gan ddynion hŷn, gan werthu rhyw yn y pen draw (Ellison, 2018).

Mae gweithwyr stryd yn dueddol o fod wedi profi amgylchiadau anodd iawn yn ystod plentyndod neu lencyndod. Gall digartrefedd diweddarach neu adael gofal hwyluso'r llwybr i weithio ar y stryd. Disgrifir rhai yn 'cael rhyw i oroesi' neu'n 'cael rhyw drafodiadol' i'r perwyl hwn. Disgrifiodd un ymatebydd y ffordd y gwnaeth ddechrau gwerthu rhyw ar y stryd:

(...) gwnaeth fy nhad oedd yn fy ngham-drin fy nhafllu i allan o'r tŷ am fod yn hoyw. Roeddwn i'n 17 oed a doedd gen i ddim ffordd o wneud bywoliaeth nac arian, felly fe gysgais i ar soffas ffrindiau yn y ddinas agosaf a gweithio ar y stryd i dalu am gludiant i'r ysgol a bwyd. (Cyn-weithiwr Stryd Benywaidd)

Trefniadau Siwgr

Dim ond un papur a nodwyd gennym yn ystod ein chwiliad systematig, a oedd yn edrych yn benodol ar drefniadau siwgro. Mae Nayar (2017) yn archwilio'r gwahaniaethau rhwng agosatrwydd am dâl, cariad rhamantus a mathau mwy di-gêl o waith rhyw. Fel y nodwyd eisoes, mae hyn yn debygol am fod ein geiriau allweddol ar gyfer y chwiliad systematig yn ymwneud â gwaith rhyw a/neu buteindra. Pe byddem wedi defnyddio'r geiriau allweddol 'sugar baby', 'sugar dating', 'sugar arrangement' ac ati, mae'n debygol y byddem wedi cael llawer mwy o ganlyniadau. Gellir dod o hyd i gyfeiriadau perthnasol pellach, er enghraifft, yn Mulvihill a Large (ar ddod, 2019).

Mae a wnelo trefniant siwgr ag unigolyn yn dechrau perthynas sy'n ymddangos fel petai o fudd i'r naill a'r llall, gan rannu cwmniâeth a/neu agosatrwydd am sicrwydd economaidd (gan gynnwys taliadau misol sefydlog) neu fudd mewn da (fel lle i fyw). Fel rheol, bydd yn golygu menyw iau ("siwgr-fabi") sy'n dod i drefniant â dyn hŷn ("siwgr-dadi"). Fodd bynnag, gall gwahanol gyfluniadau o rywedd, gan gynnwys cydberthnasau o'r un rhywedd, ddigwydd hefyd.

Mae nifer o wefannau ar gael lle gall unigolion gael eu cyflwyno a negodi trefniadau siwgrwr. Yn aml bydd siwgr-rieni yn talu ffi gofrestru, ond ni fydd siwgr-fabanod yn gwneud hynny. Gwelir trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud yn benodol yn yr Unol Daleithiau, Canada, y Deyrnas Unedig, Awstralia a manau eraill. Mae siwgro yn cael ei gymharu rywfaint â 'detio ar sail digolledu' (neu Enjo-kōsai), sy'n gyffredin yn Japan, ond hefyd Taiwan, Hong Kong ac mewn gwledydd neu gymunedau eraill yn Nwyrain Asia.

Mae un o'r prif wefannau siwgro yn nodi bod dwy ran o bump o'i haelodau cofrestredig yn fyfyrwyr, sef grŵp sy'n aml yn chwilio am ffordd o dalu ffioedd dysgu a rhent.

Er nad yw rhyw yn cael ei nodi'n benodol fel rhan o'r trefniant yn yr hysbysebion ar-lein, mae nifer o ymatebwyr a'r llenyddiaeth academiaidd ehangach yn awgrymu bod rhyw yn cael ei gyfnewid fel arfer, hyd yn oed os nad yw'n digwydd i ddechrau.

Nododd ein hymatebwyr y risgiau penodol oedd yn gysylltiedig â siwgro, gan gynnwys:

- Diffyg contract na disgwyliadau clir, gan olygu nad oedd y ffin o ran cydsyniad wedi'i ddiffinio'n dda
- Anhawster rheoli gwaith caled emosiynol siwgro, sy'n gofyn am ffugio agosatrwydd, cyfeillgarwch a rhyw yn barhaus (oni fydd y siwgr-fabi yn mwynhau'r berthynas go iawn)
- Y siwgrwr-dadi (neu fami) yn mynd yn genfigennus neu'n rheolaethol

Voyeuriaeth Fyw, Dros y Ffôn, Drwy Neges Destun, Ar y Teledu

Gwnaethom nodi 10 eitem o lenyddiaeth a oedd yn canolbwyntio ar waith rhyw dros y ffôn, drwy neges destun neu ar y teledu. Mae'r llenyddiaeth sydd ar gael o Gymru a Lloegr (pump o'r deg o gyfeiriadau a nodwyd) yn ystyried effaith yr oes ddigidol ar nodweddion y farchnad ryw (Cunningham & Kendall, 2011). Mae hyn yn cynnwys: amodau gwaith gweithwyr rhyw ar-lein (Sanders et al., 2016); y mathau o droseddau a brofir; strategaethau rheoli risg (Campbell et al.,

2019); a phrofiadau a hunaniaeth dynion sy'n prynu rhyw drwy fforymau ar-lein (Earle & Sharp, 2007). Mae'r llenyddiaeth ryngwladol yn edrych ar effeithiau negyddol a buddiannau posibl ar/i'r rhai dan sylw (Hughes, 2004; Döring, 2009); rhywioldeb ar-lein a hunaniaeth seibr (Ross et al., 2005; Reynolds, 2017); a chysyniadau o bŵer a hunaniaeth ymhlith gweithwyr rhyw dros y ffôn sy'n fenywod (Maurice, 2011).

Mae'r holl dechnoleg sydd ar gael a'r we wedi arwain at lawer o newidiadau i'r ffordd mae gwaith rhyw yn gweithredu, gyda'r rhan fwyaf o weithwyr rhyw a'u cwsmeriaid yn cysylltu drwy wefannau, ffôn symudol neu e-bost (Sanders et al., 2018). Mae'r lleoliad hwn yn cynnwys gwahanol fathau o waith rhyw a alluogir drwy dechnoleg, lle mae'r we wedi cymryd eu lle fwyfwy. Er enghraifft, byddai voyeuriaeth fyw yn cael ei darparu'n draddodiadol ar ffurf sioeau sbecian lle gellid edrych ar luniau neu ffilm erotig/pornograffig, modelau noeth neu rannol noeth neu sioeau rhyw byw drwy fwth wedi'i weithredu gan ddarnau arian â thyllau sbecian/ffnestri gwylio. Er bod sioeau sbecian yn dal i fodoli ar ffurf bythau a weithredir gan ddarnau arian neu gabinau â ffnestri (e.e. yn ardal Soho yn Llundain), ar ffurf gwe-gamio'n bennaf mae voyeuriaeth fyw bellach yn digwydd.

Gall gwaith rhyw gael ei ddsbarthu'n fath o waith rhyw anuniongyrchol a alluogir gan y we. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau sgysiau rhyw dros y ffôn presennol bellach wedi'u cyfuno â gwasanaethau ar-lein (trosglwyddir galwadau ffôn i weithwyr rhyw dros y we – gweler Sanders et al 2018). Roedd rhai o'n hymatebwyr wedi dechrau drwy ddarparu sgysiau rhyw dros y ffôn cyn symud ymlaen i wahanol fathau o waith rhyw fel gwe-gamio, neu wasanaethau mwy uniongyrchol fel gwerthu ar y stryd neu waith esgort. Un rheswm allweddol a nodwyd oedd y ffaith nad oedd modd ennill cymaint yn gwneud gwaith rhyw dros y ffôn â mathau eraill o waith rhyw. Roedd eraill yn teimlo bod mwy o ecsbloetiaeth yn perthyn iddo na mathau eraill o waith rhyw.

Roedd gwaith rhyw dros y ffôn yn afiach...roeddwn i'n ei gasáu. Roedd gwaith stryd yn well i mi...Roedd y llinell ffôn gwaith rhyw yn rhif premiwm ond dim ond 10% o'r enillion roeddwn i'n ei gael. Ni chefais fy ecsbloetio ar y stryd. (Gweithiwr Stryd Benywaidd)

Roedd eraill o'r farn nad oedd natur anuniongyrchol gwaith rhyw dros y ffôn yn darparu boddhad mewn swydd bob tro.

Roeddwn i'n arfer gwneud gwaith rhyw dros y ffôn, ond roedd hi'n anodd gwybod a oedd y cleient ar ben arall y lein yn hapus ai peidio, oherwydd fe fydden nhw fel arfer yn rhoi'r ffôn i lawr ar ôl gorffen a doeddwn i ddim yn gwybod ai am eu bod nhw wedi dod oedd hyn, neu am fy mod i wedi'u diflasu, a oedd yn achosi cryn bryder i mi, felly fe benderfynais i roi'r gorau iddi ar ôl ychydig fisoedd. (Ymarferydd BDSM Benywaidd)

Mae negeseuon uniongyrchol (IM) yn golygu bod gweithwyr rhyw yn darparu lluniau neu negeseuon o natur rywiol iawn drwy neges destun/SMS i gwsmeriaid ar eu ffonau symudol neu ddyfeisiau electronig eraill. Mae nifer o wefannau i oedolion a gwasanaethau parth rhyngwyd yn hwyluso negeseuon rhyw a gwasanaethau IM sy'n fodd i anfon a derbyn negeseuon heb orfod rhannu gwybodaeth gyswllt bersonol. Codir taliadau IM yn ôl y negeseuon a dderbynnir gan y gweithiwr rhyw, gyda phrisiau'n amrywio ar lwyfannau gwahanol. Mae rhai cwmnïau yn talu 8c am bob neges destun a anfonir at gleient i weithwyr (Cunningham et al 2018; Sanders et al 2018).

Mae gwasanaethau ffonio i mewn ar y teledu yn sianelau teledu rhyngweithiol i oedolion sy'n darlledu rhyw wedi'i ffugio neu sgysiau rhywiol byw a lle gall cwsmeriaid ffonio dynion a menywod (18 oed a throsodd) a hysbysebiri ar y sgrin drwy rif ffôn cyfradd premiwm. Yn aml bydd y rhif yn cael ei weithredu ar sail darlledu am ddim am gyfnod cyfyngedig cyn cael ei amgryptio. Yna bydd angen i gwsmeriaid danysgrifio am ffi er mwyn defnyddio'r gwasanaethau ymhellach. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae rhai sianelau i oedolion wedi arallgyfeirio i ddarparu sioeau gwe-gamio ochr yn ochr â'r llinellau sgysiau rhyw hyn dros y ffôn a alluogir gan y teledu.

Gwasanaethau Therapiwtig

Gwnaethom nodi pum astudiaeth a oedd yn canolbwyntio ar waith rhyw therapiwtig. Mae un

astudiaeth yng Nghymru a Lloegr yn defnyddio hanesion naratif menywod sy'n gwneud gwaith rhyw a menywod sy'n gwneud gwaith tylino/corff therapiwtig er mwyn archwilio'r hyn sy'n gyffredin rhwng y ddau broffesiwn (Oerton & Pheonix (2001)). Mae'r llenyddiaeth ryngwladol sy'n weddill (UD, Awstralia ac Ewrop) yn archwilio proffil seicorywiol cynorthwywyr rhywiol (Limoncin et al., 2014); yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng dirprwy ryw, gwaith rhyw a chymorth rhywiol (Wotton & Isbister 2017); natur BDSM a gwaith pro-domme yng nghyd-destun rhywioldeb a dynameg pŵer rhywedd (Lindemann, 2012); a swyddogaeth therapiwtig BDSM i gleientiaid (Williams et al., 2012; Lindermann, 2012).

Yn ôl Limoncin a'i chydweithwyr (2014), gall tylino therapiwtig gael ei gynnwys mewn gwaith rhyw oherwydd yr agwedd fuddiol a berir â gweithredoedd rhywiol corfforol (neu unrhyw weithgarwch sy'n cynnwys cyswllt corfforol a'r defnydd o un person gan berson arall er ei foddhad neu foddhad rhywiol). Mae gwasanaethau fel bod yn ddirprwy ryw, cymorth rhywiol neu waith corff rhywlegol yn cynnig cymorth er mwyn helpu unigolion (yn bennaf, ond gall hefyd gynnwys gwaith gyda chyplau neu grwpiau) drwy unrhyw broblemau rhywiol neu o ran agosatrwydd. Gall y problemau hyn gael eu profi oherwydd anabledau cymdeithasol, dysgu, emosiynol neu gorfforol ac i eraill â mynediad cyfyngedig i unrhyw gyfrwng rhywiol (gweler hefyd Wotton & Isbister 2017; Oerton & Phoenix 2001). Gall hefyd gynnwys gweithredoedd rhywiol corfforol fel cyfathrach rywiol, cyfathrach eneuol, therapi tylino gan gynnwys tylino erotig, gweithredoedd mastyrbio, yn ogystal â gweithgarwch nad yw'n rhywiol fel trafod/addysg ym maes rhywioldeb, dulliau atal cenhedlu, defnyddio teganau rhyw (Limoncin et al., 2014), chwarae rôl ymdrwythol, iechyd rhywiol, rolau o ran rhywedd, pleser a chydysniad.

Mae gan lawer o'r bobl rwy'n eu gweld anabledau cymdeithasol, dysgu neu gorfforol sy'n ei gwneud hi'n anodd iddynt gwrdd â rhywun y gallant feithrin perthynas agos â nhw (corfforol, meddyliol neu emosiynol) neu mae hynny'n gwbl amhosibl ... mae teimlo'n unig yn beth peryglus i fodau cymdeithasol. Mae pawb yn haeddu teimlo cysylltiad â rhywun arall. (Annibynnol Benywaidd)

Caiff gwasanaethau dirprwy ryw/cymorth rhywiol proffesiynol eu hysbysebu'n aml drwy gyfeiriaduron ymarferwyr ar-lein. Mae gwasanaethau gwaith rhyw cysylltiedig eraill fel tylino erotig neu BDSM hefyd yn cael eu hysbysebu ar-lein fwyaf drwy gymwysiaidau cyfryngau cymdeithasol allweddol.

Mae'r rheini sy'n cynnig gwasanaethau therapiwtig yn dueddol o fod yn fenywod sy'n gweithio gyda chleientiaid sy'n ddynion, ond mae cyfuniadau eraill o ran rhywedd yn gymwys. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n annibynnol ac ar eu pennau eu hunain (er bod rhai yn gweithio fel rhan o gwpl), yn cael eu harwain gan y cleient ac yn dueddol o fod wedi'u haddysgu ac fel arfer (ond nid bob tro) wedi'u hyfforddi'n broffesiynol/â chymwysterau proffesiynol.

Gwe-gamio

Mae prosiect 'Beyond the Gaze' a chyhoeddiadau cysylltiedig gan Sanders a'i chydweithwyr (2017; 2018) yn darparu cipolwg allweddol ar we-gamio a gwaith rhyw cyfoes ar-lein yng Nghymru a Lloegr. Yn y llenyddiaeth sy'n weddill (UDA) a nodwyd, mae Jones (2016) yn bwrw golwg feirniadol ar lwybrau mynediad i waith modelu gwe-gamio i oedolion, tra bod Weiss (2017) yn ystyried sut mae rhywedd yn dylanwadu ar batrymau rhyngweithio mewn gwaith rhyw gwe-gamio.

Mae gwaith rhyw gan ddefnyddio gwe-gamera (a elwir yn gamio neu'n waith cam hefyd) yn golygu bod 'camiwr', 'model cam' neu 'weithiwr cam' yn gwerthu gweithredoedd, deialog, fideos a lluniau rhywiol i gwsmeriaid drwy wefannau sy'n benodol ar gyfer sioeau gwe-gamio. Gall sioeau gwe-gamio byw fod yn gyhoeddus neu'n breifat, gan amrywio o ran yr hyn a wneir (Jones, 2016). Fel rheol, caiff delweddau noeth neu gynnwys rhywiol eu ffrydio i gwsmeriaid sy'n gwylio ar eu cyfrifiaduron/llechi/ffonau personol eu hunain (Cunningham et al., 2018).

Er enghraifft, gall ffrydio byw drwy lwyfannau gwe-gamio gynnig profiad mwy personol na rhyw dros y ffôn (Jones, 2016), er nad yw cwsmeriaid gwe-gamio bob amser yn ceisio nac yn cael agosatrwydd (Sanders et al., 2017). Yn ogystal â sioeau gwe-gamio byw, gall camwyr hefyd

lanlwytho fideos sydd wedi'u recordio'n barod neu ffotograffau y bydd prynwyr wedyn yn talu i'w gweld.

Bydd cwsmeriaid yn talu ffi am sioeau gwe-gamio drwy wefan/llwyfan ar-lein, er bod modd gwylio rhai sioeau am ddim hefyd. Perfformir sioeau grŵp neu gyhoeddus ar gyfer mwy nag un cwsmer, a bydd pob un yn talu cyfradd y funud. Perfformir sioeau preifat ar gyfer un cwsmer yn unig a gallant fod yn ddrutach (Sanders et al., 2017). Mae rhai gwefannau yn gweithredu system sy'n seiliedig ar 'dips', lle bydd model yn perfformio sioe mewn 'ystafell' gyhoeddus y gall cwsmeriaid fewngofnodi iddi a gwylio am ddim. Yna bydd y cwsmer yn rhoi tip i'r model gan ddefnyddio talebau a brynir oddi wrth y llwyfannau gwe-gamio (Sanders et al., 2017).

Nododd ein hymatebwyr fod camwyr yn gosod eu prisiau eu hunain ac yn gweithio i'w hunain: mae llawer wedi'u cofrestru'n hunangyflogedig ac felly maent yn talu treth ar eu henillion. Bydd y gwefannau/llwyfannau yn cymryd cyfran o'r enillion unigol ac yn talu'r gweddill i'r camiwr. Fodd bynnag, efallai na thelir yr unigolyn ar unwaith a oedd yn broblem a nodwyd gan nifer o ymatebwyr.

Mae'r rhan fwyaf o weithwyr cam yn fenywod. Gall unigolion o bob oed gymryd rhan ond mae'r rhan fwyaf yn eu hugeiniau a'u tridegau gyda llawer yn honni eu bod yn iau nag y maent mewn gwirionedd. Nododd rhai iddynt gael eu cyflwyno gan ffrindiau neu eraill a oedd eisoes yn defnyddio llwyfannau gwe-gamio. Roedd y broses o ddechrau gwneud gwaith gwe-gamio (ac felly'r potensial i ennill arian) yn cael ei hystyried yn gymharol hawdd – dim ond prawf adnabod oedd ei angen wedi'i ddilysu, ynghyd â phroffil – o gymharu â gwaith nad oedd yn waith rhyw. Roedd hyblygrwydd gwaith camio, o ran yr oriau gwaith a'r opsiwn i weithio gartref, yn ddeniadol:

O bryd i'w gilydd, rwy'n profi iechyd meddwl gwael a phan oeddwn i'n camio roedd gen i fwy o ryddid i gymryd ychydig ddiwrnodau i ffwrdd heb orfod cyfiawnhau hynny i neb. Er na fyddwn i'n cael fy nhalu, gallwn i weithio mwy pan fyddwn i'n well er mwyn gwneud lan am hynny... Mae camio i'w weld yn eithaf cyffredin ymhlith myfyrwyr a mamau oherwydd yr oriau gwaith/gallu gweithio o gartref. (Gwe-gamiwr Benywaidd)

Nid yw gwaith camio yn cael ei wneud yn amser llawn fel arfer, gyda llawer o unigolion yn gwneud gwaith camio o bryd i'w gilydd neu am gyfnod byr, neu i ychwanegu at eu cyflog isel o waith arall.

Adran 2: Lefel

Sylwadau rhagarweiniol

Un o nodau allweddol yr astudiaeth hon oedd archwilio'r posibilrwydd o amcangyfrif lefel gwaith rhyw a phuteindra yn y DU drwy gasglu data ynghyd o ffynonellau sy'n bodoli eisoes ac ymchwil flaenorol. Ystyrir yn eang fod cyfrif yn fodd i gynllunio a dyrannu adnoddau, a gall fod yn ddefnyddiol wrth olrhain cynnydd a nodi anghenion sydd heb eu diwallu (Walby, 2016). Tanlinellodd amrywiaeth o gyfranogwyr yn y cyfarfodydd ymgynghori pa mor ddefnyddiol oedd cyfrif a monitro at ddibenion ariannu, cymharu, a chadw materion ar yr agenda. Tanlinellodd eraill y ffaith y gall cyfrif beri mwy o risg o bosibl i bobl yn y diwydiant (fel stigma, anfon rhywun o'r wlad, dial), ac ychwanegu baich gweinyddol ar sefydliadau cymorth sydd eisoes dan bwysau aruthrol.

Mae amcangyfrif lefel gwaith rhyw yn heriol Er mwyn llunio amcangyfrifon diduedd mae angen sampl gynrychioliadol (ddigon mawr), sydd wedyn yn gofyn am beth gwybodaeth am y boblogaeth a astudir e.e. maint, nodweddion allweddol, ac ati. Mae'n debygol y bydd ymchwil sy'n seiliedig ar samplau anghynrychioliadol yn dangos tuedd, gan olygu nad oes modd llunio canfyddiadau o'r grŵp (sampl) dan sylw mewn perthynas â'r boblogaeth ehangach. Mae natur gwaith rhyw a'r stigma sy'n gysylltiedig ag ef yn aml⁵ yn golygu bod gweithgareddau yn digwydd yn breifat yn aml. Mae'r stigma hefyd yn golygu nad yw rhai pobl sy'n gysylltiedig â gwaith rhyw yn nodi eu bod, ac efallai na fyddant mewn cysylltiad â sefydliadau cymorth na'r heddlu (Sanders, 2006). Mewn achosion lle torrir y gyfraith, neu fod y sefyllfa o ran cyfreithlondeb rhywbeth yn aneglur, mae hyd yn oed yn debycach y bydd gweithgareddau'n cael eu celu.

⁵ Er mae hyn yn amrywiol yn ôl gweithgaredd, gyda rhai gweithgareddau yn esgor ar lai o stigma a rhai yn cynnig mwy neu lai o breifatrwydd.

O ganlyniad, mae ymchwil i waith rhyw a phuteindra yn tueddu i esgor ar gyfraddau ymateb isel (National Ugly Mugs (NUM), 2016), gan olygu ei bod hi'n anodd cyffredinol.

At hynny, mae **gwaith rhyw a phuteindra yn cwmpasu ystod eango weithgareddau**, fel y dangosir yn **Adran 1 Rhan B** o'r adroddiad hwn. Mae gan bob sector neu leoliad wahanol nodweddion a bydd y rheini dan sylw yn wynebu problemau gwahanol (NUM, 2016). Mae datblygiad y rhyngwrwyd dros yr ugain mlynedd diwethaf wedi trawsnewid y diwydiant, gan ei gwneud hi'n haws i'r rheini sy'n cynnig gwasanaethau rhywiol hyrwyddo a rheoli eu gwaith yn annibynnol (er efallai na fydd pawb a hysbysebwr ar lwyfannau ar-lein yn annibynnol nac yn gallu rheoli'r cleientiaid maent yn eu gweld, na'r hyn a wneir ganddynt) yn ogystal â chyflwyno mathau newydd o waith rhyw fel camio (Sanders et al., 2018). Anhawster arall o ran amcangyfrif y lefel yw'r ffaith bod **gwaith rhyw a phuteindra yn weithgareddau dros dro i lawer**. Mae pobl yn symud i mewn ac allan, yn ogystal ag ar draws lleoliadau, ac o le i le. I grynhoi, mae natur dros dro, gudd ac amlhaenog gwaith rhyw a phuteindra yn ei gwneud hi'n heriol iawn cael amcangyfrifon pendant o'r lefel.

Mae'r cymhlethdod hwn yn golygu y dylai **data ar y lefel bob amser gynnwys cafeat**. Rhaid i ymchwilwyr a sefydliadau sy'n ceisio amcangyfrif lefel puteindra a gwaith rhyw weithio mewn ffyrdd sy'n lleihau ac yn rheoli'r duedd, yn ogystal â'r risgiau posibl (Walby, 2016). Mae hyn yn cynnwys cydnabod problemau o ran ansawdd data a bylchau mewn data ac ystyried y goblygiadau i amcangyfrifon presennol. Rhaid i amcangyfrifon o'r lefel hefyd nodi pa fath o amcangyfrifon o'r lefel a gaiff eu llunio mewn gwirionedd (e.e. adeg benodol, cyfnod neu gydol oes). I'r rheini sy'n ymddiddori mewn casglu data, mae **Atodiad 5** yn crynhoi'r cyngor ar arfer gorau o ran sut i gasglu data gan ddilyn argymhellion UNAIDS/Sefydliad Iechyd y Byd gyda'r nod o lunio amcangyfrifon pendant. Mae'r argymhellion hyn hefyd yn ddefnyddiol i'r rheini sy'n gwerthuso data presennol. Yn yr adran hon, defnyddiwn ein hymarfer casglu data a disgrifiwn y data rydym wedi eu ceisio a'u casglu. Crynhown ein canfyddiadau ar gyfer pob ffynhonnell ddata a nodwyd, a gwerthuswn ei photensial a'i chyfyngiadau. Hefyd, myfyriwn ar botensial astudiaethau achos a chyflwynwn adnodd i asesu ansawdd data er mwyn helpu'r rheini sydd â diddordeb mewn casglu data ar lefel leol, a darperir awgrymiadau at y dyfodol.

Data a geisiwyd ac a gasglwyd

Un o ddibenion yr astudiaeth oedd ystyried y graddau y gellid cael gafael ar ffynonellau data posibl, a'u gwerth, er mwyn astudio puteindra a gwaith rhyw yng Nghymru a Lloegr. Er nad oes unrhyw ffynonellau data cadarn ar gael ar hyn o bryd a fyddai'n ei gwneud yn bosibl llunio amcangyfrifon cenedlaethol, mae gan amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion ddata ar y diwydiant. Yn eu plith mae sefydliadau statudol fel y GIG a'r system cyfiawnder troseddol, elusennau a sefydliadau anllywodraethol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda a/neu'n gwneud gwaith eirioli ar gyfer pobl sy'n gysylltiedig â gwaith rhyw a phuteindra, cydweithfeydd gweithwyr rhyw, y llywodraeth a sefydliadau llywodraethol, yn ogystal ag asiantau a chyfryngwyr. Nid yw'n bosibl cael gafael ar y data hyn yn llawn, nac yn ddefnyddiol eu triongli i gyd, o ystyried prinder diffiniadau cyson neu ddibenion neu ddulliau casglu data. Nid yw hynny'n golygu nad yw'r ffynonellau'n ddefnyddiol: maent yn darparu cipolwg ar nodweddion grwpiau penodol o'r boblogaeth.

Mae'r drafodaeth isod wedi'i llywio gan y llenyddiaeth, ein hymarfer casglu data a thrafodaethau dilynol â'r rheini a gymerodd ran yn yr ymchwil. Mae'r tabl yn **Atodiad 6** yn darparu trosolwg cryno.

Cofnodion troseddol a data'r heddlu

Mae'r is-adran hon yn seiliedig ar ein rhyngweithio â heddluoedd ledled y wlad. Cawsom adborth gan bum heddlu ar sut i lunio cais am ddata ynghylch puteindra a gwaith rhyw, a phum ymateb

pellach unwaith y rhannwyd ein cais. Hefyd cawsom adborth gan gynrychiolwyr yr heddlu yn ein hymgyngoriadau rhanbarthol â rhanddeiliaid a chyfweliadau unigol. Cafwyd data a/neu adborth gan gyfanswm o 17 o heddluoedd i gyd (15 yn Lloegr a 2 yng Nghymru) ar gyfer yr ymchwil hon.

Yn gyffredinol, nid yw troseddau a gofnodir gan yr heddlu yn ddangosydd defnyddiol o ran amcangyfrif y lefel.⁶ Mae troseddau a gofnodir ond yn cynnwys yr elfennau hynny o'r diwydiant sydd 1) yn dod i sylw'r heddlu a 2) yn gyfystyr â throedd. O ganlyniad, mae risg o orgyfrif a thangyfrif. Fodd bynnag, gall heddluoedd gasglu data eraill a allai helpu i feithrin mwy o ddealltwriaeth. I dreialu hyn, gwnaethom ofyn i heddluoedd ddarparu amcangyfrifon ar gyfer eu hardaloedd lleol ar gyfer pedwar lleoliad:

- a) sawnau masnachol a pharlyrau tylino lle gwyddys eu bod yn cynnig gwasanaethau rhywiol neu yr amheuir eu bod yn gwneud hynny
- b) nifer y lleoliadau preswyl sy'n gweithredu fel puteindai, naill ai'n rhai sefydledig neu dros dro
- c) nifer y bobl sy'n gwerthu rhyw ar y stryd (hyd yn oed os yw'r rhyw yn digwydd dan do)
- d) nifer yr esgortiaid a/neu weithwyr rhyw annibynnol

Gwnaeth y pum heddlu a gwblhaodd ein cais am ddata ddarparu amcangyfrifon ar gyfer nifer y lleoliadau preswyl a oedd yn gweithredu fel puteindai. Gallai tri heddlu ddarparu data ar gyfer sawnau masnachol a pharlyrau tylino y gwyddys eu bod yn cynnig gwasanaethau rhywiol neu yr amheuir eu bod yn gwneud hynny, ac ar gyfer nifer y bobl sy'n gwerthu rhyw ar y stryd. Dim ond dau heddlu a roddodd amcangyfrifon ynghylch esgortiaid a/neu weithwyr rhyw annibynnol. Roedd y data a gofnodwyd yn ymwneud yn bennaf â'r ardal leol ac yn defnyddio gwybodaeth heddlu leol, data a gasglwyd yn ystod ymgyrch benodol, ymweliadau â safleoedd, a chasglu data'n rhyngweithiol (e.e. monitro hysbysebion ar-lein). Roedd y broses o gasglu data yn cael ei llywio gan waith oedd yn mynd rhagddo ar y pryd, p'un a oedd yr heddlu yn ymgysylltu â lleoliad/math penodol, yn ogystal â'r strategaethau casglu data a oedd ar waith.

Mae cyllid a blaenoriaethau amrywiol yn golygu y gall unrhyw newidiadau mewn ffigurau ynghylch safleoedd ac unigolion ddeillio o fwy neu lai o sylw gan yr heddlu (e.e. cynnydd yn ystod ymchwiliad penodol, gostyngiad pan fo cyllid yn newid), yn ogystal ag adlewyrchu newidiadau gwirioneddol. Er nad yw'r addas llunio amcangyfrifon ar gyfer y lefel, gall y data gael eu defnyddio i ddilysu ffynonellau eraill yn ogystal â meithrin dealltwriaeth o ddulliau heddlu lleol, blaenoriaethau a phrofiadau yn y maes.

Data gweinyddol ac iechyd

Caiff data gweinyddol ac iechyd eu casglu fel mater o drefn gan sefydliadau llywodraethol. Er enghraifft, un opsiwn o ran amcangyfrif nifer y gweithwyr rhyw yw edrych ar ffurflenni treth. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o arwain at danamcangyfrif y boblogaeth yn sylweddol. Dim ond y rheini a oedd yn nodi eu bod yn gwneud gwaith rhyw ac yn cael eu cyflogi'n rheolaidd yn y maes hwnnw sy'n gallu neu sy'n dymuno cael eu cofrestru'n gyfreithlon a fyddai'n cael eu nodi. At hynny, ni fydd llawer yn nodi eu bod yn gwneud gwaith rhyw ar eu ffurflen dreth.

Ffynhonnell bosibl arall yw cofrestrau iechyd. Ystyrir yn aml fod darparwyr gofal iechyd yn gyfrwng delfrydol i ddod i gysylltiad â'r bobl sy'n gysylltiedig â phuteindra a gwaith rhyw am eu bod yn darparu gwasanaethau allweddol. Fodd bynnag, mae stigma a phryderon ynghylch diogelu data yn golygu y gall fod yn bosibl adnabod defnyddwyr sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw. At hynny, mae rhai grwpiau fel y sawl sydd wedi cael eu hecsbloetio neu wedi eu masnachu yn llai tebygol o ddefnyddio'r fath wasanaethau yn gyfan gwbl. Gellir goresgyn rhai o'r anfanteision drwy gyfuno data gweinyddol-gyfoethog â'r dull lluosu (gweler Brooks-Gordon et al., 2015 am enghraifft).

⁶ Er enghraifft, gallai 30 o droseddau wedi'u cofnodi am redeg puteindy mewn ardal heddlu fod yn cyfeirio at 10 puteindy, gyda'r heddlu yn ymdrin â rhai ohonynt sawl gwaith.

Ar eu pen eu hunain, mae data iechyd gweinyddol yn debygol o danamcangyfrif lefel gwaith rhyw a phuteindra a darparu darlun rhannol o nodweddion economaidd-gymdeithasol a demograffaid y boblogaeth.

Awdurdodau lleol

Awdurdodau lleol sy'n goruchwyllo'r gwaith o drwyddedu Lleoliadau Adloniant Rhywiol (SEV, Deddf Llywodraeth Leol 1982), gan gynnwys safleoedd lle dangosir delweddau noeth fel sinemâu rhyw, a chlybiau dawnsio glin. Cawsom afael ar ddata o'r fath drwy wneud cais Rhyddid Gwybodaeth i nifer fach o gynghorau. Fodd bynnag, ni chaiff pob lleoliad ei drwyddedu. Yn benodol, nid yw parlyrau tyllino na sawnas yn ddarostyngedig i reoliadau, a gall awdurdodau lleol ildio'r angen am drwydded. Gall nifer yr SEVau ddarparu amcangyfrif ceidwadol o leoliadau lleol (am nad yw pob un wedi'i drwyddedu, neu'n gorfod cael ei drwyddedu).

Mae rhai awdurdodau lleol yn cadw cofnodion ar y gwasanaethau cymorth a'r elusennau sy'n gweithredu yn eu hardal. Gwnaethom siarad â nifer fach o gynghorau sy'n chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gydlyn gwasanaethau yn eu hardal leol: roeddent yn gallu darparu amcangyfrifon o'r boblogaeth o weithwyr rhyw a'u proffil. Nid oes gan awdurdodau eraill y capasiti neu ni fyddent yn ei ystyried yn flaenoriaeth.

Arolygon o'r boblogaeth gyffredinol

Yn y DU, nid oes unrhyw arolygon cenedlaethol sy'n ceisio amcangyfrif lefel gwaith rhyw a phuteindra. Mae'r Arolwg Cenedlaethol o Agweddau a Ffyrdd o Fyw Rhywiol (NatSal) yn casglu gwybodaeth am b'un a yw ymatebwyr gwrywaidd wedi talu am ryw. Nid yw'r arolwg yn gofyn i ymatebwyr p'un a ydynt hwy eu hunain yn gwerthu gwasanaethau rhywiol. Mae cyfran y dynion sy'n nodi yn NatSal eu bod wedi talu am ryw wedi cynyddu dros amser, o 2% yn 1990 i 4% yn 2000, ac 11% yn yr arolwg diweddaraf (Ward et al., 2005; Jones et al., 2014). Nid oes modd gwybod p'un a yw'r data yn adlewyrchu cynnydd gwirioneddol, neu p'un a yw'r newidiadau yn wall samplu, mwy o barodrwydd i ddweud eu bod wedi talu am ryw neu newidiadau methodolegol. Er i'r ddau arolwg cyntaf ond gofyn i ddynion a oeddent wedi talu am ryw gyda menyw, ni nododd yr arolwg diwethaf rywedd (gan gynnwys felly weithwyr rhyw gwrywaidd a thraws).

Nododd arolwg Groom a Nandwani (2006) o fwy na 2000 o ddynion yn Glasgow amcangyfrif o 10% a oedd wedi talu am ryw, a oedd yn agos iawn at yr amcangyfrif cenedlaethol a luniwyd gan NatSal yn 2010. Fodd bynnag, o ystyried natur y gwaith samplu – wedi'i gyfyngu i un lleoliad, ac mewn clinig heintiau a drosglwyddir drwy ryw – nid oes modd gwneud y canlyniadau yn gymwys i'r boblogaeth gyfan. Hyd y gwyddom, yr unig arolwg sydd wedi mynd i'r afael ag unigolion yn y diwydiant yw'r Prosiect Gwaith Rhyw gyda Myfyrwyr. Defnyddiodd Sagar et al., (2015) arolwg ar-lein i amcangyfrif cyfran y gweithwyr rhyw ymhlith y boblogaeth o fyfyrwyr yng Nghymru, ac yn ddiweddarach yn y DU. Nid oedd yr arolwg hwn yn un cynrychioliadol, fodd bynnag, sy'n golygu na all gael ei ddefnyddio i lunio amcangyfrifon cenedlaethol.

Llenyddiaeth academaidd

Mae **Atodiad 7** yn cynnig trosolwg o'r ymchwil sydd wedi'i chyhoeddi dros yr ugain mlynedd diwethaf (rhwng 1999 a 2018), mewn llenyddiaeth a adolygwyd gan gymheiriaid a llenyddiaeth lwyd, sy'n darparu data posibl ar y lefel. Yma canolbwyntiwn ar astudiaethau sy'n ceisio adlewyrchu'r diwydiant rhyw gyfan.

Ni chaiff astudiaethau sydd ond wedi canolbwytio ar is-boblogaethau, fel dawnswyr glin (Hadya Sanders, 2015), y sector dan do yn Llundain (Dickson, 2004), a dioddefwyr masnachu mewn pobl ac ecsbloetiaeth⁷, eu trafod yma ond cânt eu cynnwys yn y rhestr gyffredinol o lenyddiaeth (a gyhoeddwyd yn www.bristol.ac.uk). Ar gyfer pob astudiaeth, nodwn y flwyddyn y casglwyd y wybodaeth, at ba boblogaeth mae'r data yn cyfeirio, yn ogystal â'r manteision allweddol a chyfyngiadau'r dull. Nid yw'r olaf o'r rhain yn helaeth, ac anogir darllenwyr i gyfeirio at **Atodiad 6** am drosolwg o'r gwahanol ddulliau o amcangyfrif y lefel a'u nodweddion.

Elusennau a sefydliadau anllywodraethol

Mae gan elusennau a sefydliadau anllywodraethol sy'n gweithio gyda phobl sy'n gysylltiedig â phuteindra a gwaith rhyw safbwynt unigryw, bron yn amser real, o newidiadau yn y diwydiant. Yn unol â hynny, mae nifer o astudiaethau wedi anelu at amcangyfrif lefel gwaith rhyw a phuteindra drwy gysylltu â sefydliadau a gofyn iddynt ddarparu amcangyfrifon o'r grwpiau maent yn gweithio gyda nhw, ac yna eu defnyddio i amcangyfrif y boblogaeth gyfan.

Gwnaethom hefyd ddefnyddio'r dull hwn i raddau llai. Gwnaeth y tîm ymchwil gysylltu â 35 o sefydliadau anllywodraethol a oedd yn gweithio gyda phobl mewn gwaith rhyw a phuteindra er mwyn gofyn am amcangyfrifon ar gyfer y boblogaeth maent yn gweithio gyda nhw, yn ogystal ag argymhellion ar "sut i gyfrif". Mae'r adnodd casglu data a luniwyd gennym at y diben hwn ar gael yn **Atodiad 8**. Cawsom ddata gan 11 o sefydliadau (i gyd yn Lloegr) a gwnaethom siarad ag eraill drwy e-bost nad oeddent yn gallu darparu

data ond a roddodd farn ar y broses casglu data, yn ogystal â'r amcangyfrif o'r lefel yn ehangach. Ymhlith y rhesymau dros beidio â darparu data roedd pryderon am breifatrwydd a diogelwch eu defnyddwyr gwasanaeth; pryderon am ddiogelu data; yn ogystal â diffyg capasiti. Mae gan sawl sefydliad adnoddau cyfyngedig, a chofnodir blaenoriaethau ar sail y wybodaeth y mae cyllidwyr am ei chael. Nododd un sefydliad allweddol bryderon am faich gweinyddol posibl defnyddio adnodd casglu data wedi'i gysoni. Crynhown y canfyddiadau o ymarfer casglu data sefydliadau anllywodraethol yn **Atodiad 12**.

Yn gyffredinol, rhoddodd elusennau gipolwg amhrisiadwy ar nodweddion penodol gwaith rhyw yn eu hardal. Mae'r data a roddwyd yn dangos sut mae natur a lefel gwaith rhyw yn amrywio'n sylweddol yn ôl lleoliad (e.e. gwledig/trefol): er enghraifft, nid oes unrhyw buteindra ar y stryd mewn rhai ardaloedd. Mae sefydliadau anllywodraethol hefyd yn gallu nodi newidiadau yn y boblogaeth maent yn gweithio gyda nhw. Ymhlith cyfyngiadau ymddangosiadol gweithio gyda data elusennau mae'r canlynol: gwahaniaethau mewn gweithdrefnau casglu data a chadw cofnodion; adnoddau cyfyngedig; a ffocws arbenigol ar rai grwpiau neu leoliadau.

Llwyfannau Ar-lein

Mae ehangiad y rhyngryd wedi newid y diwydiant rhyw, gan gynnig ffyrdd newydd o hysbysebu a dod o hyd i gleientiaid, darparu gwasanaethau, rheoli trafodion, ac ati.

⁷ Caiff data ar fasnachu mewn pobl ac ecsbloetiaeth eu cyhoeddi bob chwarter gan yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol. Mae'r data diweddaraf yn dangos, yn 2018, fod 1305 o oedolion (92% yn fenywod) a 626 o blant wedi'u nodi'n ddioddefwyr posibl camfanteisio rhywiol. Mae'r ffigurau'n adlewyrchu atgyfeirio dioddefwyr posibl drwy'r Dull Atgyfeirio Cenedlaethol ac felly mae'n debygol o fod yn danamcangyfrif. Gan ddefnyddio data 2003, mae Dubourg a Prichard (2008) yn amcangyfrif bod tua 4000 o fenywod wedi'u masnachu i'r DU at ddi benion camfanteisio rhywiol (ni ddarperir data ar gyfer plant na dynion). Mae Cyfrifiad Plant mewn Angen yr Adran Addysg yn Lloegr yn 2015/16 yn amcangyfrif bod tua 17600 o blant wedi dioddef camfanteisio

rhywiol neu'n wynebu risg o hynny yn Lloegr. Gweler hefyd Walby (2016) am adolygiad o ddata ar fasnachu mewn pobl yn yr UE.

Er bod gan ddarparwyr gwasanaethau rhywiol eu gwefannau eu hunain yn aml, mae llawer yn hysbysebu drwy lwyfannau hysbysebu ar-lein mawr. Mae ymchwil flaenorol i lwyfannau hysbysebu ar-lein wedi tanlinellu'r risg o oramcangyfrif yn ddifrifol y niferoedd sy'n gwerthu gwaith rhyw ar-lein drwy ychwanegu proffiliau pen blaen. Yn aml bydd gan ddarparwyr sawl proffil ar yr un llwyfannau neu ar wahanol lwyfannau (Sanders et al., 2018). Hefyd, bydd rhai proffiliau yn segur, neu'n anghyflawn ond yn dal i ymddangos yn y cyfanswm nifer. Er enghraifft, nododd Sanders a'i chydweithwyr (2018) fod hyd at 32% o broffiliau pen blaen yn segur. Mae ein dadansoddiad ein hunain o ddata gan un o'r prif lwyfannau ar-lein yn awgrymu nad yw 52% o broffiliau yn cynnwys peth gwybodaeth ddemograffaid-gymdeithasol allweddol, gyda dynion a gweithwyr hŷn yn fwy tebygol o fod heb broffiliau anghyflawn. Mae hyn yn awgrymu y gall y grwpiau hyn fod yn fwy tebygol o gofrestru ond gwneud llai o ddefnydd, os o gwbl, o'u proffil.

Yn **Atodiad 10** edrychwn ar broffiliau dau lwyfan ar-lein (Llwyfan A a Llwyfan B). Canolbwyntiwn ar nodweddion demograffaid-gymdeithasol allweddol: rhywedd, cis/trawsryweddol, cyfeiriadedd rhywiol, oedran ac ethnigrwydd⁸. Nid oedd yr holl wybodaeth ar gael ar gyfer y ddau lwyfan. Lle darparwyd data cymaradwy, cyferbynnwn y canfyddiadau. Mae gwybodaeth yn seiliedig ar ddata glân, lle nad yw proffiliau anghyflawn na segur wedi'u cynnwys.

Yn gyffredinol, rhydd data darparwyr ar-lein gipolwg gwerthfawr ar nodweddion y diwydiant rhyw ar-lein. Er eu bod ar gael yn eang – gall unrhyw un gael gafael ar ddata pen blaen drwy nifer o lwyfannau – mae angen i'r data gael eu hystyried yn ofalus. Byddai cyferbynnu'r wybodaeth yn erbyn data pen blaen lle bo modd yn lleihau problemau cyfrif dwbl a chyfrif proffiliau segur neu anghyflawn. Fodd bynnag, mae gwahanol grwpiau o'r boblogaeth yn defnyddio gwahanol lwyfannau, felly byddai ond dadansoddi'r llwyfannau a ddefnyddir fwyaf yn arwain at orgynrychioli gweithwyr rhyw Gwyn a benywaidd. Mae'r grwpiau sy'n defnyddio llwyfannau llai adnabyddus (e.e. lleiafrifoedd, y rhai sy'n cynnig gwasanaethau penodol) yn debygol o gael eu tangynrychioli.

Yn bwysicach, mae data llwyfannau ar-lein ond yn adlewyrchu cyfran o'r holl arferion sy'n cynrychioli puteindra a gwaith rhyw, gyda rhannau mawr o'r boblogaeth heb eu cynnwys – fel y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau neu ar y stryd, ac yn fwy cyffredinol y rhai nad ydynt yn hysbysebu nac yn gwneud gwaith rhyw ar-lein. O ganlyniad i oramcangyfrif nifer y proffiliau yn y data pen blaen, a'r gwahaniaethau o ran cael gafael ar lwyfannau ar-lein a'u defnyddio ar draws is-grwpiau, bydd defnyddio llwyfannau hysbysebu ar-lein i lunio amcangyfrifon o'r lefel yn esgor ar ganlyniadau rhannol ac iddynt duedd. At hynny, o ystyried y gall profiadau a chymhellion amrywio, dylem ochel rhag cyffredinoli canlyniadau sy'n deillio o ymchwilio i buteindra a gwaith ar-lein, i'r sector all-lein.

Defnyddio astudiaethau achos

I grynhoi, ar hyn o bryd nid oes un ffynhonnell data yn y DU lle gellir llunio amcangyfrifon cenedlaethol o'r lefel. Yn sgil prinder data ar y lefel yn y DU, gwnaethom fynd ati i ystyried datblygu astudiaethau achos, gan adeiladu ar feysydd a allai gynnwys digonedd o ddata (darn o waith nad oedd yn y tendr gwreiddiol). Yn dilyn ymchwil helaeth, cysylltu â sefydliadau anllywodraethol, awdurdodau lleol, yr heddlu, llwyfannau hysbysebu ar-lein, a thrydydd partïon eraill, ni wnaeth yr un o'r pedwar maes lle gwnaethom nodi'n wreiddiol bod digonedd o ddata ar eu cyfer esgor ar ddigon o ddata i allu ychwanegu a thriongli data ar y lefel. Fel y nodwyd, mae'r data yn amryfal, gyda sefydliadau yn dueddol o weithio gyda grwpiau penodol a chasglu gwahanol fathau o wybodaeth.

⁸ Yn anffodus, nid oedd modd ystyried cenedligrwydd oherwydd bod cymaint o ddata ar goll.

Er mwyn ceisio amcangyfrif lefel puteindra a gwaith rhyw, bydd angen i ystod eang o bartïon gydweithredu. Mae gwahanol bartïon yn ymwybodol o wahanol rannau o'r farchnad, ac mewn cysylltiad â nhw. Rhaid cydweithredu. At hynny, dylai'r wybodaeth sydd ar gael gael ei chyferbynnu lle bo modd, e.e. drwy gymharu'r amcangyfrifon o sawl ffynhonnell. Wrth wneud hynny, gwelir anawsterau o ran nodi ffiniau'n glir. Mae heddluoedd, awdurdodau gweinyddol, elusennau ac ati yn dueddol o weithredu o fewn ffiniau penodol ond nid yw'r rhain yn orgyffwrdd o reidrwydd. Felly, gall data ar gyfer yr un ardal gyffredinol gyfateb i wahanol leoliadau i bob pwrpas.

Mae natur puteindra a gwaith rhyw yn newid drwy'r amser. Bydd pobl yn y diwydiant yn ymddwyn yn wahanol mewn ymateb i gyfyngiadau a chyfleoedd newidiol. Mae'r ardal ddaearyddol yn bwysig – mae gan wahanol ardaloedd yng Nghymru a Lloegr wahanol broffiliau. Tanlinellodd trafodaethau â'r rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil y gallai fod gan drefi cyfagos broffiliau gwaith rhyw gwahanol iawn. Gwnaethom ddatblygu'r adnodd asesu ansawdd data er mwyn llywio sefydliadau a oedd yn anelu at amcangyfrif lefel puteindra a gwaith rhyw yn eu hardal.

Asesu cadernid data

Mae data dibynadwy a chadarn yn hanfodol er mwyn asesu graddau, tueddiadau a phatrymau yn y diwydiant (Walby, 2016). Gall amcangyfrif lefel puteindra a gwaith rhyw ar lefel leol helpu i nodi blaenoriaethau gweithredu, gwneud penderfyniadau cyllido ac asesu effaith prosiectau. Mae'r adnodd asesu ansawdd data (**Atodiad 9**) wedi'i ddatblygu i helpu sefydliadau sydd am asesu'r data sydd ar gael ar lefel leol. Mae'r canllawiau'n seiliedig ar y rhai a ddarparwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd (2017) i asesu ansawdd data iechyd, ond maent wedi'u haddasu er mwyn adlewyrchu natur benodol y sawl sy'n gysylltiedig â phuteindra a gwaith rhyw, adnoddau sy'n bodoli eisoes a'r systemau casglu data. Cafodd yr adnodd ei ganmol yn ein hymgyngoriadau a'r cyfweiliadau dilynol.

Datblygiadau yn y dyfodol

Dylai astudiaethau sydd â'r nod o asesu lefel puteindra a gwaith rhyw yn y DU ddilyn argymhellion Sefydliad Iechyd y Byd (2017). Lle nad yw hynny'n bosibl, gall sefydliadau ac awdurdodau lleol greu eu hymarfer mapio eu hunain er mwyn deall natur benodol gwaith rhyw yn eu hardal a thargedu gwasanaethau'n briodol. Dylai unrhyw ymchwil o'r fath flaenoriaethu diogelwch gweithwyr.

Llyfryddiaeth

Mae'r llyfryddiaeth hon yn adlewyrchu'r cyfeiriadau yn yr adroddiad. Hefyd mae gennym restr hwy o gyfeiriadau a gynhyrchwyd drwy ein chwiliad systematig o'r llenyddiaeth (gweler Atodiadau 1 a 2), a fydd ar gael ar ein gwefan www.bristol.ac.uk fel adnodd i eraill.

- Abramsky, J., Drew, S., a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2014). *Changes to National Accounts: Inclusion of Illegal Drugs and Prostitution in the UK National Accounts*.
- Anthony, B., Kimall Penrose, J., a Jakiel, S. (2017). *The Typology of Modern Slavery: Defining Sex and Labor Trafficking in the United States*.
- Atkins, M., a Laing, M. (2012). Walking the beat and doing business: Exploring spaces of male sex work and public sex. *Sexualities*, 15(5–6), 622–643.
- Barefoot Research and Evaluation. (2016). *Selling sex for survival: Adult sexual exploitation and prostitution in the North East and Cumbria*. Northern Rock Foundation.
- Barton, B. (2001). *Inside the Lives of Exotic Dancers*. Prifysgol Kentucky.
- Bedford, O., a Hwang, S.-L. (2011). Flower Drinking and Masculinity in Taiwan. *The Journal of Sex Research*, 48(1), 82–92.
- Belmar, J., Stuardo, V., Folch, C., Carvajal, B., Clunes, M. J., Montoliu, A., a Casabona, J. (2018). A typology of female sex work in the Metropolitan Region of Santiago, Chile. *Culture, Health and Sexuality*, 20(4), 428–441.
- Boden, D. M. (2007). Alienation of Sexuality in Male Erotic Dancing. *Journal of Homosexuality*, 53(1–2), 129–152.
- Bradley-Engen, M., ac Ulmer, J. (2009). Social Worlds of Stripping: The Processual Orders of Exotic Dance. *Sociological Quarterly*, 50(1), 29–60.
- Brooks-Gordon, B., Mai, N., Perry, G., a Sanders, T. (2015). *Production, Income, and Expenditure in Commercial Sexual Activity as a measure of GDP in the UK National Accounts. Report for Office of National Statistics*.
- Brooks, S. (2010). Hypersexualization and the Dark Body: Race and Inequality among Black and Latina Women in the Exotic Dance Industry. *Sexuality Research and Social Policy*, 7(2), 70–80.
- Buzdugan, R., Copas, A., Moses, S., Blanchard, J., Isac, S., Ramesh, B. M., Washington, R., Halli, S., Cowan, F. M. (2010). Devising a female sex work typology using data from Karnataka, India. *International Journal of Epidemiology*, 39(2), 439–448.
- Buzdugan, R., Halli, S. S., a Cowan, F. M. (2009). The female sex work typology in India in the context of HIV/AIDS. *Tropical Medicine and International Health*, 14(6), 673–679.
- Campbell, R., Sanders, T., Scoular, J., Pitcher, J., a Cunningham, S. (2019). Risking safety and rights: online sex work, crimes and 'blended safety repertoires.' *British Journal of Sociology*, 70(4), 1539–1560.
- Chang, P. (2003). Cyberspace and Sexuality. *Korea Journal*, 43(3), 35–60.
- Changing Lives. (2016). *"The Type of Girl That Would Do That": Peer led research into sex work in Durham and Darlington*.

Church, S., Henderson, M., Barnard, M., a Hart, G. (2001). Violence by clients towards female prostitutes in different work settings: questionnaire survey. *British Medical Journal*, 322(7285),

524–525.

- Collins, D. (2005). Identity, Mobility, and Urban Place-Making: Exploring Gay Life in Manila. *Gender and Society*, 19(2), 180–198.
- Collins, D. (2007). When sex work isn't 'work': Hospitality, gay life, and the production of desiring labor. *Tourist Studies*, 7(2), 115–139.
- Colosi, R. (2008). *Undressing the moves - an ethnographic study of lap-dancers and lap-dancing club culture*. Prifysgol Newcastle Upon Tyne.
- Cooper, C., Hesketh, O., Ellis, N., a Fair, A. (2017). *A Typology of Modern Slavery Offences in the UK. Research Report 93*.
- Cowan, S. (2012). To Buy or Not to Buy? Vulnerability and the Criminalisation of Commercial BDSM. *Feminist Legal Studies*, 20(3), 263–279.
- Coy, M. (2008). Young Women, Local Authority Care and Selling Sex: Findings from Research. *British Journal of Social Work*, 38(7), 1408–1424.
- Croxford, S., Platt, L., Hope, V. D., Cullen, K. J., Parry, J. V, a Ncube, F. (2015). Sex work amongst people who inject drugs in England, Wales and Northern Ireland: Findings from a National Survey of Health Harms and Behaviours. *International Journal of Drug Policy*, 26(4), 429–433.
- Cunningham, S, & Kendall, T. D. (2011). Prostitution 2.0: The changing face of sex work. *Journal of Urban Economics*, 69(3), 273–287.
- Cunningham, S Sanders, T., Scoular, J., Campbell, R., Pitcher, J., Hill, K., Matt V.B., Melissa, C., Aydin, Y., Hamer, R. (2018). Behind the screen: Commercial sex, digital spaces and working online. *Technology in Society*, 53, 47–54.
- Cusick, L., Kinnell, H., Brooks-Gordon, B., a Campbell, R. (2009). Wild guesses and conflated meanings? Estimating the size of the sex worker population in Britain. *Critical Social Policy*, 29(4), 703–719.
- Davies, K., ac Evans, L. (2007). A Virtual View of Managing Violence among British Escorts. *Deviant Behavior*, 28(6), 525–551.
- Deshotels, T., a Forsyth, C. (2006). Strategic Flirting and the Emotional Tab of Exotic Dancing. *Deviant Behavior*, 27(2), 223–241.
- Dickson, S. The Poppy Project (2004). *Sex in the city: Mapping Commercial Sex across London*. Cafwyd o www.poppy.ik.com
- Dines, G. (2010). *Pornland: How Porn Has Hijacked Our Sexuality*. Spinifex Press.
- Döring, N. M. (2009). The internet's impact on sexuality: A critical review of 15 years of research. *Computers in Human Behavior*, 25(5), 1089–1101.
- Döring, N. M. (2012). Internet Sexuality. Yn Z. Yan (Gol.), *Encyclopedia of Cyber Behavior* (tt. 807– 827).
- Dubourg, R., a Pritchard, S. (gol.) (2008). *Organised crime: revenues, economic and social costs, and criminal assets available for seizure*. Y Swyddfa Gartref.
- Earle, S., a Sharp, K. (2012). *Sex in cyberspace: Men who pay for sex*. Llundain: Routledge.
- Ellison, G. (2018). Drifters, Party Boys and Incumbents: The Life Patterns of Male Street-based Sex Workers. *Sociology*, 52(2), 367–383.

- Escoffier, J. (2007). Porn Star/Stripper/Escort: Economic and Sexual Dynamics in a Sex Work Career. *Journal of Homosexuality*, 53(1–2), 173–200.
- Farley, M., Bindel, J., a Golding, J. M. (2009). *Men who buy sex: Who they buy and what they know*.
- Global Network of Sex Work Projects. (2015). *Mapping and Population Size Estimates of Sex Workers: Proceed with Extreme Caution*.
- Groom, T. M., a Nandwani, R. (2006). Characteristics of men who pay for sex: a UK sexual health clinic survey. *Sexually Transmitted Infections*, 82(5), 364–367.
- Harcourt, C., a Donovan, B. (2005). The many faces of sex work. *Sexually Transmitted Infections*, 81(3), 201–206.
- Harding, R., a Hamilton, P. (2009). Working Girls: Abuse or Choice in Street-Level Sex Work? A Study of Homeless Women in Nottingham. *British Journal of Social Work*, 39(6), 1118–1137. 7
- Hardy, K., a Sanders, T. (2015). The political economy of ‘lap dancing’: contested careers and women’s work in the stripping industry. *Work, Employment and Society*, 29(1), 119–136.
- Hartworth, C., Hartworth, J., a Convery, I. (2012). Knowledge Mapping & Working with Difficult to Reach Groups: Sex Work Knowledge in the City. *Advances in Applied Sociology*, 2(1), 81–88.
- Hester, M., a Westmarland, N. (2004). Tackling Street Prostitution: Towards an holistic approach. Home Office
- Hughes, D. (2004). Prostitution online. *Journal of Trauma Practice*, 2(3–4), 115–131.
- Import.io (2014). 'How much does prostitution contribute to the UK economy?' *Medium*. 16 Hydref, 2014.
- Jamel, J. (2011). An Investigation of the Incidence of Client- Perpetrated Sexual Violence Against Male Sex Workers. *International Journal of Sexual Health*, 23(1), 63–78.
- Jeal, N., Salisbury, C., Turner, K. (2008) ‘The multiplicity and interdependency of factors influencing the health of street-based sex workers: a qualitative study’. *Sexually Transmitted Infections*, 84.381-385.
- Jeal, N, a Salisbury, C. (2007). Health needs and service use of parlour-based prostitutes compared with street-based prostitutes: a cross-sectional survey. *BJOG: An International Journal of Obstetrics and Gynaecology*, 114(7), 875–881.
- Jeal, N, a Salisbury, C. (2004). A health needs assessment of street-based prostitutes: Cross-sectional survey. *Journal of Public Health*, 26(2), 147–151.
- Jones, A. (2016). “I Get Paid to Have Orgasms”: Adult Webcam Models’ Negotiation of Pleasure and Danger. *Signs: Journal of Women in Culture and Society*, 42(1), 227–256.
- Jones, K. G., Johnson, A. M., Wellings, K., Sonnenberg, P., Field, N., Tanton, C., Erens, B., Clifton, S., Datta, J., Mitchell, KR., Prah, P., Mercer, C. H. (2015). The prevalence of, and factors associated with, paying for sex among men resident in Britain: findings from the third National Survey of Sexual Attitudes and Lifestyles (Natsal-3). *Sexually Transmitted Infections*, 91(116), 123–367.
- Kinnell, H. (1999) ‘Sex Workers in England and Wales: Europap-UK Briefing Paper for Department of Health, National Sexual Health Strategy’. EUROPAP.
- Kinnell, H. (2008). *Violence and Sex Work in Britain*. Cullompton, Dyfnaint: Willan Publishing.
- Limoncin, E., Galli, D., Ciocca, G., Gravina, G. L., Carosa, E., Mollaioli, D., Lenzi, A., & Jannini, E. A.

(2014). The psychosexual profile of sexual assistants: An internet-based explorative study.
PLoS ONE, 9(6), e98413.

- Lindemann, D. (2011a). BDSM as therapy? *Sexualities*, 14(2), 151–172.
- Lindemann, D. (2011b). “Is That Any Way to Treat a Lady?”: The Dominatrix’s Dungeon. Yn C. Bobel ac S. Kwan (Gol.), *Embodied Resistance : Challenging the Norms, Breaking the Rules* (tt. 26–36). Gwasg Prifysgol Vanderbilt.
- Lindemann, D. (2012). *Dominatrix: gender, eroticism, and control in the dungeon*. Gwasg Prifysgol Chicago.
- Maher, L., Mooney-Somers, J., Phlong, P., Couture, M., Stein, E., Evans, J., Cockroft, M., Sansothy, N., Nemoto, T., Page, K.; Young Women’s Health Study Collaborative. (2011). Selling sex in unsafe spaces: Sex work risk environments in Phnom Penh, Cambodia. *Harm Reduction Journal*, 8(30).
- McClelland, G. T., a Newell, R. (2008). A qualitative study of the experiences of mothers involved in street-based prostitution and problematic substance use. *Journal of Research in Nursing*, 13(5), 437–447.
- Miller-Young, M. (2010). Putting Hypersexuality to Work: Black Women and Illicit Eroticism in Pornography. *Sexualities*, 13(2), 219–235.
- Morisky, D., Malow, R., Tiglaio, T., Lyu, S., Vissman, A., a Rhodes, S. (2010). Reducing Sexual Risk Among Filipina Female Bar Workers: Effects of a CBPR-Developed Structural and Network Intervention. *AIDS Education and Prevention*, 22(4), 371–385.
- Morris, M. (2018). *Incidental Sex Work: Casual and Commercial Encounters in Queer Digital Spaces* PhD thesis (Prifysgol Durham)
- Mulvihill, N., a Large, J. (2019). Consuming authenticity: pleasure, benefit and harm in ‘transactional intimacy’ and ‘slum tourism’. *Justice, Power and Resistance: Journal of European Group for the Study of Deviance and Social Control*, Forthcoming.
- Mulvihill, N., Walker, S.-J., Hester, M., a Gangoli, G. (2018). *How is ‘justice’ understood, sought, and experienced by victims/survivors of gender based violence? A review of the literature*. Bryste.
- Muravyev, A., a Talavera, O. (2018). Unsafe Sex in the City: Risk Pricing in the London Area. *Scottish Journal of Political Economy*, 65(5), 528–549.
- National Ugly Mugs (2016). *Supplementary written evidence submitted by National Ugly Mugs to the Home Affairs Committee Inquiry on Prostitution 2016-2017. Research and statistics briefing (PRO0244)*. Available at: <http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/home-affairs-committee/prostitution/written/30848.pdf>.
- Nayar, K. (2017). Sweetening the deal: dating for compensation in the digital age. *Journal of Gender Studies*, 26(3), 335–346.
- O’Neill, M., (2001). *Prostitution and Feminism: Towards a Politics of Feeling*. Caergrawnt: Polity Press.
- Oerton, S., a Phoenix, J. (2001). Sex / Bodywork : Discourses and Practices. *Sexualities*, 4(4), 387–412.
- Parreñas Shimizu, C. (2010). Screening Sexual Slavery? Southeast Asian Gonzo Porn and US Anti-Trafficking Law. *Sexualities*, 13(2), 161–170.
- Peer Research Team. (2013). *PEER: Exploring the Lives of Sex Workers in Tyne and Wear*.
- Peppet, S. R. (2013). Prostitution 3.0? *Iowa Law Review*, 98(5).

- Pilcher, K. (2016). *Erotic performance and spectatorship: New frontiers in erotic dance*. Llundain ac Efrog Newydd: Routledge.
- Pinsky, D., a Levey, T. (2015). "The world turned upside down": Emotional labor and the professional dominatrix. *Sexualities*, 18(4), 438–458.
- Pitcher, J. (2015a). Direct sex work in Great Britain: reflecting diversity. *Graduate Journal of Social Science*, 11(2), 76–100.
- Pitcher, J. (2015b). Sex work and modes of self-employment in the informal economy: diverse business practices and constraints to effective working. *Social Policy and Society*, 14(1), 113–123.
- Pitcher, J. (2019). Intimate Labour and the State: Contrasting Policy Discourses with the Working Experiences of Indoor Sex Workers. *Sexuality Research and Social Policy*, 16(2), 138–150.
- Ratliff, E. A. (2003). *The price of passion: performances of consumption and desire in the Philippine go-go bar* (Prifysgol Texas, Austin).
- Renouf, H. (2016). *Resettlement experiences of street sex-working women on release from prison*. The Griffins Society.
- Reynolds, R. (2017). *Casual Encounters: Constructing Sexual Deviance on Craigslist.org* (Prifysgol Minnesota).
- Roberts, R., Bergström, S., a La Rooy, D. (2007). Sex work and students: an exploratory study. *Journal of Further and Higher Education*, 31(4), 323–334.
- Ross, M. W., Mansson, S.-A., Daneback, K., a Tikkanen, R. (2005). Characteristics of Men Who Have Sex with Men on the Internet But Identify as Heterosexual, Compared with Heterosexually Identified Men Who Have Sex with Women. *CyberPsychology & Behavior*, 8(2), 131–139.
- Sagar, T., Jones, D., Croxall, J., Tyrie, J., a Chimba, M. (2011). *Locating Female Black and Minority Ethnic Off Street Sex Workers in Cardiff*.
- Sagar, T., Jones, D., Symons, K., a Bowring, J. (2015). *The Student Sex Work Project: Research summary*.
- Sanders, T. (2005). "It's Just Acting": Sex Workers' Strategies for Capitalizing on Sexuality. *Gender, Work and Organization*, 12(4), 319–342.
- Sanders, T. (2006). Sexing Up the Subject: Methodological Nuances in Researching the Female Sex Industry. *Sexualities*, 9(4), 449–468.
- Sanders, T., a Campbell, R. (2007). Designing out vulnerability, building in respect: violence, safety and sex work policy. *British Journal of Sociology*, 58(1), 1–19.
- Sanders, T., Connelly, L. J., a Jarvis-King, L. (2016). On our own terms: The working conditions of internet-based sex workers in the UK. *Sociological Research Online*, 21(4).
- Sanders, T., O'Neill, M., a Pitcher, J. (2009). *Prostitution: sex work, policy and politics* (argraffiad cyntaf). SAGE Publications Ltd.
- Sanders, T., O'Neill, M., a Pitcher, J. (2017). *Prostitution: sex work, policy and politics* (ail argraffiad). SAGE Publications Ltd.
- Sanders, T., Scoular, J., Campbell, R., Pitcher, J., a Cunningham, S. (2018). *Beyond the Gaze: Briefing on Customers who Buy Sex Online*.

- Sanders, T., Scoular, J., Campbell, R., Pitcher, J., a Cunningham, S. (2017b). *Beyond the Gaze : Summary Briefing on Internet Sex Work*.
- Sanders, T., Scoular, J., Campbell, R., Pitcher, J., a Cunningham, S. (2017c). *Internet Sex Work: Beyond the Gaze* (Palgrave Macmillan, Gol.). Llundain.
- Sanders, T., Scoular, J., Campbell, R., Pitcher, J., a Cunningham, S. (2017d). *Mapping the online sex industry*.
- Sanders, T. Campbell, R., Cunningham, S., Pitcher, J., a Scoular, J. (2018). The point of counting: mapping the internet based sex industry. *Social Sciences*, 7(5), 233-241.
- Sandwith, L. (2011). *'Score, smoke, back on the beat'. An exploration of the impact of homelessness on exiting street sex working in Manchester*. The Griffins Society.
- Sherman, S., Lilleston, P., a Reuben, J. (2011). More than a dance: The production of sexual health risk in the exotic dance clubs in Baltimore, USA. *Social Science & Medicine*, 73(3), 475–481.
- Sherman, S., Reuben, J., Chapman, C., a Lilleston, P. (2011). Risks associated with crack cocaine smoking among exotic dancers in Baltimore, MD. *Drug and Alcohol Dependence*, 114(2–3), 249–252.
- Shoemate, A. (2009). *Stigma and exotic dancing: Revealing subjective experiences through personal narrative*. Prifysgol Ryngwladol Alliant, Bae San Francisco.
- Skidmore, M. (2016). *The role and impact of organised crime in the local off-street sex market. Briefing*.
- Sloan, L. M., a Wahab, S. (2004). Four Categories of Women Who Work as Topless Dancers. *Sexuality & Culture*, 8(1), 18–43.
- Storer, G. (2001). *A Night out with the Boys: The Discursive and Sexual Practices Surrounding Bar-Based Male Sex Work in Bangkok, Thailand* (Prifysgol De Cymru Newydd).
- Tampep. (2009). *Sex work in Europe: A mapping of the prostitution scene in 25 European countries*.
- The Cyrenians. (2013). *MAP: Exploring the Lives of Male Sex Workers in Tyne and Wear. Summary Report*.
- The Voices Heard Group, Seebohm, L., a Smiles, S. (2008). *Hidden for Survival: Peer research into the lives of sex workers within Newcastle, Gateshead, Sunderland, South Tyneside and North Tyneside*.
- Tibbals, C. (2013). Women Working Behind the Scenes in the Adult Film Industry. *Gender, Work and Organization*, 20(1), 20–35.
- Toynbee Hall. (2009). *Statistics on prostitution in London and the UK*.
- UNAIDS, a Sefydliad Iechyd y Byd. (2010). *Guidelines on Estimating the Size of Populations Most at Risk to HIV*.
- Walby, S., (2016). *Study on the gender dimensions of trafficking in human beings. Final Report*. Y Comisiwn Ewropeaidd. Lwcsembwrg: Swyddfa Cyhoeddiadau'r Undeb Ewropeaidd.
- Ward, H., Mercer, C., Wellings, K., Fneton, K., Erens, B., Copas, A., a Johnson, A. (2005). Who pays for sex? An analysis of the increasing prevalence of female commercial sex contacts among men in Britain. *Sexually Transmitted Infections*, 81(6), 467–471.

- Weiss, B. R. (2018). Patterns of Interaction in Webcam Sex Work : A Comparative Analysis of Female and Male Broadcasters. *Deviant Behavior*, 39(6), 732–746.
- Whowell, M., a Gaffney, J. (2009). Male sex work in the UK: forms, practice and policy implications. Yn J. Phoenix (Gol.), *Regulating Sex for Sale: Prostitution Policy Reform in the UK* (tt. 99–120). Bryste: The Policy Press.
- Williams, D., a Storm, E. (2012). Unconventional leisure and career: Insights into the work of professional dominatrices. *Electronic Journal of Human Sexuality*, 15.
- Wilson, J. D. (2008). Thai bar girls and farang: a customized inter-cultural professional services market. *Human Resource Development International*, 11(4), 401–415.
- Sefydliad Iechyd y Byd. (2017). *Data quality review: module 1: framework and metrics*.
- Wotton, R., ac Isbister, S. (2017). Similarities and Differences Between Sexual Surrogacy, Sex Work and Facilitated Sexual Assistance. *The Journal of Sexual Medicine*, 14(5), Tudalennau e252–e253.

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau manwl

Chwiliad systematig o'r llenyddiaeth

Chwiliwyd wyth cronfa ddata academaidd allweddol (gweler y siart llif yn **Atodiad 2**) ar gyfer y gwyddorau cymdeithasol ac iechyd am unrhyw lenyddiaeth a gyhoeddwyd ers 2000, yn Saesneg, a chrybwyll yn y crynodeb naill ai'r llinynnau geiriau 'prostitut-' neu 'sex work' neu 'commercial sexual exploitation'.⁹ Gwnaeth hyn esgor ar 10,485 o eitemau, ar ôl dileu'r dyblygiadau. Gwnaethom hefyd ychwanegu eitemau a nodwyd drwy chwilio â llaw (e.e. gwefannau anllywodraethol) ac eitemau a argymhellwyd gan gyfranogwyr drwy C1 o'r arolwg ar-lein (gweler isod).

Roedd hyn yn 239 o eitemau ychwanegol, gan greu cyfanswm o 10,724.

Aeth pum aelod o'r tîm ati i fynd drwy'r llenyddiaeth. Canolbwyntiodd dau bâr ar hanner y llenyddiaeth yr un. Ym mhob pâ, dadansoddwyd y dystiolaeth yn ôl y crynodeb yn erbyn y meini prawf ac yna fe'i croesgyfeiriwyd nes y cytunwyd ar restr derfynol o lenyddiaeth berthnasol. Hefyd, samplodd aelod arall o'r tîm bob deg eitem o lenyddiaeth am yr ychydig gannoedd cyntaf, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau dadansoddol yn gyson o fewn a rhwng parau. Arweiniodd y broses ddadansoddi at 1,421 o eitemau perthnasol. Mae'r siart llif sy'n nodi'r broses hon i'w gweld yn **Atodiad 2**. Amlinellir y meini prawf dadansoddi yma:

Cynnwys	Hepgor
<ul style="list-style-type: none"> Disgrifiad o'r gwasanaethau neu eu lleoliad Demograffeg a chyd-destun personol gwerthwyr/prynwyr Rheoli/i ble'r aiff yr arian Llwybrau i mewn Llwybrau allan Risgiau/bod yn agored i niwed/galluedd Lefel (gan gynnwys data presennol ar y lefel, methodolegau, heriau mesur ac ati) Disgrifiad o eraill sy'n gysylltiedig â'r diwydiant rhyw heblaw am brynwyr a gwerthwyr, e.e. perchenogion puteindai, cydberthnasau personol ac ati. 	<ul style="list-style-type: none"> Plismona a'r gyfraith Modelau polisi gwahanol a'u heffaith Astudiaethau o drafodaethau neu ddarluniadau Agweddu'r cyhoedd tuag at buteindra Darnau hanesyddol (cyn 1980) Gwaith trefnu/eirioli gweithwyr rhyw Sut y dylai gweithwyr proffesiynol (e.e. iechyd, sefydliadau anllywodraethol) helpu unigolion sy'n gweithio ym maes puteindra/sydd wedi dioddef masnachu mewn pobl

Gan fod ein briff yn gofyn i ni fod yn 'ddisgrifiadol', heb wneud unrhyw argymhellion polisi, ni wnaethom edrych ar lenyddiaeth a oedd yn canolbwyntio ar y gyfraith, polisi a phlismona'n unig. Fodd bynnag, gwerthfawrogwn fod cysylltiad agos rhwng y materion hyn a natur puteindra a gwaith rhyw, a'r profiadau ohonynt, yn enwedig mewn perthynas â galluedd a risgiau. Felly, roedd yn friff anodd. Aed i'r afael â hynny drwy gynnwys effaith yr amgylchedd rheoliadol yn yr adran **'Themâu trawsbynciol'** ac mewn manau eraill.

⁹ ABS(prostitut*) NEU ABS("sex work") NEU ABS("commercial sexual exploitation") A PUBYEAR AFT
1999 A (LIMIT-TO(LANGUAGE , "English"))

Aeth tri aelod o'r tîm drwy bob cyhoeddiad er mwyn codio'r lleoliad/gwasanaeth, lleoliad daearyddol a themâu allweddol. Cafodd y gwaith hwn ei ddefnyddio i lywio Adran 1 Rhan A o'r adroddiad hwn, '**Themâu Trawsbynciol**', yn ogystal ag Adran 1 Rhan B, '**Lleoliadau a Gwasanaethau**'.

Mewn manau eraill, rydym wedi nodi cyfyngiadau chwiliadau systematig o lenyddiaeth (gweler Mulvihill et al., 2018), yn enwedig lle mae'r cwestiwn cychwynnol yn eang. Ar gyfer y gwaith hwn, gwnaethom edrych ar 'buteindra a gwaith rhyw' o safbwynt eang, yn seiliedig ar y llenyddiaeth a'r data. Fodd bynnag, gan fod y rhain yn gyfystyr â'n termau chwilio gwreiddiol, roedd y llenyddiaeth yn y set wreiddiol hon a nodwyd gennym wedyn ar gyfer, e.e. 'pornography' neu 'sugaring' yn gyfyngedig yn anochel. Dylai darllenwyr a hoffai ddeall mwy am y llenyddiaeth academaidd ar y lleoliadau unigol hyn wneud y chwiliadau eto, ond gan ddefnyddio'r lleoliadau/gwasanaethau penodol hyn fel termau chwilio.

Adolygu llenyddiaeth ar y lefel

Er mwyn ehangu cwmpas ymchwil y DU cymaint â phosibl, gwnaethom chwilio cronfa ddata UK Data Archive am astudiaethau blaenorol (ers 2000) gan ddefnyddio'r geiriau "sex work" (dau ganlyniad), "prostitution" (15 o ganlyniadau), "sex industry" (tri, a dim ond un oedd yn newydd ac yn y DU). O'r rhain, nodwyd bod pump yn berthnasol i ddeall puteindra a gwaith rhyw yn y DU ac fe'u hychwanegwyd at y gronfa ddata llenyddiaeth fel rhan o'r chwiliadau â llaw. Gwnaethom hefyd chwilio banc o gwestiynau UK Data Service ar gyfer arolygon cenedlaethol. Dim ond yr Arolwg Cenedlaethol o Agweddau a Ffyrdd o Fyw Rhywiol ('NatSal') a oedd yn casglu data ar waith rhyw o blith poblogaeth gyffredinol y DU gyfan (gweler **Arolygon o'r boblogaeth gyffredinol** yn Rhan 2 uchod am drafodaeth).

Arolwg ar-lein

Ar 26 Mehefin 2018, gwnaethom lansio arolwg ar-lein a hyrwyddwyd gennym drwy ein tudalen prosiect Prifysgol, drwy e-byst at ystod eang o randdeiliaid a nodwyd a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Cafodd yr arolwg ei adael ar agor tan 31 Rhagfyr 2018, er mwyn sicrhau bod mwy yn dod yn ymwybodol ohono a bod pobl yn cael amser i gymryd rhan.

Ni cheisiodd ein harolwg ar-lein ddata demograffiaidd personol gan ymatebwyr. Roeddem yn ymwybodol y gallai astudiaeth wedi'i hariannu gan y Swyddfa Gartref olygu na fyddai rhai'n ymateb, petai'r fath gwestiynau gorfodol wedi'u hystyried yn fusneslyd.

Yn gryno, yr unig wybodaeth orfodol y gwnaethom ofyn amdani gan yr ymatebydd oedd sut roedd yn adnabod ei hun (e.e. fel rhywun a oedd yn gysylltiedig â phuteindra/gwaith rhyw neu wedi bod yn gysylltiedig â hynny, gweithiwr mewn sefydliad anllywodraethol, yr heddlu ac ati).

Gwnaed hyn fel ein bod yn gallu categoreiddio ymatebwyr yn gyffredinol. Gwerthfawrogwn fod hyn yn golygu bod yn rhaid i unigolion ddewis un label (pan allent weithio fel academydd a gweithiwr rhyw, er enghraifft) ac nad oedd modd dilysu hunanadnabyddiaeth yn annibynnol. Fodd bynnag, golygai'r gofynion amser a dadansoddi ar gyfer yr astudiaeth hon mai dyma oedd fwyaf ymarferol. Gofynnwyd am gyfeiriad e-bost ar gyfer unrhyw gwestiynau dilynol posibl, ond nid oedd rhaid ei roi.

Roedd yr arolwg yn anarferol oherwydd ni wnaethom ofyn i ymatebwyr dicio categorïau wedi'u nodi ymlaen llaw. Yn lle hynny gwnaethom ofyn chwe chwestiwn ymateb agored syml:

1. A oes unrhyw astudiaeth, adroddiad neu gyhoeddiad arall penodol y mae'n bwysig i ni, yn eich barn chi, roi sylw iddo ar gyfer y prosiect hwn? Rhowch fanylion.
2. A oes 'mathau' penodol o buteindra a gwaith rhyw sydd angen eu cynnwys yn y prosiect hwn yn eich barn chi? Rhowch fanylion.
3. A oes unigolion neu grwpiau penodol yn eich barn chi y mae angen i ni siarad â nhw? Rhowch fanylion.
4. A yw'ch sefydliad yn casglu data rhifyddol ar buteindra a gwaith rhyw a fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer y prosiect hwn yn eich barn chi? Rhowch fanylion.

5. A oes gennych brofiad a fyddai, yn eich barn chi, yn ein helpu i ddeall yn well sut beth yw puteindra a gwaith rhyw yng Nghymru a Lloegr heddiw? Os oes, rhowch fanylion.
6. Unrhyw sylwadau eraill.

Yn sgil hyn roedd y broses o ddadansoddi ymatebion yn llafurus iawn, ond cafwyd digonedd o ddata.

Gwnaethom y penderfyniadau methodolegol hyn ar sail y data (a'r holiaduron dilynol drwy e-bost isod) er mwyn ceisio bod yn gynhwysol. Fodd bynnag, mae wedi golygu na allem gyflwyno'r data hyn mewn termau rhifyddol syml na gwneud, er enghraifft, ddatganiadau ar yr union gyfran o ymatebwyr a gafodd brofiad penodol.

Gwnaethom annog unigolion i ymateb yn yr wythnosau cyntaf er mwyn i ni allu dechrau'r gwaith. Cafwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion ddechrau mis Medi, er i ni barhau i gadw llygad tan y dyddiad cau, sef 31 Rhagfyr. Cawsom gyfanswm o 1,180 o ymatebion wedi'u cwblhau, yr oedd 529 (45%) gan unigolion a nododd eu bod yn gysylltiedig â phuteindra a/neu waith rhyw, neu wedi bod yn gysylltiedig â hynny.

Roeddem yn cydnabod na fyddai llawer o'r unigolion a oedd yn gysylltiedig â phuteindra a gwaith rhyw yn cwblhau, neu yn wir yn gallu cael gafael ar, arolwg ar-lein. Felly, gwnaethom hefyd weithio gydag ystod eang o sefydliadau anllywodraethol er mwyn cael ymatebion (gweler isod o dan Holiaduron dilynol yr Arolwg ac Ymgynghoriadau).

Er i ni ofyn i'r sawl a ymatebodd i'r arolwg a hoffent gael eu henwi'n gyfranogwr yn yr adroddiad, gwnaethom benderfynu wedyn, o ystyried bod y rhan fwyaf o'r ymchwil yn seiliedig ar lais cyfranogwyr unigol a oedd yn gysylltiedig â phuteindra a gwaith rhyw ar hyn o bryd (neu wedi bod yn ddiweddar), nad oedd y rhan fwyaf ohonynt am i'w henwau gael eu cyhoeddi, y byddai ond cyhoeddi enwau sefydliadau neu unigolion a oedd eisoes yn gyhoeddus, yn peri'r risg o leihau'r cyfraniad canolog hwnnw, neu ei gelu'n gyfan gwbl. Am y rheswm hwn, ni chaiff y sawl a gyfrannodd at yr ymchwil eu rhestru.

Ceisiadau am ddata ar y lefel

Yn sgil prinder data cenedlaethol ar y lefel, gwnaethom gasglu data sylfaenol. Roedd gan yr ymarfer casglu data dri phrif nod:

1. deall sut mae sefydliadau yn casglu data, yn ogystal â'r heriau a wynebier ganddynt;
2. helpu i gasglu data mewn ffordd gyson;
3. creu adnoddau casglu data sy'n hawdd eu defnyddio.

Gwnaethom gysylltu â sefydliadau sy'n cefnogi'r rheini yn y diwydiant rhyw, yr heddlu, darparwyr gwasanaethau ar-lein/gwefannau gwasanaethau i oedolion, yn ogystal â chynghorau lleol gan ofyn iddynt am unrhyw ddata roeddent yn eu casglu ar buteindra a gwaith rhyw.

Er mwyn casglu data gan sefydliadau a'r heddlu gwnaethom ddatblygu dau adnodd casglu data (gweler **Atodiad 8**). Cafodd y rhain eu diwygio wedyn mewn ymateb i adborth gan academyddion a sefydliadau. Wrth lunio'r tablau, bu'n rhaid i ni gydbwyso'r angen i gasglu gwybodaeth a ddadgyfunwyd yn ddigonol er mwyn adlewyrchu'r rheini yn y diwydiant rhyw yn gywir (e.e. rhywedd, cenedligrwydd, profiadau amrywiol), a llunio adnodd syml a allai gael ei gwblhau'n hawdd. Anfonwyd yr adnoddau casglu data i 35 o sefydliadau anllywodraethol a wnaeth ymateb i'n harolwg gwreiddiol (pedwar yng Nghymru a 31 yn Lloegr). O'r rhain, darparodd 11 wybodaeth. Anfonwyd ceisiadau i 42 o heddluoedd a bu modd i bump ddarparu data. Rhoddodd pum heddlu arall adborth ar yr adnodd casglu data.

O ystyried amlygrwydd y diwydiant ar-lein, gwnaethom gysylltu â darparwyr gwasanaethau ar-lein/gwefannau i oedolion a oedd yn hwyluso gwasanaethau rhywiol, er mwyn cael gafael ar ddata o gronfeydd data ôl-brosesu di-enw. Bu modd i ni weld gwybodaeth gan ddau lwyfan mawr, sy'n cadarnhau ymchwil flaenorol sydd wedi tanlinellu problemau defnyddio data pen blaen er mwyn llunio amcangyfrifon o'r lefel (Sanders et al., 2018).

Yn olaf, gwnaethom gasglu data gan awdurdodau lleol dethol yng Nghymru a Lloegr ar nifer y

Lleoliadau Adloniant Rhywiol (SEV) yn eu hardal. Mae awdurdodau lleol yn trwyddedu rhai sefydliadau rhyw: lleoliadau adloniant rhywiol (e.e. dawnsio glin a chlybiau i ddynion), siopau rhyw, sinemâu rhyw ac mewn ambell achos fariau croesawferched. Yn gyffredinol, ni chaiff lleoliadau eraill fel parlyrau tylino a sawnau eu trwyddedu.

Holiaduron dilynol drwy e-bost

Ar ôl adolygu'r data o'r arolwg ar-lein, gwnaethom nodi 135 o blith y 529 o ymatebwyr i'r arolwg a nododd eu bod yn gysylltiedig â gwaith rhyw a phuteindra, neu wedi bod yn gysylltiedig â hynny. Roedd yr is-sampl hon yn adlewyrchu ystod eang o ryweddu a phrofiadau o leoliadau a gwasanaethau. Gwnaethom anfon 135 o gwestiynau cyfweiliad dilynol manwl drwy e-bost (gweler **Atodiad 4**) at yr unigolion hyn, i'w cwblhau eu hunain. Cawsom gyfanswm o 42 o ymatebion wedi'u cwblhau erbyn diwedd mis Chwefror 2019.

Gan gydnabod na fyddai llawer o'r unigolion a oedd yn gysylltiedig â phuteindra a gwaith rhyw wedi ymateb i arolwg ar-lein, gwnaethom anfon holiaduron i 76 o sefydliadau anllywodraethol i'w dosbarthu ymhlith eu defnyddwyr gwasanaeth neu aelodau: cafwyd 16 o ymatebion gan ddefnyddwyr gwasanaeth/aelodau unigol ynghyd â thri ymateb gan staff sefydliadau anllywodraethol yn seiliedig ar eu gwaith gyda defnyddwyr gwasanaeth/aelodau'n gyffredinol. Roedd y gyfradd ymateb hon yn well na'r disgwyl, o ystyried ein bod wedi anfon yr holiadur ym mis Rhagfyr – amser hynod brysur i ddarparwyr gwasanaeth – ac, oherwydd y pwysau amser, dim ond mis a gafodd sefydliadau anllywodraethol i ymateb. Gwnaethom gydnabod nad oedd hyn yn ddigon o amser ac, o edrych nôl, dylem fod wedi anfon y ffurflen hon yn gynharach.

Cafodd y data dilynol hyn eu defnyddio i lywio Adran 1 Rhan A o'r adroddiad hwn, '**Themâu Trawsbynciol**', yn ogystal ag Adran 1 Rhan B, '**Lleoliadau a Gwasanaethau**'.

Rydym yn cydnabod bod dau grŵp nas cynrychiolir yn ddigonol neu sy'n absennol yn yr adroddiad hwn:

1. Gweithwyr rhyw mudol;
2. Unigolion o Brydain a thu hwnt sy'n cael/a gafodd eu gorfodi drwy rym, sy'n cael/a gafodd eu masnachu, y cam-fanteisir/y cam-fanteisiwyd arnynt yn rhywiol a/neu sydd wedi'u trawmateiddio mewn perthynas â'u profiad.

Fel academyddion ym maes trais seiliedig ar ryweddu, y mae ein hymchwil yn canolbwyntio ar ddiodefwyr a thramgwyddwyr trais a chamdriniaeth yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, mae'n siomedig na chafodd y lleisiau hyn eu clywed yn gliriach. Wrth fyfyrion ar hyn, mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn deall yn well natur a lefel y profiadau hynny, ond er mwyn gwneud hyn mae angen dulliau priodol, mesurau diogelu moesegol, arbenigedd, ymddiriedaeth, amser ac adnoddau ieithyddol fwy na thebyg. Ymhlith y materion allweddol mae'r canlynol:

1. Nid yw llawer o'r unigolion yn y grwpiau hyn yn ymgysylltu â gwasanaethau ac nid yw'n ddiogel cynnwys unigolion sy'n wynebu risg ar hyn o bryd mewn ymchwil;
2. Gwelir fwyfwy nad oes gan wasanaethau'r capasiti i gymryd rhan mewn ymchwil a/neu hwyluso cyfarfodydd rhwng ymchwilwyr a defnyddwyr gwasanaeth a/neu nid ydynt yn teimlo bod eu defnyddwyr gwasanaeth yn barod i gymryd rhan mewn ymchwil o'r fath;
3. Mae'n bwysig cyfleu diben yr ymchwil: er enghraifft, gall mudwyr yn y diwydiant rhyw fod yn amheus am gymryd rhan mewn ymchwil wedi'i hariannu gan y Swyddfa Gartref, o ystyried ei chylch gwaith ehangach ar fewnfudo.

Cyfarfodydd Rhanddeiliaid rhanbarthol

Ar ôl i ni ddrafftio'r canfyddiadau cychwynnol, gwnaethom drefnu pedwar cyfarfod rhanbarthol ym Mryste, Llundain, Caerdydd a Leeds. Yn gyffredinol, gwnaethom wahodd 155 o sefydliadau anllywodraethol, heddluoedd ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, llywodraethau/cynghorau lleol a sefydliadau/asiantaethau ieuchyd, yn ogystal ag unigolion a oedd

yn gysylltiedig â gwaith rhyw a/neu buteindra a oedd yn chwarae rhan mewn sefydliadau/cydweithfeydd. Daeth 55 o unigolion o 45 o sefydliadau i gyd (wyth unigolyn o saith sefydliad ym Mryste; 12 o unigolion o saith sefydliad yng Nghaerdydd; 11 o unigolion o 10 sefydliad yn Leeds; a 24 o unigolion o 21 o sefydliadau yn Llundain). Yma gwnaethom gyflwyno'r canfyddiadau a oedd wedi dod i'r amlwg a cheisiwyd adborth. Cafodd y sawl a oedd yn bresennol daflen wybodaeth yn nodi'r ymchwil a'u cyfranogiad yn y cyfarfodydd, a chwblhawyd ffurflen gydsynio er mwyn rhoi caniatâd i ni ddefnyddio eu hadborth yn yr adroddiad.

Cyfarfodydd unigol


Gwnaethom hefyd drefnu 10 cyfarfod unigol gyda sefydliadau anllywodraethol a chydweithfeydd a oedd yn gweithio'n uniongyrchol gydag unigolion a oedd yn gysylltiedig â gwaith rhyw a phuteindra, neu wedi bod yn gysylltiedig â hynny, neu wedi'u cynrychioli ganddynt. Unwaith eto, gwnaethom ofyn am ganiatâd i gynnwys eu hadborth yn yr adroddiad.

Gwaith ymgynghori parhaus ac adborth terfynol ar y drafft cyntaf

Rydym wedi ymgynghori'n barhaus â'r gymuned academiaidd drwy negeseuon e-bost, galwadau ffôn a chyfarfodydd, a chafwyd ymateb mawr drwy'r arolwg ar-lein. Datblygwyd rhestr o randdeiliaid academiaidd o'r adolygiad o lenyddiaeth, yr arolwg ar-lein a'n gwybodaeth ein hunain o'r sector, ac anfonwyd y wybodaeth ddiweddaraf at aelodau'r grŵp hwn, yn ogystal â'r gymuned arolwg ehangach, drwy gydol y cyfnod dan sylw. Cafodd y wybodaeth hon ei rhannu hefyd drwy ein tudalen gwe ar gyfer y prosiect, ar wefan Prifysgol Bryste.

Ym mis Ebrill gwnaethom rannu'r drafft cyntaf â'r Swyddfa Gartref, a gwnaethom barhau i weithio arno wedyn tan ganol mis Mai. Er i ni obeithio gallu rhannu copi terfynol i ymgynghori arno'n derfynol â phawb dan sylw, yn sgil pryderon am ei ryddhau ymlaen llaw heb awdurdod ni allem ond dosbarthu drafft terfynol i grŵp bach o randdeiliaid penodol a gafodd eu hysbysu ymlaen llaw, a oedd yn cynnwys academyddion, sefydliadau anllywodraethol a gweithwyr rhyw presennol, am gyfnod ymgynghori o 14 diwrnod. Rydym yn ddiolchgar i nifer yn y grŵp hwn am roi o'u hamser a rhannu sylwadau mor fanwl a threiddgar. Cafodd y gwaith golygu terfynol ei wneud a'i gyhoeddi ym mis Mehefin 201

Atodiad 2 – Siart llif chwiliadau llenyddiaeth systematig



Atodiad 3 – Llenyddiaeth ar ddatblygu teipoleg puteindra/gwaith rhyw

Gwnaethom ystyried categorïau a theipolegau blaenorol o'r diwydiant rhyw yn y DU (e.e. Sanders et al., 2018, Brooks-Gordon, et al., 2015; Pitcher, 2015; Sanders, O'Neill a Pitcher, 2009) a thu hwnt (e.e. Belmar, et al., 2017; Buzdugan, et al., 2010; Buzdugan, et al., 2009; Harcourt a Donovan, 2005). Mae hefyd deipolegau a chategorïau o fasnachu mewn pobl wedi'u datblygu ar gyfer y DU (Cooper, et al., 2017) a'r UD (Prosiect Polaris, 2017), ac ar gyfer y sawl sy'n prynu gwasanaethau rhywiol yn y DU (Sanders et al., 2009).

Mae teipolegau presennol wedi'u creu ynghyd â chategorïau amrywiol, gan gynnwys safle'r llithio a/neu safle'r gwasanaeth rhywiol, rhywedd gwerthwyr a/neu brynwyr, dewis/galluedd, a phatrymau ymgysylltu (e.e. llawn amser neu ran amser, rheolaidd neu bob hyn a hyn). Mae rhai teipolegau yn defnyddio cymysgedd o gategorïau. Yn aml cymhelliant y deipoleg yw llywio gwasanaethau ac ymyriadau, yn enwedig ynghylch iechyd rhywiol, sy'n targedu unigolion yn y diwydiant rhyw, felly mae categorïau safle'r llithio a/neu'r gwasanaeth rhywiol yn amlwg. Mae llawer o deipolegau ond yn edrych ar rannau o'r diwydiant, boed hynny'n fathau penodol o wasanaethau rhywiol, neu'n grwpiau penodol o werthwyr (e.e. gwerthwyr benywaidd, gwrywaidd neu draws yn unig, mudwyr yn unig ac ati).

Mae ein teipoleg yn edrych a) ar draws y diwydiant rhyw, b) ar unigolion sy'n gysylltiedig ar draws rhyweddau, cenedligrwydd ac ati, ac c) nid yw'n edrych ar gategorïau o safbwynt rhaglennu iechyd. Mae'n seiliedig ar brofiadau'r rheini sy'n gweithio gyda'r diwydiant rhyw, ac yn y diwydiant rhyw, y gallwn eu cynnwys yn ein hymchwil.

Rydym yn ymwybodol y bydd y mathau o puteindra/gwaith rhyw, yn ogystal â lefel hynny, yn amrywio yn ôl lleoliad daearyddol (Buzdugan et al., 2009, 2010), ac felly ni fydd pob dinas/tref/ardal wledig yn adlewyrchu'r holl leoliadau/gwasanaethau a gyflwynir yn ein teipoleg. Roedd y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil hon i gyflwyno teipolegau ar gyfer lleoliadau unigol. Yr hyn a ddarparwn yw trosolwg o wahanol fathau ledled Cymru a Lloegr i gyd. Datblygiad pellach o ran y gwaith hwn fyddai gweld i ba raddau y gellir mapio teipoleg i leoliadau penodol.

Atodiad 4 – Cwestiynau cyfweiliadau dilynol drwy e-bost

Gwnaethom lunio pedwar holiadur ar wahân: (1) ar gyfer y rhai sy'n gwerthu gwasanaethau rhywiol, neu sydd wedi gwneud hynny; (2) ar gyfer y rhai sy'n gwerthu rhyw ar y stryd/yn yr awyr agored, neu sydd wedi gwneud hynny (3) ar gyfer cyn-ddioddefwyr masnachu mewn pobl a/neu ecsbloetiaeth; a (4) ar gyfer y rhai sy'n prynu gwasanaethau rhywiol ac agosatrwydd, neu sydd wedi gwneud hynny.

Cyn yr holiadur ei hun rhoddwyd manylion yr ymchwil, gofynion moesegol, trin a thrafod y data a'u cadw, a manylion cyswllt y tîm ymchwil. Ar ôl y rhagarweiniad hwn cafwyd rhestr o gwestiynau (a atgynhyrchir isod). Gwnaeth Dr Natasha Mulvihill ohebu'n uniongyrchol â grwpiau (1) a (4). Gweithiodd Dr Andrea Matolcsi drwy sefydliadau anllywodraethol perthnasol er mwyn rhannu'r cwestiynau â grwpiau (2) a (3). Ar gyfer grwpiau (2) a (3) cafodd y cwestiynau eu dosbarthu a/neu eu gweinyddu gan weithiwr sefydliad anllywodraethol.

Cwblhaodd yr ymatebwyr yr holiadur ar ffurf electronig neu (yn llai aml) mewn llawysgrifen. Amrywiodd yr ymatebion o ddwy dudalen i sawl tudalen. Cawsom 42 o ymatebion wedi'u cwblhau i gyd (gweler **Atodiad 1** Dulliau yn fanwl).

Holiadur ar gyfer unigolion sy'n gwerthu gwasanaethau rhywiol ac agosatrwydd, neu sydd wedi gwneud hynny

1. Sut rydych chi'n disgrifio ac yn diffinio'r hyn a wnewch (neu a wnaed gennych)?
2. Pryd a sut y gwnaethoch ddechrau arni?
3. Pa mor aml rydych (roeddech) yn gweithio? A ydych (oeddech) yn gwneud unrhyw waith arall, neu'n astudio, ar yr un pryd? A ydych (oeddech) yn gwneud bob hyn a hyn?
4. Sut mae (roedd) apwyntiad/gwaith yn cael ei drefnu? Sut rydych (roeddech) yn hysbysebu neu sut y cawsoch eich recriwtio?
5. Sut mae (roedd) y taliad yn gweithio? A oes (oedd) pobl eraill ynghlwm â hynny (e.e. rhywun yn trefnu neu'n delio â'r arian)?
6. Os yw'n gymwys, sut y byddech yn disgrifio eich cleientiaid: eu demograffeg, cefndir, cymhelliant ac ati?
7. A ydych (oeddech) yn darparu mathau eraill o wasanaethau rhywiol, erotig neu'n ymwneud ag agosatrwydd? Sut maent (oeddent) yn cymharu?
8. A ydych (oeddech) yn gweithio ar eich pen eich hun neu gydag eraill? Sut mae (roedd) y trefniadau gwaith hyn yn gwneud i chi deimlo?
9. Gan feddwl am y rheini sy'n ffrindiau neu'n gydnabod sydd (a oedd) yn gwneud gwaith tebyg, a fyddech yn dweud eu bod nhw mewn sefyllfa debyg i chi, o ran demograffeg, cymhelliant, profiadau ac ati?
10. Beth yw buddiannau/agweddau cadarnhaol yr hyn a wnewch (wnaethoch), i chi ac eraill?
11. Beth yw (a) heriau (b) risgiau (c) niwed yr hyn a wnewch (wnaethoch)?
12. A ydych wedi gweld newidiadau dros amser? Os felly, allwch chi egluro?
13. A ydych wedi talu am wasanaethau rhywiol, erotig neu'n ymwneud ag agosatrwydd? Pam neu pam ddim? A fyddech yn gwneud yn y dyfodol?
14. Beth yw'ch cynlluniau at y dyfodol?
15. A hoffech ychwanegu unrhyw beth mewn perthynas â'n cwestiynau ymchwil ar 'natur' a 'lefel' bresennol puteindra a gwaith rhyw yng Nghymru a Lloegr, nad ydym wedi ei ofyn i chi?

Holiadur ar gyfer unigolion sy'n gysylltiedig â phuteindra/gwaith rhyw ar y stryd: i'w rannu drwy sefydliad cymorth perthnasol

1. Pryd a sut y gwnaethoch ddechrau gwerthu rhyw?
2. Pa mor aml fyddwch chi'n mynd allan i werthu?
3. Sut mae trafodyn yn cael ei wneud? A oes gennych fan penodol? A ydych yn gweithio gydag eraill?
4. Sut y byddech yn disgrifio eich cwsmeriaid? (eu cefndir)
5. A ydych, neu a oeddech, yn gysylltiedig â gwerthu rhyw mewn lleoliadau eraill (e.e. puteindy, parlwr ac ati) neu mewn gwahanol fathau o waith rhyw, e.e. ffilmiau i oedolion neu ddawnsio erotig?
6. Faint o unigolion (yn fras) rydych chi'n eu hadnabod (a) fel cydnabod wyneb yn wyneb (b) fel cymuned, sy'n gysylltiedig â gwaith rhyw ar y stryd yn eich ardal?
7. A fyddech yn dweud eu bod mewn sefyllfa debyg i chi (o ran cefndir, cymhelliant, profiad ac ati)?

8. Beth yw (a) heriau a (b) risgiau yr hyn a wnewch yn eich barn chi?
9. A ydych wedi gweld newidiadau dros amser?
10. Beth yw'ch cynlluniau at y dyfodol?

Holiadur ar gyfer y rhai sydd wedi goroesi masnachu mewn pobl neu ecsbloetiaeth

1. Sut y byddech yn diffinio'r hyn a ddigwyddodd i chi?
2. Sut y gwnaethoch ddechrau gweithio fel putain? Pa flwyddyn oedd hyn yn fras ac ai yn y DU oedd hynny?
3. Am faint o amser barodd hyn? Ai rhywbeth bob hyn a hyn oedd e?
4. Sut roedd cyfarfodydd â chwsmeriaid neu ecsbloetwyr yn cael eu trefnu?
5. Sut y byddech yn disgrifio'r cwsmeriaid neu'r ecsbloetwyr (o ran demograffeg, cymhelliant, profiadau ac ati)?
6. Sut roedd y taliad yn gweithio?
7. A oeddech yn gweithio mewn gwahanol leoliadau (e.e. puteindai, ar y stryd, gwaith esgort) ar gyfer puteindra neu ecsbloetiaeth? A oedd unrhyw wahaniaethau rhwng y lleoliadau hyn?
8. A oeddech yn gysylltiedig â phuteindra neu ecsbloetiaeth ar eich pen eich hun, neu gydag eraill?
9. Gan feddwl am y rheini roeddech yn eu hadnabod a oedd mewn sefyllfa debyg i chi, a fydddech yn dweud eu bod nhw'n debyg i chi (o ran cefndir, profiadau ac ati)?
10. O ystyried eich profiad, pa niwed a achosir gan buteindra?
11. Pryd, sut a pham y gwnaethoch adael neu lwyddo i ddianc y sefyllfa roeddech ynddi?
12. A hoffech ychwanegu unrhyw beth mewn perthynas â'n cwestiynau ymchwil ar 'natur' a 'lefel' puteindra a gwaith rhyw yng Nghymru a Lloegr heddiw, nad ydym wedi gofyn i chi?

Cwestiynau dilynol gydag ymatebwyr i'r arolwg sy'n prynu gwasanaethau rhywiol a gwasanaethau sy'n ymwneud ag agosatrwydd, neu sydd wedi gwneud hynny

1. Sut a phryd y gwnaethoch ddechrau prynu gwasanaethau rhywiol neu wasanaethau'n ymwneud ag agosatrwydd? Pa fath o wasanaethau rydych yn eu prynu fel arfer, neu rydych wedi eu prynu yn y gorffennol?
2. Pa mor aml fyddwch chi'n prynu? A yw'n amrywio dros amser? Os felly, sut?
3. A ydych ond yn prynu gwasanaethau rhywiol/yn ymwneud ag agosatrwydd yn y DU, neu dramor hefyd?
4. A oes unrhyw wefannau penodol neu ffynonellau eraill (e.e. papurau newydd, argymhelliad personol) rydych yn eu defnyddio wrth chwilio am wasanaethau rhywiol/yn ymwneud ag agosatrwydd?
5. Sut mae apwyntiadau yn cael eu trefnu?
6. Sut mae'r taliad yn gweithio? A oes pobl eraill ynghlwm â hynny (e.e. rhywun yn trefnu/delio â'r arian)?
7. Sut y byddech yn disgrifio'r darparwyr gwasanaeth rydych yn eu gweld, o ran demograffeg, cymhelliant, profiadau ac ati?

8. A ydych wedi prynu gwahanol fathau o wasanaethau rhywiol/yn ymwneud ag agosatrwydd? Sut maent yn cymharu o ran trefnu a gweinyddu'r profiad, ac o ran pwy rydych yn eu gweld (demograffeg, cymhelliant, profiadau)?
9. O ran prynwyr eraill sy'n ffrindiau neu'n gydnabod, a fyddech yn dweud eu bod nhw mewn sefyllfa debyg i chi (o ran demograffeg, cymhelliant, profiadau)?
10. Beth yw buddiannau talu am wasanaethau rhywiol/yn ymwneud ag agosatrwydd (i chi ac eraill)?
11. A ydych wedi gwerthu gwasanaethau rhywiol/yn ymwneud ag agosatrwydd? Os felly, sut y byddech yn disgrifio'r profiad?
12. A fyddech yn ystyried gwerthu gwasanaethau rhywiol/yn ymwneud ag agosatrwydd? Pam neu pam ddim?
13. Beth yw (a) heriau (b) risgiau (c) niwed talu am wasanaethau rhywiol/yn ymwneud ag agosatrwydd yn eich barn chi?
14. A ydych wedi gweld newidiadau dros amser o ran y profiad prynu? A allwch ddisgrifio'r newidiadau hynny?
15. Yn eich barn chi, pa ffactorau fydd yn dylanwadu ar eich penderfyniad i dalu neu beidio â thalu am wasanaethau rhywiol/yn ymwneud ag agosatrwydd yn y dyfodol?
16. A hoffech ychwanegu unrhyw beth mewn perthynas â'n cwestiynau ymchwil ar 'natur' a 'lefel' puteindra a gwaith rhyw yng Nghymru a Lloegr heddiw, nad ydym wedi gofyn i chi?

Atodiad 5 - Arfer gorau wrth amcangyfrif lefel gwaith rhyw a phuteindra

Mae'r isadran hon yn defnyddio canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd/UNAIDS i gynnig crynodeb o arfer gorau wrth amcangyfrif lefel gwaith rhyw a phuteindra.

Amcangyfrif maint 'poblogaethau mewn perygl': O ystyried yr heriau a nodir yn adran Lefel y prif adroddiad, mae'n anodd cael sampl ddigonol a chynrychioliadol o bobl sy'n gysylltiedig â phuteindra a gwaith rhyw. Nid yw dulliau o gasglu gwybodaeth gan y boblogaeth gyffredinol, fel arolygon, yn debygol o fod yn ffordd effeithiol o astudio gwaith rhyw a phuteindra. Mewn ymateb, yn 2010, lluniodd gweithgor UNAIDS/Sefydliad Iechyd y Byd ar ganllawiau monitro HIV/AIDS a heintiau a drosglwyddir drwy ryw yn fyd-eang adolygiad o'r dulliau presennol o amcangyfrif maint 'poblogaethau mewn perygl', gan gynnwys gweithwyr rhyw. Mae'r adroddiad, a ystyrir yn ffynhonnell gyfeirio yn eang, yn asesu cryfder perthynol gwahanol ddulliau o amcangyfrif lefel gwaith rhyw a phuteindra: dulliau cyfrif a chyfrifo, a dulliau cipio, ailgipio a llusoi.¹⁰ Mae'r dulliau a adolygwyd wedi'u cymhwyso'n flaenorol, yn bennaf wrth astudio gwaith rhyw uniongyrchol ac all-lein, ac nid ydynt wedi'u profi'n eang eto er mwyn astudio marchnadoedd ar-lein. Yn unol â hynny, rydym hefyd yn trafod y defnydd o ddulliau ar-lein yn fras.

Dulliau cyfrif a chyfrifo: Mae cyfrifiad yn cyfrif pob aelod o'r boblogaeth e.e. pob gweithiwr rhyw yn y wlad, neu bob gweithiwr rhyw benywaidd sy'n gweithio mewn puteindai. Byddai cyfrifiad yn nodi pob lleoliad lle mae gweithwyr rhyw yn gweithio ac yn cyfrif pob unigolyn ym mhob lleoliad. Mae dulliau cyfrifo yn cymhwyso'r un egwyddor ond at ardal ddethol neu ardaloedd dethol, gan luosi'r gwerthoedd a nodwyd er mwyn creu cyfanswm amcangyfrif. Mae'r ddau ddull yn gofyn am ffrâm samplu hysbys – er enghraifft, rhestr gynhwysfawr o leoliadau neu fannau lle ceir nifer o achosion. Pan fo ffrâm samplu ar gael yn hawdd, bydd dulliau cyfrif a chyfrifo yn syml i'w gweithredu a gallant ofyn am lai o adnoddau na dulliau eraill. Fodd bynnag, pan fo'r boblogaeth wedi'i chuddio, ar wasgar yn ddaearyddol a/neu'n hynod symudol - nodweddiad y boblogaeth sy'n gwneud gwaith rhyw yn aml - nid yw'r dulliau cystal, a gall ffrâm samplu fod yn anodd ei diffinio. Hyd y gwyddom, ni fu unrhyw astudiaethau diweddar o waith cyfrifo na chyfrif gweithwyr rhyw yn y DU.

¹⁰ Mae Sefydliad Iechyd y Byd hefyd yn crybwyll y dull enwebu neu 'snowball' er nad yw'n argymhell ei ddefnyddio ac fellyni chaiff ei drafod yma gan fod y ffofws ar a fer gorau.

Dulliau cipio-ailgipio: Yn aml, ystyrir mai cipio-ailgipio yw'r safon euraidd o ran cyfrif poblogaethau sy'n anodd eu cyrraedd. Mae'r dull yn amcangyfrif cyfanswm y boblogaeth drwy gyferbynnu'r gorgyffwrdd rhwng dwy sampl annibynnol. Er enghraifft, byddai tîm yn casglu data ar weithwyr rhyw mewn set o leoliadau ac yn cyfrif eilwaith yn annibynnol wythnos yn ddiweddarach. Gall dulliau cipio-ailgipio fod yn gymharol hawdd i'w gweithredu. Nid yw'r dull yn gofyn am fawr ddim arbenigedd ystadegol na data.

Fodd bynnag, mae cywirdeb yr amcangyfrifon yn dibynnu ar amrywiaeth o dybiaethau¹¹ y gall fod yn anodd eu cyflawni, yn enwedig o ran poblogaethau cudd a symudol fel gweithwyr rhyw. Pan na chyflawnir y tybiaethau, gall y canlyniadau ddangos tuedd a naill ai gôr neu danamcangyfrif y boblogaeth (gweler Berchenko a Frost, 2011 am drafodaeth fanwl am gyfyngiadau'r dull o astudio poblogaethau dynol). Gangydnabod y problemau posibl, mae adroddiad UNAIDS/Sefydliad Iechyd y Byd yn darparu cyngor ar sut i leihau tuedd wrth ymchwilio i waith rhyw gan ddefnyddio dulliau cipio-ailgipio (UNAIDS/Sefydliad Iechyd y Byd, 2010, t. 18-19). Mae'r dull wedi'i ddefnyddio mewn amrywiaeth o astudiaethau rhyngwladol er mwyn mesur lefel puteindra (e.e. Vuylsteke et al., 2010; Mutagoma et al., 2015; Sharifi et al., 2017). Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw astudiaethau cenedlaethol yn y DU sydd wedi defnyddio dulliau cipio-ailgipio i amcangyfrif lefel gwaith rhyw.

Y dull lluos: Mae dau gam i'r dull hwn. Yn gyntaf, cysylltir â sefydliadau a gwasanaethau sy'n targedu'r boblogaeth dan sylw a chaiff amcangyfrifon o nifer y defnyddwyr gwasanaeth/unigolion cofrestredig eu llunio (e.e. nifer y gweithwyr rhyw a fu mewn clinig heintiau a drosglwyddir drwy ryw fis diwethaf). Yna caiff canran y boblogaeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwnnw ei hamcangyfrif ar sail arolwg cynrychioliadol o weithwyr rhyw yn yr ardal.¹² Mae'r ail gam hwn yn hanfodol er mwyn llunio lluosydd cadarn. Yna nodir y lefel drwy rannu'r nifer a gafodd y gwasanaeth â'r gyfran y nodwyd ei bod wedi cael y gwasanaeth. Mae'r dull yn golygu y gellir lleihau achosion o gyfrif dwbl drwy nodi'r boblogaeth sydd mewn cysylltiad â sawl gwasanaeth. Fel arall, gellir dosbarthu gwrthrych cofiadwy i'r boblogaeth er mwyn llunio'r rhestr gychwynnol. Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd "The multiplier method is preferable to census and enumeration methods when the sampling frame is questionable or when the population is difficult to reach" (Sefydliad Iechyd y Byd, 2010, t. 24). Mae sawl astudiaeth yn y DU wedi defnyddio fersiwn syml o'r dull hwn er mwyn amcangyfrif lefel puteindra a gwaith rhyw (e.e. Kinnell, 1999; Cusick et al., 2009; Brooks-Gordon et al., 2015; Pitcher, 2015), lle caiff yr ail gam ei hepgor, a brasamcenir y lluosydd gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu. Er ei fod yn ddull cyflymach a mwy fforddiadwy na dull Sefydliad Iechyd y Byd, nid yw'r amcangyfrifon a lunnir yn gadarn.

¹¹ Y tybiaethau yw: a) rhaid i ddwy sampl fod yn annibynnol, heb unrhyw gysylltiad b) mae gan bob aelod o'r boblogaeth yr un siawns o gael ei ddewis, neu mae ei siawns o gael ei ddewis yn hysbys c) rhaid i bob aelod gael ei nodi'n gywir yn 'cipio' neu 'ailgipio' ch) ni all fod unrhyw fudo mawr i mewn nac allan d) rhaid i feintiau sampl pob cipiad fod yn ddigon mawr i fod yn ystyrlon.

¹² Dylai'r arolwg gwmpasu'r grŵp dan sylw ond gall hefyd gynnwys eraill. Er enghraifft, gall gynnwys gweithwyr rhyw mewn puteindai ac ar y stryd hyd yn oed os yw'r lluosydd ond yn cynnwys gweithwyr rhyw mewn puteindai. Rhaid i'r ddwy ffynhonnell ddiffinio'r boblogaeth yn yr un ffordd a chyfateb i'r un cynnodau o amser, ystodau oedran ac ardaloedd daearyddol.

¹³ Wrth ymateb i'n harolwg a'r ymgynghoriadau dilynol, tanlinellodd sawl sefydliad ac a'r benigwr bryderon na allai'r poblogaethau mwyaf agored i ni wed gael gafael ar ein harolwg ar-lein.

Ymchwil ar-lein: Mae ehangu'r rhyngrwyd wedi esgor ar batrymau newydd o waith rhyw a dulliau ymchwil newydd (Hine, 2016). Ymhlith manteision dulliau ar-lein mae'r gallu i gael gafael ar grwpiau sydd ar wasgar yn ddaearyddol, sicrhau bod pawb yn aros yn ddiennw, lleoli samplau ar gyfer grwpiau bach o'r boblogaeth (e.e. lleiafrif penodol), a chasglu symiau mawr o ddata mewn cyfnod cymharol fyr o amser, fel y dangoswyd hefyd gan ein harolwg ein hunain. Yr anfantais yw'r ffaith ei bod hi'n anodd asesu tuedd o ran y sampl neu ddiffyg ymateb (h.y. lle'r oedd rhai grwpiau yn fwy tebygol o ymateb nag eraill), yn ogystal â chadarnhau nodweddion y sampl. At hynny, mae rhai grwpiau – gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â phuteindra ar y stryd ac sydd wedi dioddef masnachu mewn pobl/ecsbloetiaeth – yn llai tebygol o gael eu cynrychioli mewn arolygon ar-lein,¹³ gan olygu bod angen defnyddio dulliau eraill o gynnwys eu barn a'u profiadau (fel y gwnaed yn yr ymchwil hon drwy gyfweiliadau dilynol drwy sefydliadau cymorth). Fel rhan o *Beyond the Gaze* cafwyd yr astudiaeth fawr gyntaf o'r diwydiant rhyw ar-lein yn y DU, ond ni ddarparodd amcangyfrif o'r lefel oherwydd: 'If we did make an estimate, we would be offering data that would be immediately out of date given the fluid and fragile nature of the sex markets online' (Sanders et al., 2018, t. 49). Felly, rhaid bod yn ofalus iawn wrth ddehongli amcangyfrifon o'r lefel.

Atodiad 6 - Crynodeb a gwerthusiad o ffynonellau data posibl ar gyfer amcangyfrif y lefel

Math o ffynhonnell	Is-fath o ffynhonnell	Beth? (data ar gael)	Pwy? (pa grwpiau)	Manteision	Cyfyngiadau	Hygyrchedd	Argymhellwyd?
Sefydliadau statudol	Cyfiawnder Troseddol/yr Heddlu	Cofnodion troseddu cenedlaethol	Unigolion sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Yn fwy tebygol o fod yn gysylltiedig â phuteindra ar y stryd, puteindra mewn puteindai a/neu fasnachu mewn pobl/ecsbloetiaeth.	Cofnodion ar gael yn hawdd.	Gwybodaeth yn gyfyngedig i'r rheini â chofnod troseddol. Diffygion troseddau a gofnodir gan yr heddlu (system casglu data anghyson o fewn ac ar draws heddluoedd, materion o ran ansawdd a data rhai heddluoedd yn annibynadwy).	Data a ddelir gan y llywodraeth	X
		Troseddau cofrestredig	Unigolion sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r heddlu, lle mae'r rhyngweithio hwnnw wedi'i gofrestru.	Potensial am ddata lleol sydd wedi'u dadgyfuno. Cyfredol.	Amrywiadau ar draws heddluoedd o ran p'un a gesglir y data, a sut y'u cesglir. Afreolaidd oherwydd newidiadau mewn	Negodi fesul achos	X

		Data eraill yr heddlu	Unigolion a grwpiau sy'n destun ymchwiliad neu waith monitro.	Potensial am ddata lleol sydd wedi'u dadgyfuno. Cyfredol. Yn ehangach na throseddau a gofrestrwyd.	Fel yr uchod	Negodi fesul achos	v, ynghyd â data eraill
	Gofal iechyd	Cofnodion iechyd. Niferoedd sydd wedi'u cofrestru mewn	Unigolion sydd wedi derbyn gofal iechyd, defnyddio clinig rhywiol.	Cofnodion unigol, cymhellant i unigolion gysylltu â gwasanaethau,	Gall cofnodion gael eu dyblygu, nid yw pawb yn defnyddio'r gwasanaethau, cuddio pwy ydynt (cywilydd, stigma).	Wedi'u cadw mewn cyfleusterau unigol. Gellir eu rhannu ag	v. Y potensial i gasglu data pwrpasol.

Math o ffynhonnell	Is-fath o ffynhonnell	Beth? (data ar gael)	Pwy? (pa grwpiau)	Manteision	Cyfyngiadau	Hygyrchedd	Argymhellwyd?
		clinigau rhywiol arbenigol.		data iechyd a llesiant.		ymchwilwyr, eraill.	
Sefydliadau anllywodraethol ac elusennau sy'n gweithio gyda grwpiau sy'n wynebu risg	Sefydliadau anllywodraethol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol	Adnodd casglu data enghreifftiol a ddefnyddir yn yr astudiaeth hon (gweler Atodiad 8), adroddiadau a setiau data.	Unigolion mewn cysylltiad â sefydliadau anllywodraethol/cymorth. Unigolion sy'n hysbys i sefydliadau.	Dealltwriaeth dda o'r sefyllfa leol wirioneddol, cyfredol, llais i grwpiau agored i niwed (e.e. dioddefwyr masnachu mewn pobl, gweithwyr stryd). Os yn genedlaethol, data safonol	Diffyg safoni, pryderon diogelu data, cyfyngiadau o ran adnoddau, system casglu data wedi'i llywio gan ofynion cyllidwyr.	Negodi fesul achos.	v

Ymchwilwyr ac Academyddion	Llenyddiaeth	Tystiolaeth Empiraidd	Y rhan fwyaf o grwpiau mewn gwaith rhyw a phuteindra.	Methodoleg drylwyr, proses adolygu gan gymheiriaid, potensial i driongli, ymchwil yn seiliedig ar lenyddiaeth ehangach.	Amser hir cyn cyhoeddi. Llai ymatebol i newid nag elusennau a gwasanaethau statudol.	Mynediad agored, cyfnodolion â thanysgrifiad, neu fod mewn cysylltiad â'r awduron. Pob math o ymchwil a ariennir gan ESRC i fod yn Mynediad Agored.	√
	Data prosiect	Data prosiect	Y rhan fwyaf o grwpiau mewn gwaith rhyw a phuteindra.	Methodoleg drylwyr, digonedd o ddata o bosibl.	Nifer gyfyngedig o setiau data ar gael i'r cyhoedd.	UK Data Archive yn cadw	√

Math o ffynhonnell	Is-fath o ffynhonnell	Beth? (data ar gael)	Pwy? (pa grwpiau)	Manteision	Cyfyngiadau	Hygyrchedd	Argymhellwyd?
						setiau data meintiol ac ansoddol.	
Llywodraeth/Sector Cyhoeddus	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Cofnodion treth	Gweithwyr rhyw annibynnol	Mynediad bron am ddim, nifer fawr o achosion, data ar bawb sydd wedi'u cofrestru. Gwybodaeth am ddyddiadau gweithgareddau yn ogystal â lefelau incwm.	Gwybodaeth yn dibynnu ar gyflawnrwydd a chywirdeb cofnodion treth. Rheolau mynediad yn dueddol o wneud y broses mynediad yn hir.	Cais am fynediad at ddata gweinyddol dienw.	X
	Swyddfa Ystadegau	Arolygon	Mae gan NatSal ddata ar gleientiaid gwaith rhyw. Dim data ar bobl sy'n gwneud gwaith rhyw neu'n	Samplau ar hap yn fodd i ddod i gasgliadau am y boblogaeth gyffredinol.	Tuedd o ran dymunoldeb cymdeithasol.	v, data NatSal ar gael ar-lein.	X, am nad yw'n cynnig data ar waith rhyw na phobl sy'n puteinio

	Awdurdod Lleol	Gwasanaethau cymorth, lleoliadau adloniant a drwyddeddir	Awdurdodau lleol yn cadw gwybodaeth am y lleoliadau adloniant a drwyddeddir yn eu hardal (ar gyfer dawnsio glin, tylino ac ati). Mae gan rai awdurdodau lleol ddata am wasanaethau cymorth sydd ar gael yn yr ardal.	Yn fodd i greu rhestr o leoliadau cofrestredig a gwasanaethau cymorth.	Data cyfyngedig. Bylchau yn y data. Dim gwybodaeth am leoliadau afreolaidd, nifer y gweithwyr/pobl sy'n puteinio.	v, cais rhyddid gwybodaeth. Fesul achos	v
--	----------------	--	--	--	---	---	---

Math o ffynhonnell	Is-fath o ffynhonnell	Beth? (data ar gael)	Pwy? (pa grwpiau)	Manteision	Cyfyngiadau	Hygyrchedd	Argymhellwyd?
Gweithwyr rhyw a phobl sy'n puteinio	Sefydliadau	Aelodau, natur gwaith rhyw,	Pobl sy'n gysylltiedig â phuteindra neu waith rhyw o'u gwirfodd, goroeswyr (os ydynt yn sefydliadau goroeswyr).	Hunanddiffiniad o weithiwr rhyw/goroeswr, gwybodaeth ddofn am y pwnc, cydnabod galluedd, gwybodaeth gyfredol, ymwybyddiaeth o'r tueddiadau diweddaraf.	Nid yw'r broses casglu data yn safonol, pryderon am ddiogelu defnyddwyr a data. Aseu'r lefel yn gymhleth.	Negodi fesul achos	v, rhaid negodi mynediad. Data ar natur, data cyfyngedig ar y lefel.
	Unigolion	Mynediad at wasanaethau, defnydd ar-lein, rhwydweithiau	Pobl sy'n gysylltiedig â phuteindra neu waith rhyw o'u gwirfodd, goroeswyr.	Hunanddiffiniad o weithiwr rhyw/goroeswr, gwybodaeth ddofn am y pwnc, cydnabod galluedd, gwybodaeth gyfredol, ymwybyddiaeth o'r tueddiadau diweddaraf.	Materion o ran mynediad ac ymddiriedaeth, gofynion amser, gall fod angen personél arbenigol (ystyriaethau moesegol). Aseu'r lefel yn gymhleth, oni chynhelir arolwg.	Negodi fesul achos	v, rhaid negodi mynediad. Data ar natur, data cyfyngedig ar y lefel.

<p>Trydydd partïon a Gwasanaethau sy'n gysylltiedig â gwaith rhyw</p>	<p>Llwyfannau Hysbysebu Ar-lein</p>	<p>Nifer y proffiliau. Nodweddion.</p>	<p>Esgortiaid, y rhai sy'n hysbysebu eu gwasanaethau ar-lein</p>	<p>Potensial i gasglu data cenedlaethol, setiau data safonol, gwybodaeth amser real.</p>	<p>Dim ond ochr ar-lein y busnes, yn anodd nodi proffiliau unigol unigryw/asesu cywirdeb gwybodaeth,</p>	<p>Nid yw proffiliau pen blaen yn cynrychioli proffiliau gweithredol.</p>	<p>v, rhaid negodi mynediad</p>
---	-------------------------------------	--	--	--	--	---	---------------------------------

Math o ffynhonnell	Is-fath o ffynhonnell	Beth? (data ar gael)	Pwy? (pa grwpiau)	Manteision	Cyfyngiadau	Hygyrchedd	Argymhellwyd?
	Lleoliadau	Nifer y cyflogeion, fesul gweithgaredd	Gweithwyr rhyw/pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau adloniant i oedolion.	Gwybodaeth gyfredol, y gallu i haenu sampl er mwyn adlewyrchu grwpiau gwahanol.	Materion o ran mynediad ac ymddiriedaeth, gofynion amser, gall fod angen personél arbenigol (ystyriaethau moesegol), gwybodaeth yn gyfyngedig i'r rheini sy'n gweithio mewn lleoliadau'n gyfreithlon, anodd nodi gweithwyr rhyw unigol unigryw.	Negodi fesul achos	✓, fel rhan o strategaeth samplu ehangach
	Gwasanaethau ar gyfer gweithwyr rhyw	Cleientiaid	Esgortiaid, y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.	Gwybodaeth safonol, data cyfredol.	Gall fod yn anodd negodi mynediad. Dim ond cleientiaid.	Negodi fesul achos	Ddim yn hygyrch ar hyn o bryd

Atodiad 7 – Amcangyfrifon blaenorol o'r lefel (1999-2018)

Ffynhonnell	Blwyddyn	Amcangyfrif	Poblogaeth	Dull	Manteision	Cyfngiadau
Kinnell, 1999	1999	80,000	Gweithwyr rhyw yn y DU (pob rhywedd, ond dynion yn debygol o gael eu tangynrychioli)	Darparwyr gwasanaeth a arolygwyd. Lluosydd yn amcangyfrif y gwahaniaeth rhwng defnyddwyr gwasanaeth a'r nifer amcangyfrifedig o weithwyr rhyw a phuteiniaid yn yr ardal.	Gwasanaethau cymorth yn adnabod gweithwyr rhyw, gweithwyr rhyw â chymhelliant i'w defnyddio a darparu data	Is-set fach o wasanaethau wedi darparu gwybodaeth, cael y ffactor llusoi drwy gymharu'r amcangyfrif yn erbyn yr amcangyfrif o weithwyr rhyw y credir eu bod yn bodoli gan wasanaethau. Rhai gweithwyr rhyw heb eu cynnwys e.e. wedi'u masnachu, esgortiaid
Abramsky a Drew, 2014	2004	58,000	Gweithwyr rhyw benywaidd yn y DU (dan do ac ar y stryd)	Amcangyfrif yn defnyddio amcangyfrifon Dickson (2004) a'r MET ar gyfer Llundain, gan eu hallosod i'r DU.	Amcangyfrif cenedlaethol. Gweithwyr dan do ac ar y stryd.	Sector rhyw Llundain yn annhebygol o gynrychioli'r DU. Tybiaethau ynghylch allosod heb eu profi. Am adolygiad llawn o'r cyfngiadau gweler Brooks-Gordon et al., (2015)
Import.io (2017)	2017	104,964	Gweithwyr rhyw sy'n hysbysebu ar-lein (pob	Data pen blaen wedi'u casglu gan un llwyfan	Amcangyfrif yn seiliedig ar ddata wedi'u casglu gan yr arweinydd amlwg	Dim adolygiad gan gymheiriaid. Defnydd o ddata pen blaen yn goramcangyfrif nifer y proffiliau

<p>Cusick et al., 2009</p>	<p>2007-08</p>	<p>35,882 (x3=107,656)</p>	<p>Gweithwyr rhyw a phuteiniaid yn y DU (pob rhywedd, ond dynion yn debygol o gael eu tangynrychioli)</p>	<p>Darparwyr gwasanaeth a arolygwyd. Gwasanaethau â blaenoriaeth sy'n gweithio'n bennaf gyda gweithwyr ar y stryd, neu mewn parlyrau tylino a fflatiau ac mewn rhai achosion esgortiaid. Lluosydd yn seiliedig ar ymchwil flaenorol.</p>	<p>Amcangyfrifon wedi'u llunio drwy wasanaethau cymorth sy'n adnabod gweithwyr rhyw. Casglu data sylfaenol, cymhelliant i weithwyr rhyw ddefnyddio'r gwasanaethau a darparu data gan ostwng cyfraddau diffyg ymateb, arbenigedd darparwyr gwasanaeth yn helpu i leihau nifer yr achosion o gyfrif dwbl.</p>	<p>Ddim yn cynnwys grwpiau sy'n llai cysylltiedig â gwasanaethau (e.e. esgortiaid annibynnol; dioddefwyr masnachu mewn pobl; y rhai nad ydynt yn ystyried eu hunain yn weithwyr rhyw; dynion). Defnydd o luosydd yn gofyn am dybiaethau na ellir eu profi'n empiraidd gyda'r data a ddefnyddiwyd. O ganlyniad, daw'r ymchwilwyr i'r casgliad mai amcangyfrif ceidwadol a lunnir</p>
----------------------------	----------------	--------------------------------	---	--	---	---

Ffynhon	Blwyddyn	Amcangy	Poblogaeth	Dull	Manteision	Cyfyngiada
						ac y gall y ffigur gwirioneddol fod hyd at deirgwaith yn fwy.
Brooks-Gordon, et al., 2015	2009/2013	72,816	Gweithwyr rhyw a phuteiniaid yn y DU (pob rhywedd, ond dynion yn debygol o gael eu tangynrychioli)	Darparwyr gwasanaeth a arolygwyd. Ategu data ag astudiaethau blaenorol ar gyfer poblogaethau nas cynrychiolir yn ddigonol (e.e. dynion)	Gofyn i wasanaethau cymorth nodi amcangyfrifon o weithwyr rhyw hysbys. Casglu data sylfaenol, cymhelliant i weithwyr rhyw ddefnyddio'r gwasanaethau a darparu data gan ostwng cyfraddau diffyg ymateb, arbenigedd darparwyr gwasanaeth yn helpu i leihau nifer yr achosion o gyfrif dwbl. Canfyddiadau allweddol wedi'u dilysu gan weithwyr rhyw ym mhob categori a nodwyd.	Data'n seiliedig ar amcangyfrifon o'r boblogaeth sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau, gan gymhwyso lluosydd. Ddim yn cynnwys grwpiau sy'n llai cysylltiedig â gwasanaethau (e.e. esgortiaid annibynnol; dioddefwyr masnachu mewn pobl; y rhai nad ydynt yn ystyried eu hunain yn weithwyr rhyw; dynion). Ni ofynnwyd i wasanaethau am y boblogaeth amcangyfrifedig. Lluosydd yn seiliedig ar ymchwil flaenorol, dim cyferbyniad.

Pitcher, J. 2015	2009-10	85,714	Gweithwyr rhyw ar y stryd a dan do yn y DU	Darparwyr gwasanaeth a arolygwyd. Lluosydd yn amcangyfrify gwahaniaeth rhwng defnyddwyr gwasanaeth a'r nifer amcangyfrifedig o weithwyr rhyw a	Amcangyfrifon yn seiliedig ar gyswllt â gwasanaethau, yn ogystal ag amcangyfrifon	Ddim yn cynnwys grwpiau sy'n llai cysylltiedig â gwasanaethau (e.e. esgortiaid annibynnol; dioddefwyr masnachu mewn pobl; y rhai nad ydynt yn ystyried eu hunain yn weithwyr rhyw; dynion). Defnydd o luosydd yn seiliedig ar ymchwil
Harworth et al., 2012	2010	1000 (is-genedla	Pobl sy'n gysylltiedig â gwaith rhyw yn	Gwaith mapio lleol drwy gyfweiliadau ansoddol helaeth â	Diffiniad eang o waith rhyw. Ymarfer mapio helaeth. Cwmpasu ystod eang o wasanaethau	Anodd osgoi cyfrif dwbl yn ogystal â chyrraedd y rhai sydd y tu hwnt i gyrraedd gwasanaethau. Yn debygol o

Ffynhon	Blwydd	Amcangyfrif	Poblogaeth	Dull	Manteision	Cyfyngiada
				gweithwyr proffesiynol a darparwyr.	Gallu nodi lleoliadau dros dro. Technegau gorlwytho a thriogli yn fodd i brofi dilysrwydd y data.	amcangyfrif sectorau dan do ac annibynnol. Amcangyfrifon ddim yn ddigon manwl.

Nodyn

Mae rhai cafeatau sy'n gymwys i'r holl ffynonellau a adolygwyd. Mae llunio amcangyfrifon o'r lefel yn dibynnu'n gyntaf ar nodi'r boblogaeth dan sylw. Yn yr astudiaeth hon, mae gwaith rhyw a phuteindra wedi'u diffinio mewn ffordd eang, sy'n cynnwys pob gwasanaeth rhywiol. Nid yw unrhyw astudiaeth a adolygwyd yn cynnwys data ar yr holl grwpiau hyn nac yn dilyn y fethodoleg a argymhellwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd/Rhaglen y Cenhedloedd Unedig ar HIV/AIDS. Mae'r data sydd eisoes ar gael yn debygol o danamcangyfrif yn sylweddol ffigurau ar gyfer grwpiau sy'n llai tebygol o fod mewn cysylltiad â gwasanaethau cymorth puteindra a gwaith rhyw, fel esgortiaid, dioddefwyr masnachu mewn pobl ac ecsbloetiaeth, mudwyr a/neu boblogaethau hynod symudol. Hefyd, mae ein hymchwil ansoddol ein hunain yn awgrymu nad yw rhai grwpiau, fel y rhai sy'n gysylltiedig â siwgro neu BDSM, yn ogystal â phobl sy'n cael rhyw ar hap am dâl, o reidrwydd yn ystyried eu hunain yn rhan o'r diwydiant rhyw: felly nid ydynt yn debygol o gael eu cyfrif.

Atodiad 8 – Dulliau casglu data a rannwyd ag (1) sefydliadau anllywodraethol a (2) heddluoedd

(1) Adnodd casglu data a rannwyd â sefydliadau anllywodraethol drwy enw cyswllt penodol

Os nad ydych mewn sefyllfa i rannu setiau data/adroddiadau, byddai'n hynod ddefnyddiol petaech yn darparu gwybodaeth am y grwpiau rydych yn gweithio gyda nhw (ychwanegwch unrhyw rai sydd ar goll gan ddefnyddio 'arall') ac unrhyw amcangyfrifon, os oes rhai gennych, gan ddefnyddio'r tabl isod. Gwerthfawrogwn y ffaith y gall ffiniau fod yn aneglur ac y bydd rhai unigolion yn gorgyffwrdd categorïau efallai: croesawn eich sylwadau ar hyn yn ogystal ag unrhyw wybodaeth ychwanegol yn y golofn nodiadau. Defnyddiwch gymaint neu gyn lleied o le ag sydd ei angen arnoch. Gadewch unrhyw categori nad yw'n gymwys yn wag.

Sefydliad _____ Dinas/Rhanbarth _____ Dyddiad _____

	Nifer amcangyfrifedig y mae'r sefydliad yn gweithio/rhyngweithio â nhw (nodwch gyfnod e.e. wythnos/blwyddyn/mis: _____)				Cyfanswm nifer amcangyfrifedig yn y ddinas/rhanbarth (nodwch gyfnod e.e. wythnos/blwyddyn/mis: _____)				Nodiadau/Sylwadau
	Benyw	Gwryw	Trawsryweddol (MTF)	Trawsryweddol (FTM)	Benyw	Gwryw	Trawsryweddol (MTF)	Trawsryweddol (FTM)	
Gweithwyr rhyw									
Gweithwyr a reolir dan do									
Gweithwyr asiantaeth									
Gweithwyr annibynnol									
Masseurs erotig									
Dawnsywyr									
Gwe-gamwyr									
Gweithwyr									
Arall 1 (nodwch: _____)									
Arall 2 (nodwch: _____)									

Trawsryweddol MTF = gwryw i fenyw; FTM = benyw i wryw.

'a reolir dan do', 'asiantaeth', 'annibynnol dan do': yma ceisiwn wahaniaethu rhwng unigolion sy'n teimlo eu bod yn gweithio i rywun, i asiantaeth, neu i'w hunain.

Gwerthfawrogwn fod gorgyffwrdd a chroesawn eich nodiadau/sylwadau i egluro. Diolch

	Nifer amcangyfrifedig ymae'r sef yn gweithio/rhyngweithio â nhw (nodwch gyfnod e.e. wythnos/blwyddyn/mis: _____)					Cyfanswm nifer amcangyfrifedig yn y ddinas/rhanbarth (nodwch gyfnod e.e. wythnos/blwyddyn/mis: _____)					Nodiadau/Sylwadau
	Gwladoli on y DU	Gwladoli on nad ydynt yn perthyn	Wedi dioddef masnachu mewn pobl a/neu	Wedi dioddef masnachu mewn pobl a/neu	Ymgysylltu dros dro	Gwladoli on y DU	Gwladoli on nad ydynt yn perthyn	Wedi dioddef masnachu mewn pobl a/neu	Wedi dioddef masnachu mewn pobl a/neu	Ymgysylltu dros dro	
Gweithwyr rhyw ar y stryd											
Gweithwyr a reolir dan do (e.e. mewn sawnau, parlyrau,											
Gweithwyr asiantaeth (e.e. esgort, llawn amser, BDSM,											
Gweithwyr annibynnol dan do (e.e. esgort, llawn amser, BDSM,											
Masseurs erotig											
Dawnsywyr erotig/glin											
Gwe-gamwyr											
Gweithwyr ffilmiau i oedolion											
Arall 1 (nodwch: _____)											
Arall 2 (nodwch: _____)											

Ystyr 'masnachu mewn pobl' a/neu 'ecsbloetiaeth' yma yw unigolion sydd, yn ôl yr hyn a ddywedant eu hunain neu asesiad y prosiect, yn gysylltiedig â'r rhestr o wasanaethau rhywiol am eu bod wedi'u gorfodi neu eu bygwth. Mae hyn yn cynnwys masnachu mewn pobl/caethwasiaeth fodern yn ogystal â gorfodaeth neu ecsbloetiaeth gan bimp. Efallai y cânt eu symud o fewn ac ar draws ffiniau mewnol neu genedlaethol, ond nid bob tro.

Ystyr 'ymgysylltu dros dro' yw unigolion sy'n gwneud gwaith achlysurol neu, er enghraifft, i ddiwallu anghenion neu ddymuniadau ariannol achlysurol, bob ychydig fisoedd efallai. Byddai hyn mewn cyferbyniad â chyfnodau mwy rheolaidd neu hirach o ymgysylltu.

Cyfrinachedd: Bydd y data rydych yn eu darparu yn cael eu storio mewn ffolder y cyfyngir mynediad iddo ar weinydd y Brifysgol. Ni fyddwn yn rhannu'r wybodaeth hon na'r data hyn ag unrhyw un arall. Pan fyddwn yn llunio'r adroddiad, gadewch i ni wyboda hoffech i ni gydnabod i chi/eich sefydliad rannu data â'r prosiect, neu a fyddai'n well gennych aros yn ddi-enw

(2) Adnodd casglu data a rannwyd â phob heddlu yng Nghymru a Lloegr drwy Bwyllgor P&SW NPCC i Bwyntiau Cyswllt Arbennig

1. Amcangyfrifon ar gyfer eiddo a phoblsy'n gwerthu rhyw, yn ôl lleoliad/math

a. Nifer y sawnau masnachol a pharlyrau tylino lle gwyddys eu bod yn cynnig gwasanaethau rhywiol neu yr	Ardal ddaearyddol (ardal yr heddlu, arall e.e. isranbarth, tref/dinas)	Amcang yfrif gorau	Amcang yfrif isaf	Amcang yfrif uchaf	Ffynhonnell data	Sylwadau
2015/2016**						
2016/2017						
2017/2018						
2018/2019						

* Byddwn yn cael data ar sawnau masnachol a pharlyrau tylino'n gyffredinol, ond deallwn fod rhai heddluoedd yn casglu data ar y rhai y gwyddys neu yr amheuir eu bod yn cynnig gwasanaethau rhywiol yn benodol.

*Ebrill-Ebrill. Os yw'ch data yn cyfeirio at gyfnod gwahanol o amser, nodwch hynny yn y golofn sylwadau. Gall ffigurau gyfeirio at unrhyw gyfnod o amser yn y flwyddyn dan sylw, e.e. y rhai a gesglir yn ystod asesiad cipolwg diwrnod o hyd, a gesglir dros flwyddyn ac ati.

b. Nifer y lleoliadau preswyl sy'n gweithredu fel puteindai, e.e. fflatiau, 'walk-	Ardal ddaearyddol (ardal yr heddlu, arall e.e. isranbarth,	Amcang yfrif gorau	Amcang yfrif isaf	Amcang yfrif uchaf	Ffynhonnell data	Sylwadau
2015/2016						
2016/2017						
2017/2018						
2018/2019						

*Parhaol a dros dro (e.e. 'pop-up').

c. Nifer y bobl sy'n gwerthu rhywar y stryd*	Ardal ddaeryddol (ardal yr heddlu, arall e.e. isranbarth,	Amcang yfrif gorau	Amcang yfrif isaf	Amcang yfrif uchaf	Ffynhonnell data	Sylwadau
2015/2016						
2016/2017						
2017/2018						
2018/2019						

*Lithio ar y stryd/mewn lleoliadau awyr agored at ddiben cynnig gweithredoedd rhywiol am dâl; gall y gweithredoedd rhywiol eu hunain ddigwydd oddi ar y stryd.

ch. Nifer yr esgortiaid a/neu weithwyr rhyw annibynnol*	Ardal ddaeryddol (ardal yr heddlu, arall e.e. is-	Amcang yfrif gorau	Amcang yfrif isaf	Amcang yfrif uchaf	Ffynhonnell data	Sylwadau
2015/2016						
2016/2017						
2017/2018						
2018/2019						

*E.e. gweithio gartref, hysbysebu eu gwasanaethau ar-lein ac nid drwy asiantaeth.

2. Er mwyn i niddeall cyd-destun eich data'n well, a allech hefyd roi'r wybodaeth ganlynol i ni:

- a. A yw'ch heddlu (neu uned) yn sganio'r we'n rheolaidd (e.e. gwefannau gwasanaethau i oedolion, cyfeiriaduron parlyrau) am wybodaeth am unrhyw un o'r meysydd uchod? Os yw, ers pryd?

- b. A yw'ch heddlu (neu uned) yn monitro lleoliadau puteindra ar y stryd a/neu leoliadau dan do sy'n cynnig gwasanaethau rhywiol yn rheolaidd, a/neu'n ymweld â'r lleoliadau hyn yn rheolaidd? Os yw, ers pryd?

Atodiad 9 – Adnodd asesu ansawdd data arfaethedig

Adnodd asesu ansawdd data: Asesu ansawdd data ar buteindra a gwaith rhyw

Rhaid gallu asesu ansawdd data er mwyn llunio amcangyfrifon cywir a nodi bylchau posibl yn y wybodaeth sy'n bodoli eisoes. Isod argymhellwn adnodd a all gael ei ddefnyddio i asesu ansawdd data ar y sawl sy'n gysylltiedig â'r diwydiant rhyw. Gall yr adnodd asesu data fod o fudd i sefydliadau unigol yn ogystal â'r rheini sy'n anelu at gynllunio a gweithredu ymyriadau ar lefel leol neu ranbarthol. Mae'r canllawiau'n seiliedig ar y rhai a ddarparwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd (2017) i asesu ansawdd data iechyd, ond maent wedi'u haddasu er mwyn adlewyrchu natur benodol y sawl sy'n gysylltiedig â phuteindra a gwaith rhyw, adnoddau sy'n bodoli eisoes a'r systemau casglu data.

1. Nodyn methodolegol: natur (data) puteindra a gwaith rhyw

Mae natur puteindra a gwaith rhyw yn peri heriau o ran casglu data. Mae gwaith rhyw wedi'i **guddio** yn aml. Mae'r stigma sy'n aml yn gysylltiedig â phuteindra a gwaith rhyw yn golygu bod gweithgareddau yn digwydd yn breifat yn aml (Sanders, 2006). O ganlyniad, efallai na fydd rhai pobl sy'n gysylltiedig â phuteindra a gwaith rhyw yn nodi eu bod, ac efallai na fyddant mewn cysylltiad â sefydliadau cymorth nac yn barod i gymryd rhan mewn ymchwil. Mewn achosion lle torrir y gyfraith, neu fod y sefyllfa o ran cyfreithlondeb rhywbeth yn aneglur, mae hyd yn oed fwy o reswm i gelu gweithgareddau. Mae puteindra a gwaith rhyw yn digwydd **dros dro** yn aml. Bydd pobl yn symud i mewn ac allan o buteindra a gwaith rhyw, ar draws gweithgareddau, ac o le i le, sydd i gyd yn golygu ei bod hi'n heriol cael data cadarn ac amserol. At hynny, mae gwaith rhyw yn **amlhaenog**, gan gwmpasu ystod eang o weithgareddau. Mae ehangiad y rhyngrwyd dros y ddau ddegawd diwethaf wedi arallgyfeirio'r diwydiant hyd yn oed yn fwy (Sanders et al. 2018). Mae'r nodweddion hyn o'r diwydiant yn peri her wrth lunio amcangyfrifon dilyys a chadarn.

Nid oes un sefydliad yn cadw data allweddol (fel y GIG yn achos cryn dipyn o ddata iechyd). Mae **amrywiaeth o bartion** yn ymgysylltu â phobl sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw (sefydliadau anllywodraethol, sefydliadau statudol, yr heddlu, cyrff llywodraethol, academyddion ac ati), ac mae ganddynt wahanol genhadaeth, blaenoriaethau a strwythurau, a bydd rhai yn gweithredu heb fawr ddim cyllideb o gwbl. Mae hyn yn golygu mai **prin** y cesglir data mewn ffordd **gyson**. Mae pryderon am **gyfrinachedd** a diogelu cleientiaid agored i niwed yn gwneud y gwaith o rannu data yn heriol. Hefyd, gall gweithwyr rhyw fod mewn cysylltiad â rhai sefydliadau ond nid eraill, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau yn ogystal â'r cymorth a gynigir yn y rhanbarth. Efallai na fydd rhai mewn cysylltiad ag unrhyw sefydliad. Felly, mae casglu gwybodaeth oddi wrth is-set o sefydliadau yn debygol o greu **darlun rhannol** o'r diwydiant.

Nid yw'r uchod yn golygu na ellir creu darlun o buteindra a gwaith rhyw yn y DU, ond mae yn golygu bod angen bod yn ofalus wrth edrych ar unrhyw ddarlun neu ffigur ac ystyried y cyfyngiadau. **Nod yr adnodd asesu ansawdd data a gyflwynir yma yw hwyluso'r gwaith o werthuso a chymharu'r data sydd ar gael ar buteindra a gwaith rhyw drwy ddarparu dull syml ond systematig.**

2. Meini prawf ansawdd data

Yn dilyn argymhellion Sefydliad Iechyd y Byd (2017) caiff ansawdd data ei asesu gan ddefnyddio pedwar maen prawf: amseroldeb, cyflawnrwydd, cysondeb a dibynadwyedd, a chywirdeb.

Amseroldeb: Mae'r wybodaeth yn gyfredol fel bod modd gwneud penderfyniadau ar sail y statws cyfredol

GIG statudol								
Awdurdod lleol								
Cydweithfa								

Cyswllt (N): Nifer yr unigolion yn y grŵp hwn y mae'r ymatebydd mewn cysylltiad â nhw.

Amcangyfrif (N): Amcangyfrif yr ymatebydd o faint y boblogaeth yn ei ardal

(dinas/rhanbarth) Blwyddyn: y mae'r wybodaeth yn cyfateb iddi (yn ddefnyddiol i

asesu amseroldeb)

Cyswllt/Amcangyfrif Diwethaf (N): cyfeirio at ddata blaenorol a ddarparwyd gan yr un ymatebydd os o gwbl

Cysondeb: cyfeirio at y gwahaniaethau rhwng gwerthoedd a nodwyd naill ai rhwng dau bwynt mewn amser (*Amser*) neu ddwy neu fwy o ffynonellau (*Ffynonellau*).

Nodiadau: Mae'r adran hon yn galluogi ymatebwyr i dynnu sylw at unrhyw broblemau gyda'r data.

Cam 3 cyfuno'r wybodaeth ar lefel dinas/rhanbarth

Unwaith y bydd data wedi'u casglu oddi wrth wahanol ffynonellau y cam nesaf yw asesu'r data yn ôl meini prawf ansawdd set.

Amseroldeb: Ar gyfer pob ffynhonell pryd y cafodd y wybodaeth ei chasglu ddiwethaf? Tynnwch sylw at unrhyw ffynhonell lle mae'r wybodaeth yn 3+ oed.

Cyflawnrwydd:

- Nodwch gydweithfeydd lle nad oes unrhyw ffynhonell ddibynadwy, neu dim ond un.
- Nifer y cydweithfeydd lle ceir gwybodaeth a nifer y ffynonellau

Grŵp	Dim gwybodaeth	Un ffynhonell	Dwy ffynhonell	Tair neu fwy
G1				
G2				
...				

Cysondeb: A yw ffynonellau yn llunio amcangyfrifon tebyg?

- Nodi allanolynnau: gwerthoedd hynod uchel neu hynod isel. Aseswch gredadwyedd y data
- Tanlinellwch gelloedd yn ôl lefel y gwahaniaeth (llai nag 20%, 20-39%, 40-59%, 60-99% >100%). Dylid archwilio gwahaniaeth o 20% neu fwy. Dylid asesu gwahaniaeth o 40% neu fwy.
- A ellir egluro'r gwahaniaeth?

Cywirdeb: A godwyd pryderon am gywirdeb y data? Ystyriwch y rhain a nodwch eu heffaith debygol ar yr amcangyfrifon (Ansoddol)

Cam 4: Diwygio

Y cam olaf yw gwerthuso'r broses a'r canlyniadau ac ystyried p'un a oes angen gwneud newidiadau i'r offerynnau a'r broses o gasglu data. Y cwestiynau allweddol i'w gofyn yw:

- A oes grwpiau newydd wedi dod i'r amlwg neu a welwyd newidiadau yn y boblogaeth?
- A oes unrhyw fylchau yn y data?
- A oes unrhyw sefydliadau sydd heb eu cynnwys ond a all ddarparu data defnyddiol?

Mae'r cam myfyrio a diwygio hwn yn un ansoddol a fydd yn helpu i asesu cyfyngiadau'r data sydd wedi'u casglu yn ogystal â llywio'r camau nesaf.

4. Casgliad

Ar ôl cymhwyso'r adnodd asesu ansawdd data, bydd sefydliadau yn gallu gwerthuso ansawdd amcangyfrifon o lefel puteindra/gwaith rhyw yn eu hardal, yn ogystal â nodi cyfyngiadau ac anghenion data yn y dyfodol.

Atodiad 10 - Dadansoddi data llwyfannau ar-lein

Yma edrychwn ar broffiliau dau lwyfan ar-lein (Llwyfan A a Llwyfan B). Mae Llwyfan A a Llwyfan B yn arwain y farchnad yn genedlaethol o ran hysbysebu gwasanaethau i oedolion ar-lein. Cytunodd y ddau i ddarparu data pen blaen dienw ar ffurf grai neu gryno, er mwyn i ni eu dadansoddi.

Canolbwyntiwn ar nodweddion demograffaid-gymdeithasol allweddol: rhywedd, cis/trawsryweddol, cyfeiriadedd rhywiol, oedran ac ethnigrwydd.¹⁴ Nid oedd yr holl wybodaeth ar gael ar gyfer y ddau lwyfan. Lle darparwyd data cymaradwy, cyferbynnwn y canfyddiadau. Mae gwybodaeth yn seiliedig ar ddata glân, lle nad yw proffiliau anghyflawn na segur wedi'u cynnwys.

Mae menywod yn cynrychioli tua 3 o bob 4 hysbysebwr gwasanaethau ychwanegol ('back-end') ar y ddau lwyfan ar-lein. Mae 23-30% yn ddynion. Mae'r mwyafrif yn nodi eu bod yn cis-ryweddol, gyda lleiafrif bach (1-4%) yn nodi eu bod yn Draws.¹⁵

Esgortiaid yn ôl rhywedd fesul rhanbarth yn Llwyfan B (0%)

Rhywe	Pawb Cymru a Lloegr	Rhanbarthau			
		Llundai	Gogledd-	Cymru	Bryste
Benyw	76	71	77	70	79
Gwryw	23	27	21	26	21
Traws*	1	2	2	4	
Cyfans	100	100	100	100	100

*Gweler troednodyn 15

Mae data Llwyfan B yn ein galluogi i archwilio gwahaniaethau rhanbarthol. Mae lleiafrif sylweddol o esgortiaid gwrywaidd a thrawsryweddol sy'n defnyddio'r safle yn Llundain. Tra bod 25% o'r holl esgortiaid yn Llundain, mae hyn yn wir am 29% o esgortiaid gwrywaidd (hoyw) a 47% o esgortiaid traws sy'n hysbysebu ar y dudalen. Mae llai o esgortiaid gwrywaidd yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr ar y gronfa ddata o gymharu â'r ardaloedd eraill. Fodd bynnag, ni ellir llunio casgliadau yn seiliedig ar hyn yn unig. Yn syml, gall fod oherwydd bod safleoedd eraill yn fwy poblogaidd ymhlith y grŵp hwn.

Mae data gwasanaethau ychwanegol Llwyfan A yn cynnwys manylion am gyfeiriadedd rhywiol. Dim ond pedwar o bob deg o ymatebwyr sy'n adnabod eu hunain yn heterorywiol, a dim ond 1% yn hoyw, tra bod 35% yn datgan eu bod yn ddeurywiol a 23% yn ddechwilgar, sy'n gyfran llawer uwch na'r boblogaeth gyffredinol (mae 93% o Brydeinwyr yn adnabod eu hunain yn heterorywiol yn ôl SYG, 2017). Dengys dadansoddiadau pellach mai proffiliau benywaidd yw'r rhain gan mwyaf. Mae sawl esboniad posibl am y canfyddiad hwn. Efallai fod pobl nad ydynt yn heterorywiol (menywod yn arbennig) yn fwy tebygol o wneud gwaith rhyw. Fel arall, efallai fod gweithwyr rhyw yn fwy tebygol o ddatgelu cyfeiriadedd rhywiol annhraddodiadol (deurywiol neu ddechwilgar), e.e. er mwyn hyrwyddo marchnadwydd eu proffil. I grynhoi, efallai y bydd neu efallai na fydd y cyfeiriadedd a nodir yn adlewyrchu eu cyfeiriadedd rhywiol gwirioneddol (roedd hyn yn gymwys i nodweddion eraill hefyd).

¹⁴ Yn anffodus, nid oedd modd ystyried cenedligrwydd oherwydd bod cymaint o ddata ar goll.

¹⁵ Mae'r wybodaeth a ddarperir wedi'i chyfyngu gan y data a gasglwyd gan y llwyfannau. Yma defnyddir 'traws' i ddynodi amrywiaeth o hunaniaethau gan gynnwys trawsryweddol, trawsrywiol, trawswisgol ac eraill. Rydym yn ymwybodol bod y categori hwn, sy'n gorfod bod yn eang, yn cynnwys mathau gwahanol iawn o gyfeiriadedd rhywiol, rhyweddau a phrofiadau. Ni dyw'r llwyfan yn cynnwys opsiynau eraill fel anneuaidd ac felly nid oes modd nodi cyfran yr unigolion yn y categorïau hyn. Mae mwyafrif yr hysbysebwr yn y categori hwnnwyn dweud eu bod yn fenywod yn eu proffiliau.

Mae oedranau'r hysbysebwr yn amrywio ar draws llwyfannau. Isod cymharwn yr oedran a nodwyd (hunan-ddatgan) mewn dau llwyfan. Yn Llwyfan A, mae un o bob deg hysbysebwr rhwng 18 ac 21 oed. Dim ond 3% o broffiliau a gynrychiolir gan bobl ifanc iawn (18-19 oed). Mae 30% arall rhwng 22 a 26 oed, ac mae 28% rhwng 26 a 32 oed. Noda traean o'r hysbysebwr eu bod yn 33 oed neu drosodd. Mae un o bob deg o hysbysebwr yn 45 oed neu drosodd.

Proffiliau oedran yn Llwyfan A a B		
	Llwyfan A	Llwyfan B
18-21	11	23
22-26	29	49
27-32	28	16
33-44	21	9
45+	10	3
Ar goll	1	
Cyfanswm	100	100

Ymddengys fod y proffiliau a hysbysebir ym Mhlatfform B yn iau nag ym Mhlatfform A: mae 23% rhwng 18 a 21 oed ac mae bron i 50% rhwng 22 a 26 oed (noder, fodd bynnag, y caiff oedran ei hunangofnodi a gall defnyddwyr ddewis nodi oedran mwy "dymunol"). Dim ond 3% sy'n 45 oed neu drosodd. Mae'r gwahaniaethau hyn yn debygol o effeithio ar batrymau defnydd a ffurfiau ymgysylltu ar draws grwpiau oedran, ac maent yn dangos risgiau dod i gasgliadau am y diwydiant drwy ddibynnu ar un ffynhonnell.

Mae gwybodaeth am ethnigrwydd hefyd yn cael ei hunanddatgan ac felly mae angen ei dehongli'n ofalus. Mae ein cyfweiliadau'n awgrymu y bydd rhai hysbysebwr yn hysbysebu eu hunain gan ddefnyddio ethnigrwydd mwy "dymunol" (e.e. rhai o Ddwyrain Ewrop yn hysbysebu eu hunain yn Latina/o). Mae tua phedwar o bob deg o esgortiaid yn Llwyfan B yn nodi eu bod yn Wyn. Mae un o bob pedwar yn datgan eu bod yn Latina/o, sy'n fwy cyffredin ymhlith menywod (25% o gymharu â 12% o ddynion a 44% o bob esgort traws).

Mae tua un o bob deg o bobl yn ticio "categori arall" – credir mai pobl sy'n ansicr am eu hunaniaeth sy'n gwneud hyn. Fesul rhanbarth, tangynrychiolir pobl Wyn yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, lle mae 50% o'r hysbysebwr yn y llwyfan penodol hwn yn hysbysebu eu bod yn Latina/o.

Esgortiaid yn ôl rhywedd ac ethnigrwydd a nodwyd Llwyfan B (0%)

Ethnigrwydd	Rhywedd			Cyfa
	Benyw	Gwry	Traws	
Affricanaidd/Caribiaid	2	7		3
Asiaidd	11	11	13	11
Gwyn	36	64	27	41
Latina/o	25	12	44	23
Dwyrain Canol	0	6		2
Cymysg	9		13	7
Arall	16	0	2	13
Cyfanswm	100	100	100	100

*Gweler troednodyn 15.

Mae'r patrwm yn Llundain yn cyfateb i ddosbarthiad cyffredinol Cymru a Lloegr fwy neu lai, er bod Latino/a wedi'i orgynrychioli rhywfaint. Er hynny, mae hanner yr esgortiaid benywaidd

Affricanaidd/Caribiaidd a 40% o esgortiaid gwrywaidd Affricanaidd/Caribiaidd yn Llundain. Yn yr un modd, mae 53% o'r holl esgortiaid gwrywaidd Latino, a 75% o'r holl esgortiaid traws Latina yn Llundain.

Er mwyn deall graddau'r goramcangyfrif a sut mae'n amrywio ar draws grwpiau, cyferbynnwn gyfanswm nifer y proffiliau â nifer y proffiliau â gwybodaeth ddemograffaid-gymdeithasol gyflawn (colofn dau). Mae'r golofn olaf yn nodi proffiliau cyflawn fel canran o'r cyfanswm. Mae proffiliau cyflawn yn fwy tebygol o fod yn weithredol ac yn ddefnyddwyr rheolaidd (e.e. mae'r rhai heb wybodaeth allweddol yn llai tebygol o ymddangos ar y rhestrau unwaith yr hidlir canlyniadau).

Mae gwahaniaethau nodedig o ran rhywedd: mae gan 68% o fenywod broffiliau cyflawn, o gymharu â dim ond 19% o ddynion, a 40% o gyplau. Mae ymatebwyr iau yn fwy tebygol o gael proffil cyflawn na rhai hŷn. Nid yw'r gwahaniaethau ar gyfer grwpiau eraill mor fawr. Mae'r ganran uwch o broffiliau cyflawn ymhlith pobl ddeurywiol a deuchwilgar yn debygol o fod yn effaith rhywedd o ystyried bod y rhan helaeth o'r rheini sy'n nodi eu bod yn ddeuchwilgar yn fenywod. Ar y cyfan, mae amcangyfrifon yn seiliedig ar nifer y proffiliau yn debygol o oramcangyfrif gweithgarwch ymhlith dynion, a chyplau o gymharu â menywod, a gweithwyr hŷn o gymharu â gweithwyr iau.

Proffiliau ar lwyfan ar-lein yn ôl nodweddion demograffaid-

		%	% proffiliau cyflawn ym mhob categori
	Cwpl FF	1	40
	Cwpl MF	3	39
	Cwpl MM	0	40
	Benyw	67	68
	Gwryw	29	19
Rhywedd	Ar goll	0	
<hr/>			
	Cis-ryweddol	96	53
	Trawsryweddol/Trawswis	4	45
Cis/Trawsryweddol	Ar goll	0	
<hr/>			
	Deuchwilgar	23	64
	Deurywiol	35	58
	Hoyw	1	35
	Strêt	40	42
cyfeiriadedd hywiol	Ar goll	1	
<hr/>			
	18-21	11	70
	22-26	29	63
	27-32	28	56
	33-44	21	43
	45+	10	36
Oedran	Ar goll	1	

*Gweler troednodyn 15

cyfeiriadedd rhywiol

Atodiad 11 - Mesurau diogelwch llwyfannau ar-lein: Llwyfan B

Mae Llwyfan B yn hynod ymwybodol o'r risg y gallai ei safle gael ei ddefnyddio gan unigolion at ddiben gweithgarwch anghyfreithlon. Am y rheswm hwn, mae Llwyfan B wedi datblygu nifer o fesurau diogelwch, a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu mathau newydd o drosedd, ac yn unol ag adborth gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith a phartneriaid allanol. Mae'r llwyfan hefyd yn gweithio gyda heddluoedd ledled Cymru a Lloegr, fel sydd angen, ac mae wedi cydweithio â'r Swyddfa Gartref er mwyn helpu i ddatblygu dull gweithredu ar gyfer y diwydiant cyfan ar gyfer nodi ac atal masnachu mewn pobl ar-lein.

Mae'r mesurau diogelwch hyn yn cynnwys cofrestru defnyddwyr, a dilysu dulliau adnabod a thalu. Mae'r safle hefyd yn blocio hysbysebion sy'n bodloni meini prawf risg uchel, a adolygir mewn partneriaeth â sefydliadau partner eraill a'r heddlu yn rheolaidd.

Mae Llwyfan B yn cydweithio â sefydliad cenedlaethol sy'n ymroddedig i nodi unigolion sy'n ceisio niweidio gweithwyr rhyw. Mae'r llwyfan yn ariannu aelodaeth o'r sefydliad ar gyfer ei holl ddefnyddwyr, ac yn annog gweithwyr rhyw i ddod yn aelodau er mwyn cael rhybuddion ganddo a help i ddogfennu a rhoi gwybod am weithgarwch troseddol. Mae'r llwyfan hefyd yn rhoi gwybod i'r sefydliad hwn am unrhyw gyfrifon amheus er mwyn sicrhau bod yr asiantaeth briodol yn ymdrin ag unrhyw droseddoldeb ac ecsbloetiaeth bosibl.

Gall holl ddefnyddwyr y safle hefyd gofrestru unrhyw bryderon am fasnachu mewn pobl ac ecsbloetiaeth. Bydd baner ar y sgrin yn eu cyfeirio at sefydliad arbenigol trydydd parti i roi gwybod am unrhyw bryderon. Mae Llwyfan B hefyd yn cynnig hysbysebion baner am ddim i sefydliadau diogelwch ac allgymorth gweithwyr rhyw ar ei wefan. Arddangosir y baneri i weithwyr rhyw wrth iddynt lenwi eu hysbyseb, a gallant gael eu targedu i ranbarthau penodol neu eu dangos yn genedlaethol.

Noda Llwyfan B y byddai'n llawer haws iddo nodi pryderon am fasnachu mewn pobl ac ecsbloetiaeth drwy gael un pwynt cyswllt i roi gwybod am broblemau'n genedlaethol. Byddai mwy o gydweithio rhwng asiantaethau perthnasol a llwyfannau i oedolion hefyd yn gwella arfer yn y sector cyfan.

Atodiad 12 – Canfyddiadau allweddol proses casglu data sefydliadau anllywodraethol

Yn dilyn trafodaethau â sefydliadau anllywodraethol a dosbarthu adnodd casglu data (gweler **Adran 2: Lefel**, is-adran **Elusennau a sefydliadau anllywodraethol – data prosiect**), gwnawn y sylwadau canlynol:

1. Dim ond gyda menywod (wedi'u hunan-nodi) roedd wyth o'r 11 o sefydliadau a ymatebodd yn gweithio. Dywedodd sawl sefydliad mai cyllid oedd y prif reswm dros hyn.
2. Ymhlith y sefydliadau oedd yn gweithio gyda dynion, roeddent yn dueddol o fod yn gyfran lai o'u cleientiaid (yn amrywio o 0-6 chleient gwrywaidd).
3. Roedd sefydliadau yn cefnogi rhwng 24 menyw dros flwyddyn a 353 mewn chwarter, gan danlinellu natur amrywiol sefydliadau a'r ffaith y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli cyfartaleddau.
4. Un o gyfyngiadau ein hymarfer casglu data yw'r ffaith na wnaeth unrhyw sefydliad a oedd yn gweithio gyda dynion yn unig ymatebi'n cais am ddata, er i ni gynnal cyfarfodydd ymgynghori unigol gyda'r rhan hon o'r sector.
5. Ni allai dau sefydliad ddarparu dadansoddiadau o rywedd.
6. Roedd sefydliadau yn amrywio o ran faint o ddata oedd yn cael eu casglu, a'u manylder.

Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau, ond nid pob un, yn casglu gwybodaeth am rywedd eu cleientiaid. Dim ond dau sefydliad oedd yn gallu darparu amcangyfrifon o p'un a oedd eu cleientiaid yn drawsryweddol.

7. Roedd chwe sefydliad yn arbenigo mewn grwpiau mewn perygl, gweithwyr stryd yn bennaf, a hefyd ddiodefwr masnachu mewn pobl a/neu gam-fanteisio rhywiol.
8. Roedd y sefydliadau eraill yn cefnogi gweithwyr dan do ac yn yr awyr agored.
9. Gwnaeth mwyafrif y sefydliadau rannu data ar genedligrwydd (gwladolion y DU o gymharu â gwladolion nad ydynt yn perthyn i'r DU) ond rhybuddiodd rhai mai amcangyfrifon oedd eu data.
10. Gwnaethom ofyn i sefydliadau ddarparu eu hamcangyfrifon gorau ar gyfer cyfanswm y boblogaeth yn eu hardal, o gymharu â nifer y defnyddwyr gwasanaeth maent mewn cysylltiad â nhw. Amcangyfrifodd sefydliadau fod cyfanswm poblogaeth gweithwyr rhyw yn eu hardal rhwng 1.3 a 3.4 gwaith maint eu defnyddwyr.
11. Llywir y broses casglu data gan ofynion gweithredol a gofynion cyllidwyr: nid oes dull safonol o gasglu data rhwng sefydliadau.
12. O ystyried yr amrywiad sylweddol, mae defnyddio'r lluosyddion hyn i lunio amcangyfrifon cyffredinol o'r lefel yn debygol o esgor ar amcangyfrifon bras ar y gorau.
13. Tanlinellodd rhai sefydliadau'r ffaith ei bod hi'n anodd cael gafael ar ddata ar ddiodefwr ecsbloetiaeth neu fasnachu mewn pobl, oherwydd trawma, rhwystrau iaith, neu ofn allgludiad. Codwyd y pryder hwn yng nghyfarfodydd ymgynghori'r rhanddeiliaid, lle soniwyd yn fynych am y risg o anwybyddu'r rhai mwyaf agored i niwed.
14. Yn yr un modd, cododd amrywiaeth o sefydliadau bryderon am rannu data (diogelu data), yn enwedig o ran defnyddwyr gwasanaeth agored i niwed.